ECO'R WYDDFA

Rhif 208 NADOLIG 1994 / IONAWR 1995 Pris 25c.

Mae'r ddau fach yma wedi gwirioni ar ôl ymweliad buan Siôn Corn â'r ardal.

Diwedd blwyddyn . . . dechrau bywyd newydd

Mae'r Nadolig yn amser o hapusrwydd a gobaith i'r rhan fwyaf ohonom, ond daw'r Nadolig hwn a hapusrwydd a gobaith arbennig i dri o drigolion ardal yr Eco a'u teuluoedd.

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio cafodd y tri ohonynt aren newydd yn Ysbyty'r Royal, Lerpwl, a daeth dau ohonynt at ei gilydd i sôn am eu profiad wrth yr *Eco*.

Cafodd Meira Willis o Lanberis ei thrawsblaniad yn ôl ym mis Mawrth. Roedd wedi bod ar y rhestr aros am rhyw dri neu bedwar mis cyn hynny. 'Mae llawer o bethau yn penderfynu pa mor hir fydd yn rhaid i chi aros,' meddai Meira. 'Mae'n dibynnu'n hollol pryd y daw aren sy'n addas o ran grŵp gwaed, a sawl ffactor arall, ar gael.'

Ni fu Alwyn Jones, Racca, Penisarwaun, mor ffodus â Meira gan y bu'n rhaid iddo ef ddisgwyl ychydig dros ddwy flynedd cyn cael yr alwad bwysig o'r ysbyty. Canodd y ffôn am 5.20 a.m. — rhyw ddeng wythnos yn ôl bellach — ac o fewn llai na deuddeng awr roedd yn theatr yr ysbyty yn derbyn ei drawsblaniad.

Y trydydd o'r fro oedd Dylan Jones o Benisarwaun. Derbyniodd Dylan ei drawsblaniad tua'r un amser â Meira.

Mae Alwyn a Meira yn edrych yn ôl ar y cyfnod cyn eu trawsblaniad fel un digon anodd. Roedd yn rhaid iddynt dderbyn dialasis rhwng pedair a chwe gwaith y dydd, ac o reidrwydd roedd eu bywydau yn troi o gwmpas hynny. Cyfaddefodd Alwyn ei fod wedi meddwl fwy nag unwaith na fyddai byth yn gwella. Ond bellach mae bywyd y tri wedi ei drawsnewid.

Cwta naw mis wedi'r driniaeth mae Meira *'back to normal'* meddai hi. Ail-ddychwelodd i'w gwaith gyda Chwmni Rheilffordd Llyn Padarn ym mis Mai — 'yn ystod wythnos Sulgwyn pan oedd hi'n ofnadwy o brysur,' meddai. Mae hi hefyd wedi ailddechrau chwarae badminton — 'Mae llawer yn dweud wrtha i 'mod i'n edrych yn well nag erioed,' meddai.

Gan mai dim ond deng wythnos sydd ers triniaeth Alwyn mae o'n dal i gymryd pethau yn eithaf ysgafn, 'Dwi'n sticio i *draughts* yn hytrach na badminton ar hyn o bryd,' meddai.

Meira Willis ac Alwyn Jones.

Mae'r ddau yn cytuno ei bod wedi cymryd oddeutu chwe wythnos i ddod dros y gwaethaf. 'Dyna pryd y teimlais 'mod i wedi newid gêr,' meddai Alwyn, 'a dwi'n teimlo mod i wedi gwella bob dydd ers hynny.'

Roedd y ddau wedi dod ar draws Cymraeg, sef Zöe o Landegai, ar staff nyrsio Ysbyty'r Royal. 'Roedd cael rhyw sgwrs Gymraeg bob hyn a hyn yn beth eithaf braf,' meddai Alwyn.

Does 'run o'r ddau yn gwybod enwau'r rhai a roddodd eu harennau iddynt gan nad yw'n bolisi gan yr ysbyty i ddatgelu hynny.

Er cymaint fu'r newid yn eu bywydau bydd rhai pethau yn parhau yn bur wahanol o'i gymharu a bywydau y rhan fwyaf ohonom. Bydd yn rhaid iddynt gymryd cyffuriau i sicrhau nad yw eu cyrff yn gwrthod yr arennau newydd am weddill eu hoes, a bydd yn rhaid iddynt fesur eu pwysedd gwaed, eu gwres a'u pwysau corfforol yn ddyddiol. Ond fel y tystia'r ddau mai pris bychan i'w dalu yw hynny am yr hyn a gawsant.

Cyn gorffen eu sgwrs mynnodd y ddau eu bod yn falch iawn o adrodd eu profiadau wrth yr *Eco* er mwyn codi gobeithion eraill sy'n dal i ddisgwyl ac yn dal i ddioddef. Gobeithiant hefyd y bydd eu profiadau hwy yn hybu mwy a mwy o bobl i gytuno i'w harennau gael eu defnyddio mewn trawsblaniadau ac i gario'r cardiau priodol i ddynodi hynny. Gwell fyth, meddent, pe bai pobl yn cofrestru'r ffaith eu bod yn barod i'w harennau gael eu defnyddio drwy gynllun newydd y DVLC — yr asiantaeth trwyddedu ceir. Meddai Alwyn, 'Gall unrhyw un gysylltu â'r DVLC i gael y manylion. Byddai cael cofrestr effeithiol ar gyfrifiadur drwy'r drefn hon yn ei gwneud hi'n llawer mwy syml i'r llawfeddygon gan y byddai'n llawer haws iddynt gael gwybod os yw person yn barod iddynt ddefnyddio'u harennau na'r drefn bresennol o gario cerdyn — er bod hynny hefyd yn bwysig.'

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr, hysbysebwyr, noddwyr a gweithwyr.

ECO'R WYDDFA

Rhif 208
IONAWR 1995

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (0248) 670115
DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)
FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)
DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (0248) 353337 neu 871925
TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)
TREFNYDD BWNDELU
Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug: (676846)
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)
TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)
TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)
TREFNYDD PLYGU
Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (0248 670726)
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig (870576)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Elwyn Searell Jones, Dwyfor (870440)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, IONAWR 26
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, IONAWR 16
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
CHWEFROR	IONAWR 26	WAUNFAWR	Mrs Nan Roberts	650570
MAWRTH	MAWRTH 2	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn	650200
EBRILL	MAWRTH 30	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
MAI	EBRILL 27	DEINIOLEN	Mr W. O. Roberts	871259
MEHEFIN	MEHEFIN 1	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 29	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 7	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am'eu cefnogaeth.

MAE CAMERÂU YR *ECO* AR GAEL GAN Y CANLYNOL:
BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115
WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (650556)
DEINIOLEN:
LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyrau

Diolch am a Gafwyd

Annwyl Olygyddion,

Dyma hi'n ddiwedd blwyddyn arall ac yn amser i mi ddiolch i bawb sy'n gysylltiedig â'r Eco.

Rwyf wedi mwynhau cymaint ar y newyddion lleol, ysgrifau, Siambar Selwyn, Un Funud Fach, Chwilota, a chyfraniad Selwyn Pritchard, ac rwyf bellach yn edrych ymlaen i 1995 i dderbyn Eco'r Wyddfa.

Dymunaf i chwi oll Fendithion Melys yr Ŵyl sy' ar y trothwy, a dyfodol disglair yn y flwyddyn newydd.

Bendith Duw,

STANLEY CWM
71 Bramham Drive, Harrogate, Swydd Efrog HG3 2TZ

Cais am Lun

Annwyl Olygydd,

Mae Morgan Evans yr Arwerthwr o Bryn Golau, Pentre Berw, Gaerwen, Môn (0248 723303) yn awyddus i fenthyca llun o ddosbarthiadau un a dau yn hen Ysgol Tan-y-coed, Penisarwaun, oddeutu 1937.

Yn ogystal a'i lun ef ei hun mae ynddo lun ei nain, sef Mrs Mary Evans yr athrawes, o Gorffwysfa, Waen Winau, ac hefyd ei chwiorydd yr efeilliaid Astrid a Mafalda.

Y bwriad yw atgynhyrchu'r llun a'i ddychwelyd i'w berchennog ar fyrder yn ei lawn gyflwr.'

Pe bai un o'i gyd-ddisgyblion o'r cyfnod hwnnw yn gallu gwneud y gymwynas yma buasem yn falch pe baech yn cysylltu â mi, yn y cyfeiriad isod, neu â Mr Evans yn uniongyrchol.

Yn obeithiol,

JOHN E. WILLIAMS
Allt Riwth, Llanrug

CANOLFAN GYMUNEDOL LLANRUG

Llythyr agored at drigolion Llanrug:

Ar ddechrau Rhagfyr cyfarfu nifer o gynrychiolwyr o wahanol fudiadau ym mhentref Llanrug i drin a thrafod y bwriad o sefydlu Pwyllgor Codi Arian neu 'Gefnogwyr' ar gyfer y Ganolfan arfaethedig.

Amcangyfrifir y bydd cost yr adeilad newydd yn ychydig gannoedd o filoedd o bunnau. Bydd angen i'r pentref ei hun roi cyfraniad sylweddol tuag at y fenter, ac felly, gorau po gyntaf y dechreuir ar y gwaith. Eisoes cynhaliwyd wythnos garnifal lwyddiannus ar ddechrau Medi, a'r mis diwethaf cafwyd arddangosfa o grefftwyr ac arlunwyr lleol yn yr Ysgol Gynradd a ychwanegodd at y coffrau. Mae mil o bunnau eisoes wedi eu casglu.

Y bwriad yw cynnal gweithgaredd misol yn ystod 1995, ac i'r perwyl hwnnw, cynhelir cyfarfod pellach ar **nos Lun, 9 Ionawr 1995, am 7.30 o'r gloch yn y Sefydliad Coffa.** Mae cnewyllyn o bwyllgor eisoes wedi ei ffurfio ond teimlir fod angen mwy o wirfoddolwyr i ysgafnhau'r baich. Gwahoddir chwi felly i fod yn bresennol yn y cyfarfod uchod ac i gynnig eich cymorth. Does dim rhaid i chi fod yn gynrychiolydd mudiad neu sefydliad. Dowch yno os teimlwch y gallwch fod o unrhyw gymorth gyda'r gwaith o gasglu arian i gael Canolfan deilwng o bentref Llanrug.

Apeliwn yn daer am bobl ifanc a rhieni ifanc i helpu gyda'r gwaith. Wedi'r cwbl, gogyfer eich dyfodol chi a'ch plant y bwriedir y Ganolfan.

Os oes unrhyw un â diddordeb mewn ymuno â'r fenter yna cysylltwch â mi ar unwaith: **Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (0286) 673515.**

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

GWÊL Y LLYN
Lake View Hotel
LLANBERIS
870422
PRISIAU ARBENNIG AR GYFER GRWPIAU NADOLIG
1 Cwrs o £5.95
2 Gwrs o £7.95
Bwydlen lawn o £8.95
Rhaid archebu lle ar gyfer Dydd Nadolig a Nos Calan
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

'BYSUS BACH Y WLAD'

Bydd un o yrrwyr bysus mwyaf cyfarwydd yr ardal yn ymddeol cyn diwedd y flwyddyn. Mae Ted Môr (Morris) wedi bod yn gweithio i gwmni bysus KMP Llanberis ers naw mlynedd.

Mae'r rhan fwyaf o'r gyrru a wnaeth Ted wedi cael ei wneud rhwng Nant Peris a Chaernarfon. Mae'n siŵr ei fod wedi teithio'r ffordd honno filoedd o weithiau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma. Bydd y teithwyr rheolaidd yn siŵr o weld ei golli, ac yn gweld eisiau ei sgwrs a'i hwyl.

Bydd ganddo fwy o amser o hyn ymlaen i ganu gyda Chôr Meibion Dyffryn Peris gan iddo fod yn aelod o'r Côr ers ei sefydlu, ac mae wrth ei fodd yng nghanol hwyl yr hogia. Mae wedi arfer â chanu fel unawdydd hefyd a bu am flynyddoedd yn aelod o Fand Llanberis.

Mae'n siŵr bod ganddo ambell i stori ddoniol i'w hadrodd am hynt a helynt bywyd fel gyrrwr bws.

Dymunir ymddeoliad hapus iddo.

MERCHED MENTRUS YN CYSTADLU

Bydd merched mentrus o bob rhan o ardal Gogledd Orllewin Cymru unwaith yn rhagor yn cystadlu am y Wobr Fenter a noddir gan Fanc y Midland a TARGED, Cyngor Hyfforddi a Menter Gogledd Orllewin Cymru.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i ferched sydd wedi dechrau busnes newydd o fewn ardal Gogledd Orllewin Cymru rhwng Ionawr 1991 a Rhagfyr 1993. Bydd y beirniaid yn cynnwys cynrychiolwyr o TARGED a'r banc, dan gadeiryddiaeth annibynnol Christine Lewis unwaith eto eleni. Mae hi yn berson busnes llwyddiannus sydd hefyd yn aelod o Fwrdd BDCW ac Awdurdod Iechyd Cymru.

Wrth gynnig sylwadau ar gystadleuaeth lwyddiannus y llynedd, dywedodd Christine Lewis, 'Mae'r gystadleuaeth yn gyfle i ddangos yr hyn a ellir ei gyflawni gan ferched er gwaetha'r amgylchedd anodd, a'r problemau arbennig a wynebir ganddynt. Daeth nifer o'r cystadleuwyr i'r cyflwyniad y llynedd, a phrofodd y digwyddiad yn fforwm gwerthfawr i gyfnewid syniadau a thrafod cyrhaeddiadau a phroblemau cyffredin. O ganlyniad i hynny, sefydlwyd Rhwydwaith Merched Mewn Busnes er mwyn edrych ymhellach ac ymdrin â phynciau sy'n berthnasol i ferched mewn busnes.'

Dywedodd Anne Roberts, Ymgynghorydd Menter TARGED, 'Mae Banc y Midland a TARGED yn cydnabod bod merched yn wynebu anawsterau penodol wrth sefydlu busnesau yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Rydym yn credu bod gwobr o £1,000 i'r enillydd a £500 bob un i'r ddwy agosaf ati yn gyfrwng i wobrwyo ac annog merched sydd wedi cymryd y cam, derbyn yr her, a sefydlu eu busnesau eu hunain.'

Hon yw'r bedwaredd gystadleuaeth flynyddol. Enillydd y llynedd oedd Ann Catrin, gof hunangyflogedig. Mae ei gwaith haearn arloesol, hardd wedi dod â chlod mawr iddi. Defnyddiodd ei gwobr o £1,000 i brynu dril pŵer newydd.

Dyddiad cau y gystadleuaeth eleni yw 20 Ionawr 1995.

Gellir cael ffurflenni cais ar gyfer Gwobr Merched Mewn Busnes o ganghennau lleol Banc y Midland neu gan TARGED, Llys Britannia, Parc Menai, Bangor, Gwynedd (01248) 671444.

Cynhyrchiad diweddaraf THEATR BARA CAWS

Yn ystod mis Ionawr a Chwefror 1995 bydd Bara Caws yn teithio cymunedau Cymru gyda addasiad llwyfan o nofel Twm Miall *Cyw Dôl.*

Yn 1990 perfformiwyd addasiad llwyfan o'r nofel *Cyw Haul* gan gwmni Hwyl a Fflag. Eleni mae Theatr Bara Caws wedi comisiynnu Twm Miall (sydd yn awdur cysylltiedig â'r cwmni) i addasu ei ail nofel ar gyfer y llwyfan.

Gadawodd Bleddyn Williams, y prif gymeriad, ei gynefin ym mryniau Meirionnydd ac aeth i chwilio am ei 'fan gwyn man draw' yng Nghaerdydd. Yno crwydra o swyddfa'r dôl i'r swyddfa bost, ac o dafarn i dafarn. Yno hefyd daw ar draws llu o gymeriadau megis Nerys, Gethin O'Neill, Karen, Steve a Mrs Maelor Jones, yn ogystal ag ambell i dro trwstan. Dowch yn ôl gyda ni felly i Gaerdydd y saithdegau cynnar i ddilyn hynt a helynt Bleddyn yn y Ddinas Fawr. Mae'n siŵr y bydd ganddo sawl stori ddiddorol i'w hadrodd i chi!

Cynigir noson o ddifyrrwch, chwerthin ac adloniant pur . . . yn ogystal â chyfle i hel atgofion yn sŵn miwsig y 70au.

Yr actorion fydd: Catherine Aran, Carys Gwilym, Morgan Hopkins, Merfyn Jones a Phil Reid a'r cyfarwyddwr yw Dyfed Thomas.

Mae Carys Gwilym a Morgan Hopkins yn ymddangos gyda Bara Caws am y tro cyntaf. Er fod Dyfed Thomas wedi gweithio fel actor gyda'r cwmni yn y gorffennol, dyma fydd y tro cyntaf iddo droi ei law at gyfarwyddo.

Bydd y cynhyrchiad i'w weld yn Ysgol Brynrefail, nos Fercher, Chwefror 15, am 7.30 o'r gloch.

Mae Cwmni Bara Caws yn gobeithio y bydd sioe gymuned Twm Miall — 'Cyw Dôl' mor boblogaidd a'i gynhyrchiad diwethaf i'r cwmni, sef y sioe glybiau 'Rhosyn a Rhych' pryd y gwerthwyd pob tocyn fis ymlaen llaw!

CLWB ERYRI

Yn y cyfarfod yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, ar nos Wener, 2 Rhagfyr, cafwyd sgwrs ddifyr ac ysgolheigaidd gan Iolo Llywelyn ar 'Ymfudo i Canada'. Manylodd ar y gwahanol gyfnodau pryd y denwyd Cymry'r gorffennol i'w 'gwlad yr addewid', a hynt a helynt ambell i garfan ac unigolyn wedi hynny. Diolchwyd i'r siaradwr gan Geraint Elis.

Bydd cyfarfod nesaf y Clwb ar nos Wener, 6 Ionawr 1995, yn yr un lle ac ar yr un amser, pryd y ceir anerchiad gan Emyr Jones, Caernarfon. Llywydd y noson fydd John Roberts Williams, Llanrug.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch **CAR.** Cystal â Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych **CHWI** yn ei yrru, o Audi i Zastava

MOT · AA Specialist · Retail Motor Industry Federation · RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (0286) 673559
BOSCH SERVICE

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

STERMAT
OFFER TŶ A GARDD

CAERNARFON
Ffôn: 676506

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Cyfeillion yr Ysgol Gymuned: Cynhaliwyd Ffair Nadolig Iwyddiannus nos Wener, 9 Rhagfyr, yn y Neuadd Gymuned. Agorwyd y noson gan Eurgain Haf a diolchir iddi am ei geiriau caredig a'i rhodd hael. Dymunir diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at lwyddiant y noson gan sicrhau elw o £350 tuag at brynu adnoddau i'r Ysgol. Enillwyr Raffl 'A' oedd Gwenda Jones, Carolyn Roberts, M. Howard, Carolyn Roberts, Megan Meek, Bronwen Hill a M Howard. Enillwyr Raffl 'B' oedd Jennie Jones, Erin Eifion, Mary Davies, Alun Howard a Bethan Williams. Dyfalwr cywir pwysau'r twrci oedd Bethan Williams. Catrin Glyn ddewisodd enw cywir Lowri'r ddol. Bydd y Cyfeillion yn cynnal parti Nadolig i'r plant ynghyd ag ymweliad gan Siôn Corn.

Newyddion o'r Ysgol: Fel rhan o'u thema cafodd dosbarth Mrs Ann Thomas gyfle i ymwneud ag ychydig o dechnoleg bwyd. Canlyniad hyn oedd fod y dosbarth wedi mwynhau pari a phob un o'r plant wedi cael cyfle i baratoi bwyd ar gyfer y wledd.

I gloi eu thema am y Nadolig cafodd dosbarth Mrs Roberts barti hefyd. Y tro yma cafodd plant Blwyddyn 5 a 6 wahoddiad i'r wledd, ac unwaith eto cafodd y plant eu hunain y profiad o baratoi ychydig o'r bwyd gan ddefnyddio'r 'Baby Belling' a brynwyd i ni gan y Cyfeillion.

Unwaith eto mae'r Cyfeillion wedi bod yn brysur trwy drefnu Ffair Nadolig yn y Neuadd Gymuned. Mawr yw ein diolch i'r Cyfeillion am drefnu'r noson ac i bawb a ddaeth i'n cefnogi.

Testun ein Pasiant Nadolig eleni yw 'Iesu, dyma dy fywyd'. Fe'i cyflwynir ar ddydd Iau, 15 Rhagfyr, ac mae croeso i bawb droi i mewn i fwynhau'r cynhyrchiad. Y prif gymeriadau fydd Erin, Alaw a Joe, sef y cyflwynwyr; gyda David yn cymryd rhan yr Iesu fel plentyn, ac Eurig yn ei bortreadu fel yr â yr amser ymlaen. Wrth gwrs mae gan pob plentyn arall ran allweddol i'w chwarae yn y cynhyrchiad.

I orffen y tymor mae'r Cyfeillion yn paratoi parti i'r plant ac mae sôn eu bod wedi cysylltu â rhyw hen ŵr fydd yn dod ag anrhegion yma efo fo. Mae pawb yn edrych ymlaen yn fawr i gael gweld pwy fydd y dyn dieithr yma!

Dathlu Pen-blwydd — 18 oed a 21 oed: Pob bendith i Elizabeth Ann ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed. Dathlodd Jonathan Richardson ei ben-blwydd yn 21ain yn ddiweddar a dymunir pob bendith iddo yntau i'r dyfodol.

Gair o Ddiolch: Dymuna Mr Jim Munro ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Diolchir hefyd am y dymuniadau da wedi'i driniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Jonathan Richardson, Llys Helyg, ddiolch yn ddiffuant i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 21ain oed.

Plant Mewn Angen: Casglodd Mr Turner a Dewi Turner, Tyddyn Difyr, £100 tuag at Blant Mewn Angen y mis diwethaf. Dymunant ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at yr achos teilwng hwn.

Gwellhad: Deellir fod nifer o anwyliaid yn sâl yn y pentref ac anfonir cofion annwyl atoch i gyd. Dymunir gwellhad buan i Mrs Eluned Jones, Cae Corniog, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Pat a Leslie Larsen, Llygad yr Haul, wedi marwolaeth nith ifanc i Pat.

Joe Hill, enillydd cystadleuaeth arlunio gan Gynllun Trydan Dinorwig i ysgolion y cylch. Bydd y Tedi yn anrheg bendigedig i Nicky, ei chwaer!

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant mis Tachwedd yn Llygad yr Haul a'r enillwyr oedd: 1, Matthew Phillips; 2, Mrs Nansi Jones, Meillionydd; 3, Dylan Jones, Meillionydd. Bu criw o garolwyr o amgylch y pentref nos Fercher, 21 Rhagfyr. Diolchir i bawb am y cyfraniadau a'r croeso.

Ysgolion Sul: Bnawn Mercher, 21 Rhagfyr, mwynhawyd parti Nadolig yn Neuadd Eglwys Santes Helen. Diolchir i'r rhai fu'n paratoi'r parti ac i'r rhai a gyfrannodd mewn unrhyw fodd. do, fe alwodd Siôn Corn i'w gweld ac fe fydd yn sicr o alw Noswyl y Nadolig.

Eglwys Santes Helen: Cynhelir gwasanaeth yn yr Eglwys, pryd y gweinyddir y Cymun Bendigaid, nos Sadwrn, 24 Rhagfyr, am 11.30 p.m., ac ymlaen i funudau cyntaf Dydd Nadolig.

Yr Urdd: Tachwedd 21: Trefnwyd Cwis gan Mrs Nant Roberts a Huw. Diolchwyd iddynt am noson ddifyr gan Dion. Tachwedd 29: noson o Bingo. Diolch yn fawr i Anti Gwenda am fod yn alwraig mor broffesiynol. Cenin gynigiodd y diolchiadau. Rhagfyr 6: cafwyd noson ddifyr yn gwneud patrymau mathemategol gyda Mr Richard Ll. Jones, Bethel. Ynyr wnaeth y diolchiadau. Rhagfyr 13: cyfle i wneud addurniadau Nadolig. Diolch yn fawr i Anti Eleanor a Susan am drefnu'r noson. Rhagfyr 20: daw gweithgareddau'r tymor i ben gyda pharti Nadolig a Disgo.

Bydd cyfarfodydd y tymor nesaf yn dechrau nos Fawrth, 10 Ionawr.

Dymunir Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref.

DRAENOG

Mae un aelod ffyddlon o Gôr Meibion Dyffryn Peris wedi darganfod ffordd effeithiol o osgoi canu anthem genedlaethol Lloegr ar ddiwedd cyngherddau . . . wel, o leiaf, dyna ei esboniad o ar y pwl o anhwylder ddaeth drosto ar ddiwedd un noson yn ddiweddar!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Barrys GLASS



Camelot
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

ERIC JONES
PENISARWAUN
FFON: 872421

★ Prisiau rhesymol
★ Spreio tu mewn a thu allan
★ Estimates am ddim

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDEDWYDD I CHI OLL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Aled Jones
PEIRIANNYDD GWRESOGI A PHLYMIO
Penllyn, Nantlle
Gwynedd LL54 6BB
Ffôn: (01286) 881396
Ffôn Symudol: (08316) 833322

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Teulu Jordan, staff a phreswylwyr
Cartref Nyrsio Penisarwaun
Ffôn: (01286) 872038

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Alwyn a Sarah Jones
RACCA
PENISARWAUN
★ Blodau ar gyfer pob achlysur hefyd
★ Dewis da o Lysiau Fferm
★ Wyau *Free Range*
Ar agor saith diwrnod

870605

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Newyddion Ysgol Gwaun Gynfi: Daeth Heather Lowe, artist lleol, i'r ddau ddosbarth hynaf i wneud gwaith am yr ardal leol. Daeth dwy fyfyrwraig i'r Ysgol — un i ddosbarth Miss Jones ac un i ddosbarth Mr Jones.

Casglwyd dros 90 o focsus esgidiau i'w hanfon i blant Bonsia.

Yn ystod y tymor cafodd dosbarth hynaf yr ysgol gyfle i fynd i dwrnameint yn Ysgol Llanrug i chwarae gêmau yn erbyn rhai o ysgolion eraill yr ardal. Cafodd dosbarth Miss Jones fynd i Swyddfa'r Post, yn Cibyn, Caernarfon, i wedl sut mae'r gwasanaeth post yn gweithio.

Bu'r tri dosbarth lleiaf a'r dosbarth meithrin yn gweld y pantomeim 'Rasus Cymylau' ym Methesda; ac fe fu'r ddau ddosbarth hynaf yng Nghastell Caernarfon i weld perfformiad Nadolig a chafwyd gwneud llawer o weithgareddau.

Chwaraeodd y bechgyn gêm bêldroed yn erbyn Aberffraw, Môn, ar gae Y Bwthyn ac fe enillodd Deiniolen o 6 gôl i 0. Mae'r casgliad a gafwyd yn ein Noson Carolau ym mynd tuag at Gronfa Steffan Price-Jones o Lanrug ac Amanda Morris o Bwllheli.

(Mae mwy o newyddion Deiniolen ar dudalen 16)

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440

Cydymdeimlo: Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Ann Griffiths, 6 Glanrafon Terrace, ac i Emma a Gwen ei genethod, yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl, sef Mrs Alice Louise Edwards (gynt o Blant Nant, Nant Peris), yn Swydd Dyfnaint.

Llongyfarchiadau i Gwen Griffiths, 6 Glanrafon Terrace, ar ei llwyddiant yn ei arholiad dawnsio balé, gradd 8, o dan nawdd yr Academi Dawns Brenhinol.

Gwisg Ffansi: Unwaith eto roedd noson gwisg ffansi Ty'n Llan, Nant Peris, yn llwyddiannus. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain a diolchir i bawb am wneud eu gorau. Casglwyd £39.03 gan 'Quasimodo' (Brian Walsh) tuag at gartref preswyl Plas Pen-gwaith, Llanberis.

POSAU NADOLIG



2179406293
4567765432
5739641100
8438295966

144317
168091
379642
397618
436681
446693
604020
640248
842123
842687
928170
987665 ✓

31004026
40103121
42344386
43234365
63461729
65131749
74093114
75914438
78043226
84706663
87664780
97351684

Fedrwch chi roi y rhifau uchod yn eu lle cywir ar y grid? Mae'r cyntaf wedi ei roi yn barod.

AM FWY O BOSAU TROWCH I DUDALEN 24

Fedrwch chi arwain Rwdolff at ei wellt?



OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn: Llanberis 870545

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Lin, John a phawb o'r staff

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR 354646

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

673574

PEN CIGYDD Y FRO

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

CYFARCHION NADOLIG LLANRUG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

W. J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr Nwy Cofrestredig Corgi

CORGI GAS IN SAFE HANDS

Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Service Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Richard , Meirwen a'r staff

SPAR

Y SGWÂR, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon: 672790

AR AGOR: 7.30 - 10.00 wythnos; 10.00 - 10.00 Sul
Oriau Nadolig: Ar agor bob diwrnod heblaw Dydd Nadolig
Gwŷl San Staffan (Boxing Day) 10.00 - 6.00
Dydd Calan, Ionawr 1af 10.00 - 6.00

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

CABS LLANRUG

GWASANAETH TACSI

HURIO BWS MINI

Ffôn: Caernarfon

675951

Prisiau Cystadleuol – Gwaith Contract – Pell ac Agos

CHIROPODIST

Gwasanaeth yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn: C'fon: 675754

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon

LLANRUG

Caernarfon

673513

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Rhiannon Morris a holl staff

BYSIAU ARFON

LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

Nadolig Llawen oddi wrth **Bryn a Kathleen**

Am eich **ANGHENION ADEILADU** mawr a bach **MASNACHWYR A "D.I.Y."** am **BRISIAU CYSTADLEUOL**

BRYN

(B & K Williams)

Yr Hen Ysgol Glanmoelyn LLANRUG Ffôn: 677482

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn: Caernarfon 672898 (dydd) Caernarfon 676285 (nos)

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn; 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263

Rhai o blant yr Ysgol Gynradd fu'n cystadlu yng ngala nofio Yr Urdd yn ddiweddar.

Capel y Rhos: Mr John Wyn Owen oedd y gŵr gwadd yng Nghymdeithas y Chwiorydd nos lau, Tachwedd 24, a mwynhawyd ei atgofion difyr am ei ddyddiau cynnar a'i waith yn y chwarel ac yn y capel. Rhoddodd Mr Owen flynyddoedd o wasanaeth i'r capel ac i'r gymdeithas yn Llanrug. Mrs Megan Williams a gymerodd y gwasanaeth dechreuol, gyda Mrs W. O. Roberts yn llywyddu. Diolchodd Mrs Helen Parry i'r siaradwr, ac i Mrs J. C. Williams a Mrs Prescott am y te.

Plaid Cymru: Bu'r Ffair Nadolig, a gynhaliwyd nos Fercher, Rhagfyr 7, yn llwyddiant mawr eto eleni, a dymuna pwyllgor Cangen Llanrug ddiolch i bawb am bob cyfraniad tuag ati, ac yn arbennig i Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) a agorodd y Ffair, ac i Siôn Corn a ddaeth yno i weld y plant. Dyma enillwyr y raffl a chystadlaethau'r noson — Raffl: enedigaeth Rhodri, brawd bach i Llywelyn.

Dymunir gwellhad buan i Gareth Roberts, Gregynog; ac i Raymond Jones, 2 Bryn Fedwen, ar ôl eu llawdriniaethau.

Cyfarfod cyntaf 1995 fydd sgwrs gan Mary Vaughan Jones am ei thaith i'r Ffindir. Croeso cynnes iawn i bawb i'r cyfarfod a gynhelir yn yr Ysgol Gynradd, nos Fercher, 11 Ionawr, am 7.30 o'r gloch.

Merched y Wawr: Estynnwyd croeso i aelodau'r gangen gan y Llywydd, Menna Williams. Diolchwyd i'r rhai fu'n casglu tuag at Henoed Gwynedd gan sicrhau £85.11 gyda hanner y swm hwn yn cael ei gyflwyno i Gylch Henoed Llanrug.

Derbyniwyd dau gerdyn Nadolig, un nodedig iawn gan Nansi Lovatt gyda llun o Gapel Brynrefail; a'r llall gan y Llywydd Cenedlaethol,

Tîm pêl-droed o dan 11 oed Llanrug yn eu dillad newydd a noddwyd gan gwmni Atal Syrthio, Caernarfon. Gyda'r tîm mae Paul Templeton, rheolwr, ac Islwyn Roberts un o Gyfarwyddwyr y Cwmni.

Dylan, Williams, Y Waun; Eirlys Williams, Berllan; Iwan Rh. Williams, 19 Glan Ffynnon; Margaret Jones, Dwyros; Mrs L. Owen, Llys Myfyr; Dorothy, 19 Nant-y-glyn; Elsie Owsen, Hafod y Rhos; Meirwen Lloyd, Afallon. Pwysau'r gacen: Amanda McGuinness. Enw'r tedi: Kevin Pritchard. Potel da-da: Dafydd Glyn.

Llongyfarchiadau i Gwenno a Robin Williams, Sŵn-y-gwynt, ar Rhianwen Huws Roberts.

Y wraig wadd oedd Miriam Hughes, 'Rallt Deg, a threuliwyd orig ddifyr a byrlymus iawn yn ei chwmni gan ddwyn atgofion i lawer ohonom o'r cinio ysgol ers talwm, y gym-slip, y liberty-body a'r blwmer nefi blŵ felltith! Y mae'n brysur iawn ym myd ysgrifennu ac eisoes fe'i clywyd ar y rhaglen 'Sglein ar y Sul' ac yn wythnosol mae'r BBC yn darlledu darlleniadau o'i llyfr *Dau Ben Llinyn.*

Noswyl Nadolig

Esgyrn eira ar ysgwydd yr Wyddfa
Yn pydru'n styfnig dan gryman o loer,
Seren unig yn berl o ddisgleirdeb
A gwynt y dwyrain yn gïaidd o oer.

Sŵn carolau o Eglwys Sant Helen
A'r plant yn effro ac yn gyffro i gyd,
Gwledd o ddanteithion a'r gwinoedd yn llifo
A Herod yn barod i ffrwydro'r byd.

Ar gyfandiroedd ein planed wallgof
Ergydion y gynnau sy'n iasol o oer,
Ac ar ysgwydd yr Wyddfa mae esgyrn yr eira
Yn pydru'n styfnig dan gryman o loer.

Selwyn Griffith

Diolchodd Phyllis iddi am ddwyn atgofion melys i nifer ohonom a dymunwyd pob llwyddiant iddi gyda'i dawn fel llenor.

Diolchodd Meryl i Ann Lloyd, Megan a Margaret am wneud y baned ac i aelodau'r pwyllgor am wneud y mins peis. Enillydd y raffl oedd Carys.

Y gŵr gwadd yn y cyfarfod ar Ionawr 10fed fydd Sam Roberts gyda sgwrs a sleidiau. Croeso cynnes i bawb.

Dymunir Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Clwb Blodau'r Grug: Bu aelodau'r Clwb a chyfeillion yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, i ginio ar brynhawn lau, 8 Rhagfyr. Wedi mwynhau y wledd a'r croeso, cafwyd cyfarfod o ganu Carolau ynghyd â gwrando ar dapiau o wahanol ddulliau o ganu Carolau. Cafwyd hefyd hanes a gwir ystyr y caneuon o dan ofal medrus y wraig wadd, sef Miss Haf Morris, Llandegfan. Cyfeiliwyd gan Mrs Mair Jones, Hafan Elan, a thalwyd y diolchiadau gan y Llywydd, Mr Cledwyn Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf yn agored, pryd y disgwylir i gyfeillion droi i mewn am baned o de neu goffi a'r elw i'r Clwb.

NSPCC: Cynhaliwyd noson tuag at gronfa Steffan Price Jones gan aelodau'r NSPCC Llanrug, yn yr Ysgol Gynradd, nos Fercher, 30 Tachwedd. Gwnaed elw o £237.50. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd yn ariannol neu drwy gyfraniad tuag at y Tombola a'r raffl. Diolch yn arbennig i Pyrs, Wavell a Griff am eu gwaith caled drwy gydol y noson ac i ferched y gegin. Enillwyd y raffl fel a ganlyn — Mai Davies; Iwan Williams; Iolo Glyn; Eryl Roberts; Iolo Glyn; Cerid Mcinon; Mrs Williams, Hafan Elan; Alwena Morris, Deiniolen; Manon Trevor. Enwi'r clown: Robin Thomas ac Eryl Roberts.

Paul Templeman, rheolwr tîm pêl-droed o dan 11 oed; ac Islwyn Roberts o gwmni Atal Syrthio, yn cyflwyno un o'r crysau newydd i Dewi Wyn Jones, y gôl-geidwad.

Dyweddïo: Llongyfarchiadau i Ellen Wyn, merch Dilys a Neville Williams, 3 Rhes Victoria, Deiniolen, a Tecwyn Ellis, mab Hefina a Dick Jones, 8 Rhosrug, Llanrug, ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Pob lwc oddi wrth y ddau deulu.

Ffion Orwig, enillydd ar y Gân Werin agored yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Llangefni.

Geni: Ar yr 28ain o Hydref ganwyd merch fach, Leah Môn, i Sioned a Melvyn, 8 Cefn Elan, wyres fach gyntaf i Dick a Hefina, 8 Rhosrug. Llongyfarchiadau iddynt oddi wrth y teulu a'u ffrindiau i gyd.

Diolch: Dymuna Melvyn a Sioned ddiolch i'w teulu a'u holl ffrindiau am yr holl gardiau, arian ac anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch fach, Leah Môn. Diolch o galon i bawb.

Cyfarchion Nadolig: Dymuna Cecil a Dilys Williams, 19 Hafan Elan, ddymuno Nadolig Llawen aN Blwyddyn Newydd Dda i'w holl ffrindiau a chymdogion.

CYFARCHION NADOLIG LLANRUG

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

Lynette Evans

GARNET, LLANRUG

Ffôn: 673981/675807

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

Simneau glân am bris rhesymol gan

G. LLOYD

4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG

Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir peiriant sugno i lanhau

Ffôn: Caernarfon 674781

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

Y CO-OP LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 672937

I gael bargen drwy'r flwyddyn ymunwch â'ch Co-op lleol – y siop yr ydych chi'n berchen arni.

Cofiwch fod DIFIDEND O 3c YN Y BUNT i aelodau'r gymdeithas

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN 1994
DYMUNIADAU GORAU AM 1995

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

Ysgol Yrru Ofalus

★ Gwasanaeth 7 diwrnod
★ O ddrws i ddrws
★Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon, Llanrug
Ffôn: C'fon 675112

Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth

Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

Ashley a Carolyn Wager
A STAFF
SIOP Y BONT
(SNOWDON STORES)
Pontrhythallt
LLANRUG
Ffôn:
Caernarfon 674472

Nadolig Llawen a
Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

MIKE A CHRIS
GLYNTWROG
LLANRUG

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl

Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd dda
oddi wrth

BERYL A GWENDA
LLYTHYRDY
LLANRUG

Ffôn: C'fon 672422

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Lwyddiannus
i bawb oddi wrth

ELWYN HUGHES
CONTRACTOR
PENNANT
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 672156

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth

ARFON A CARYS
SIOP CHIPS
TEGFAN
Y Sgwâr
LLANRUG
676128

Arlunwyr a Chrefftwyr Llanrug yn arddangos eu doniau

Gydol Sadwrn olaf o fis Tachwedd cynhaliwyd arddangosfa arbennig yn neuadd yr Ysgol Gynradd, Llanrug. Syniad y Cyngor Cymuned oedd y diwrnod, er mwyn rhoi cyfle i grefftwyr ac arlunwyr lleol i arddangos eu gwaith i drigolion y fro. Ar yr un pryd roedd hefyd yn ddull o godi arian fel rhan o gyfres o weithgareddau a drefnwyd i hybut datblygiad y Ganolfan Gymunedol i'r pentref.

Roedd dros ugain o bobl — ifanc a hŷn — yn arddangos eu gwaith, a nifer ohonynt yn gwerthu cynnyrch neu'n derbyn archebion. Yng ngeiriau Is-gadeirydd y Cyngor, Gwyn Hefin Jones, *'mae'n syndod yn wir faint o dalentau a ddarganfuwyd wrth drefnu'r diwrnod'*. Y gobaith yw i'r diwrnod hwn ddod yn achlysur blynyddol, ac yn ôl adwaith a chanmoliaeth yr arddangoswyr a'r cyhoedd, mae'n beryg na fydd neuadd yr Ysgol Gynradd yn ddigon helaeth ar gyfer yr arddangosfa nesaf!



Agorwyd yr arddangosfa yn swyddogol gan Faer Arfon, y Cynghorydd Brian Jones, sydd hefyd yn aelod o Gyngor Cymuned Llanrug, *'Sioc bleserus oedd gweld cymaint o gynnyrch o safon mor uchel,'* meddai, *'a dylai'r pentref ymfalchïo yn y ffaith fod yma drigolion galluog yn meithrin ac ymarfer eu crefft o fewn y fro'*.

Ymhlith yr arlunwyr roedd enghreifftiau o waith mewn olew, dyfrliw ac acrylic, gyda golygfeydd lleol yn amlwg yn boblogaidd. Dangoswyd hefyd enghreifftiau o waith turnio coed a gwaith adfer hen ddodrefn. Roedd amrywiaeth hefyd o waith llaw gan gynnwys gwniadwaith, pwyth croes, cwilsennu, teganau meddal a gosodiadau blodau sych.

Mewn ymateb i'r stori gan Rol Williams am gychwyn y gwaith o osod y rheilffordd i ben yr Wyddfa cafwyd y ddau lun yma gan ddarllenwyr . . .

Gweithwyr Rheilffordd yr Wyddfa yn ystod y 50au. Cafwyd benthyg y llun gan Len Jones, Cwm-y-glo.

Yr Orsaf wreiddiol ar y copa.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng

NGHARTREF HENOED

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
Ffôn: C'fon 674652

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 676772

Trin gwallt i bawb o'r teulu gan Jen

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

MECH-A-NICK (NICK WALTON)

4 STAD DDIWYDIANNOL BRYN AFON
CRAWIA, LLANRUG. Ffôn: 674884

TRWSIO CEIR • GWAITH MOT
TWNIO CRYPTON • WELDIO MIG

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH

GLYN ROBERTS A'I FAB
DYNION GLO
LLANRUG

Ffôn: 675043 a 672125

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

JACKIE, DAVE A STAFF

TAFARN

PENBONT
LLANRUG

ADLONIANT NOSWAITH CYN Y NADOLIG A NOS CALAN

DIOLCHWN YN GAREDIG IAWN AM EICH CEFNOGAETH FLWYDDYN AR ÔL BLWYDDYN A DYMUNWN FEL TEULU NADOLIG LLAWEN I CHWI OLL A DYMUNIADAU GORAU AM Y FLWYDDYN NEWYDD

SIOP a MODURDY
GROESLON MARC
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 672445

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Elaine, Wendy, Vera, Lynette, Sarah, Sharon ac Awena**

Elaine's

LLANRUG, Ffôn: 672023

ORIAU AGOR

Mawrth	9.00 - 7.00
Mercher	9.00 - 1.00
Iau	9.00 - 8.00
Gwener	9.00 - 8.00
Sadwrn	7.30 - 2.00

Dydd Mawrth a dydd Mercher i bensiynwyr

Nos Fawrth i ddynion

Colurio ar gyfer achlysuron arbennig

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

JONES A PITTS

PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob math o waith metel

GWAITH BRYN AFON

LLANRUG

Ffôn: 675523

CYFARCHION Y TYMOR
A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth

NEIL A STAFF

y Siop Sglodion

Pontrhythallt
Llanrug

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

DYMUNA

GWYNFA A MARGARET

PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL



GAREJ HAFOD

PEUGEOT

DEWCH I WELD YR YCHWANEGIAD DIWEDDARAF I GASGLIAD PEUGEOT . . .

. . . . Y

306

SEDAN
I DDECHRAU
1995
MEWN STEIL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth ***John Trevor*** *a'r teulu a'r holl staff*

LLANRUG Ffôn: 673372

'Y Llaw sy'n Siglo'r Crud . . .'

gan Selwyn Pritchard, Llanberis

6. CYFRANIAD Y MERCHED

Rhwng 1916 a 19117 cyrhaeddodd y Rhyfel Mawr ei anterth, pan fu rhai o frwydrau mwyaf erchyll y cyfnod i gyd — Brwydr y Somme (1916) a Fflandrys (Passchendaele, Ypres 1917). Daeth chwildroadau mawr i bob cymdeithas ac ni ddihangodd Dyffryn Peris oddi wrthynt 'chwaith.

Erbyn hyn nid yn unig y milwyr oedd yn flaenllaw yn ymgyrch y Rhyfel ond roedd y merched hefyd yn chwarae rhan allweddol. Mewn ychydig amser newidiodd eu bywydau o un pegwn i'r llall.

Roedd rhai o ferched Llanberis a'r cylch, er enghraifft, a oedd rhwng ugain a deg ar hugain oed yn gorfod cael archwiliad meddygol cyn mynd i weithio i'r gweithfeydd arfau rhyfel yn Barrow-in-Furness. Bu rhai yn llwyddiannus ond rhwystrwyd eraill rhag mynd i ffwrdd gan eu rhieni. Ond roedd cyffro ar fin lledaenu ar draws Ewrop — oherwydd roedd un canrif yn prysur ddiweddu ac un newydd ar fin dechrau. I'r rhan fwyaf o'r merched roedd momentwm y Rhyfel yn eu denu o'r hen gefndir tlodaidd, di-gyffro a di-ramant. Erbyn diwedd 1916 daeth mwy na hanner o'r genethod yn ôl o Barrow-in-Furness i Gaernarfon gan fod gwaith wedi ei sefydlu yno (cafodd llawer un afael ar ŵr yn ystod y cyfnod yma hefyd!).

Llwyddodd nifer o ferched y dosbarth canol i ddianc o gaethiwed cartrefol Fictoraidd i weithio yn Swyddfeydd y Llywodraeth, ac un ffordd amlwg y gallai merched helpu'r ymdrech fawr oedd trwy fynd i nyrsio. Ymunodd miloedd fel nyrsus a gyrrwyr ambiwlans. O'r rhai hynny a ymunod a'r 'British Red Cross Society's Voluntary Aid Detachment' adnabuwyd hwy fel y VAD's.

Dyma sylwadau un VAD ar ôl ei diwrnod cyntaf mewn ysbyty yn yr Alban:

> *'Ar hyd y nos roeddwn yn gallu gweld y coesau gleision (arwyddion gangrin) . . . ond pan euthum i mewn ar ddydd Mercher roedd pethau'n well; ond rhaid i mi ddal ymlaen i weithio yn enwedig pan welais y llaw honno heb fysedd arni. Ond y peth pwysicaf, er gwaethaf y cwbl, yw'r teimlad eich bod yn helpu.'*

A dyna oedd maint a mesur eu hymroddiad drwy weddill y Rhyfel. Rhoddwyd y cyfle i ferched ddangos eu bod yn llawn mor fedrus â dynion; ac ategwyd hyn gan Brif Weinidog y dydd pan ddywedodd:

> *'Buasai'n amhosibl i ni gynnal rhyfel lwyddiannus oni bai am allu, brwdfrydedd ac ymdrech merched y wlad yma i'r Rhyfel hwn.'*

Un arall o'r VAD's a fu'n gofalu am gleifion a dioddefwyr y Rhyfel oedd Miss Jennie Williams, Plas Coch, Stryd Fawr, Llanberis. Ganed hi yn 1875 a phan dorrodd y Rhyfel allan yn 1914 roedd erbyn hynny yn 39 oed. Yn 19117 cynigiodd ei gwasanaeth fel nyrs yn Ffrainc lle bu am ddwy flynedd yn gofalu am y cleifion. Roedd parch mawr iddi yn yr ardal fel cymwynaswraig ac hefyd fel aelod gwerthfawr yn Eglwys Capel Coch.

Yn 1919 cafod pneumonia ac er bod y teulu wedi eu galw ar fyrder i Ffrainc, bu farw cyn iddynt gyrraedd yno. Claddwyd ei gweddillion yn Le Havre, er bod cofeb iddi ar fedd y teulu ym mynwent Nant Peris. Yn anerchiad blynyddol y Capel, ym mis Chwefror 1920, dywedwyd am Miss Jennie Williams: *'un a roddodd ei bywyd i wasanaeth ei gwlad'*. Diau bod y deyrnged honno yn addas i bob un o'r merched hynod hynny.

ER COF AM JENNIE WILLIAMS (V.A.D.) BU FARW YN FFRAINC (LE HAVRE) IONAWR 31, 1919

'HYN A ALLODD HON, HI A'I GWNAETH'

Anerchiad Mair Coed i Bryn Terfel
ar ymweliad criw o Gymry â Thŷ Opera Metropolitan yn Efrog Newydd, Hydref 1994

Mor bell yw bro yr Arad Goch
A llwybrau Mab y Mynydd,
Y Berwyn gyda'i farrug gwyn,
A'r hud yn hedd Eifionydd;
Ond yng ngindarddach Efrog fawr
Mae swyn yr heniaith beunydd.

Y bachgen iach a ganai'n llon
Yng nghapel bach y pentref
Sydd erbyn hyn yn gawr o ddyn,
Yn denu clod a bonllef;
Ond Cymro ydyw Bryn o hyd
Er teithio 'mhell o'i gartref.

O Eifion hwyliodd Madog gynt
Ar antur fawr ei fywyd;
A ninnau mewn awyren chwim
A ddaethom yma hefyd
I'r Metro, i gael profi gwledd
O gerdd, fel gwin y gwynfyd.

Llongyfarch wnawn yn llawen iawn,
A phawb sydd ar i fyny;
Fe roddwn glod i'r canwr mwyn —
Anrhydedd yw gwneud hynny.
A gŵyr y byd i gyd yn awr
Mai Gwlad y Gân yw Cymru.

John H. Hughes, Llanberis

CYFARCHION Y TYMOR

CLN
Argraffu a Ffotogopïo Lliw
Lluniau ar gyfer pasport
Crysau-T
Gwasanaeth Dylunio Pen
Llythyrau, Cardiau Busnes
ac ati, Ffotograffiaeth ...
a llawer mwy
48 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn/Ffacs: 870200
Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb

LINDA MORRIS
GWASANAETH TRIN GWALLT
YN EICH CARTREF
1 BRYN FEDWEN, FFORDD YR ORSAF
LLANRUG. Ffôn: 678857
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

CARTREF PRESWYL
LLYS EIDDON
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
oddi wrth breswylwyr a staff y cartref

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth
E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GLANHAU A BRAGU
gan Y Gwalch

Roedd Blodwen Huws wedi sylweddoli ei bod hi wedi torri petha yn ffein, chwedl hithau y noswyl Nadolig honno cyn iddi fynd drwy'r 'lych-gate' i'r fynwent. Ddylai hi ddim fod wedi mynd i nôl ei phensiwn a galw yn y Coparet y pnawn hwnnw, a chafodd hi ddim o'i chludo adra chwaith, wrth i honno ddod â'i phlant o'r ysgol.

Ef fod yna lewyrch yn y pellter roedd yr wybren yn argoeli gwyll cynnar, ac wrth iddi gerdded ar hyd y rhodfa, roedd y gofeb ar folt y Foniaid yn edrych yn glaer wen ac ysbrydol yn erbyn mwrllwch y Gogledd.

Teulu o fragwyr yn y dref fu'r Foniaid yn yr hen oes, a doedd ryfedd eu bod nhw wedi gallu fforddio'r fath wychder, wedi eu hamgylchynnu fel yr oeddent gan gerrig beddi plaen eu cyngwsmeriaid tlodaidd. Sylwodd Blodwen wrth fynd heibio fod y slabiau mawr ar yr wyneb, a roddwyd fyddai ei thad yn ddweud 'i gadw'r diawlad rhag dwad allan,' wedi hel tyfiant glas o gwmpas eu hymylon.

Doedd gan Blodwen fawr o amser i oedi. Roedd hi ar ei ffordd i lanhau'r eglwys erbyn y gwasaneth trannoeth, ond yn gyntaf roedd hi angen rhoi'r tysw blodau a gariai yn ei llaw yn deyrnged flynyddol ar fedd Neli. Croesodd y gwair llaith a dyfodd mor gyflym ar ôl ei dorri, ac yr oedd hi'n cythru i gongl ambell i gist i gadw ei hun ar ei thraed ar y ddaear bonciog.

Doedd hi ddim wedi bod yng ngolwg y bedd ers tro, a gresynnodd wrth ganfod nad oedd ond yn dal i gael ei nodi gan y groes bren garbwl, er fod y mab a'r ferch wedi gwerthu'r hen gartre, ac mewn swyddi da. 'Pwy faga blant?' meddai Blodwen yn uchel, gan ddiolch ar y pryd mai hen ferch ydoedd.

Cydymaith glanhau'r eglwys fu Nel am yn hir. Er nad oedd hi'n weithgar; roedd hi'n gwmpeini; yn enwedig pan ddechreuodd yr hen hipis rheini ddod i'r fynwent i yfed o ganiau ac i glertian ar y cistiau.

'Be mae nhw'n geisio, dwa?' roedd Blodwen wedi ei ofyn.

'W'bod yn y byd,' oedd ateb Nel a oedd yn fwy bydol. 'Fasa ddim gynnyn nhw dorri i mewn i'r beddi wyddost ti, tasa nhw'n meddwl bod yna fodrwya ynddyn nhw, neu i guddiad drygs.'

Daeth yn sgriff o eirlaw sydyn ar y gwynt, a phrysurodd Blodwen am borth yr eglwys dan ymladd â'i ambarél a phalfalu am yr agoriad mawr yn ei phoced. Roedd sŵn tymblars y clo wrth iddi ei droi fel ergyd mortar drwy'r adeilad gwag.

Cynted ag yr aeth i mewn a thynnu ei chôt aeth i mofyn y taclau glanhau o 'set llongwrs' o dan y clochdy. Roedd hi braidd yn bwcslyd o natur, ac yn tueddu ar brydiau yn yr oed hwnnw i fod yn ffwndrus. Taniodd yr un lamp drydan uwchben yr organ ar gongl y groes ac aeth i lawr y gangell. Roedd oes o ddarbodaeth wedi ei gwneud yn gynnil hyd yn oed o adnoddau pobl eraill.

Roedd yr eglwys wedi ei haddurno ar gyfer yr Ŵyl: coeden a chrud a chelyn, a bugeiliaid; yn debycach yn ei hawyrgylch i siop Woolworth nac eglwys blaen y werin fel bu hi, ond yr oedd Mr Cartwright, warden y bobl, gynt o Fanceinion, yn mynnu gwthio ei syniadau ymlaen fel y gwnaeth yn ei fyd busnes ceir llwyddiannus. Rhyw fath o glwb oedd yr aelodaeth wedi mynd o'r allanolion masnachol yn cael ei redeg gan fewn ddyfodwyr. Roedd y liturgy ddiwygiedig wrth gwrs yn Saesneg, os na fyddai'r ficer rhan-amser yn darllen yr Epistol yn Gymraeg a mecanyddol, er mwyn 'old Blod' fel yr oedd hi'n cael ei galw yn oddefgar. Roedd y drefn wedi troi i waered ers pan fyddai'r hen reithor yn adrodd yr erfyniadau yn Saesneg er budd un neu ddau o Loegr a fyddai yn troi i mewn i'r Foreuol Weddi ar eu gwyliau haf.

Ac am ei bod hi'n adeilad henafol ei bensaerniaeth, roedd yr eglwys wedi datblygu yn fan ffaisynnol i barau camcordaidd ddod yno i briodi mewn gwyn, ar ôl bod yn byw tali mewn lliwiau eraill, ac i alarwyr, na fuasent byth o dan amgylchiadau eraill yn meddwl tywyllu, ddod â'i meirwon, fel pe bai Duw ei hun yno ar oriau penodol fel meddyg teulu yn cadw syrjeri.

Dechreuodd Blodwen gaboli'r lectern, a phan gododd hi ei golwg am funud i edrych heibio i'r organ i gyfeiriad y darn croes, gwelodd ddyn yn eistedd yn y sedd gefn o dan y clwt tamp hwnnw oedd ar y mur. Roedd yn ddyn barfog ac yr oedd ei het yn dal am ei ben, ac yr oedd yr arwydd hwnnw o ddiffyg parch, am y munud, wedi cynhyrfu'r hen wraig yn fwy na'i bresenoldeb. Roedd hi ar gychwyn yno i ddweud wrtho, pan sylweddolodd hi mai het gorun uchel gantel fain oedd ganddo, fel y rhai a welodd mewn hen luniau. Fferodd am eiliad, ac yna gan wasgu'r clwt glanhau fel pel yn ei llaw, brasgamodd i lawr y gangell.

Cythrodd i'w phethau o 'set llongwrs' a'r peth cyntaf a ddaeth i'w meddwl oedd ei bod yn ei brys wrth ddod i mewn wedi anghofio cloi'r drws, ac fod yna rhywun yn ei gwrthgefn wedi cael cyfle i sleifio i mewn i'r eglwys. Ond fel y canfyddodd, doedd hynny ddim yn debygrwydd. Roedd y drws wedi ei gloi yn soled a'r agoriad oddi mewn.

Arhosodd hi ddim i roi ei chôt nes yr oedd hi yn y porth ac wedi ail-gloi'r drws, ac yr oedd hi wedi dod heb ddiffodd y golau. Wrth brysuro i lawr y rhodfa ger folt y Foniaid, syrthiodd ei ambarel o'i llaw, ac wrth iddi wyro i'w godi, edrychodd yn anochel ar y slabiau. Doedd hi ddim yn rhy dywyll iddi sylwi fod un wedi ei chodi ar ei hechel.

Rhoddodd rhywbeth dro y tu mewn i Blodwen, a llamodd am yr unig ddinas noddfa y gwyddai amdani ar y pryd: tŷ Jilly, a wyr hi ddim hyd heddiw sut y cadwodd hi ei thraed o dani wrth fynd i lawr yr allt. Ond doedd dim gwaredigaeth yn y fan honno chwaith. Roedd y ddau dŷ ynghglwm wrth eu gilydd, un mor dywyll â'r llall.

Clywodd hwy yn dod i mewn drwy'r cefn fel eu harfer heb gnoc na pheth, a'r peth cyntaf a wnaeth y fam gan luchio ei gwallt o'i llygaid bob yn ail brawddeg fel eboles ar dywydd pryfedog, oedd ymddiheuro am nad oedd Blodwen wedi cael ei chludo adref o'r Coparet. 'Bu raid i ni fynd yn ddirybudd i barti un o'r plant,' meddai hi, ac yna aeth yn ei blaen i sôn am ei helyntion siopa a'r rhuthr a phris pethau'n gyffredinol.

'You're coming to us tomorrow aren't you?' meddai wedyn yn ei Saesneg Stryd Coronation.

Yn gyffredin buasai Blowen wedi gwrthod yn gwrtais fel y gwnai hefo pobl yr eglwys. *'If I'm no trouble,'* meddai hi.

Ond fynnai Jilly ddim iddi feddwl am y fath beth, a theimlodd Blodwen rhyw don o agosatrwydd, a bu bron iddi a dweud am ei phrofiad yn yr eglwys, ond ataliodd ar yr ymyl. Ond roedd braw arall yn ei disgwyl pe bai hi ddim ond yn gwybod.

Trannoeth aeth Blodwen i'r ffug blygain, ac nis gallai lai na thaflu trem i'r groes yn awr ac yn y man. Roedd pawb wedi eu trwytho ag ysbryd ewyllys da a brawdgarwch yr Ŵyl, hyd yn oed Cartwright. *'All the best, Blod,'* meddai wrth y porth, ond nis gallai beidio serch hynny â'i hatgoffa am y golau nas diffwyd. Ond faliodd Blodwen ddim. Roedd hi'n edrych ymlaen am y prynhawn hefo'r plant.

Roedd hi'n fore tyner a doedd Blodwen ddim wedi trafferthu i gynnau tân cyn mynd. Aeth i'r spens i nôl hen rifynnau o'r papur rhanbarthol a fyddai yn cyrraedd o'r tŷ nesa. Roedd hi'n penlinio o flaen y tân yn datod y dalennau ar gyfer eu ffaglau pan welodd hi rhywbeth a aeth â'i sylw. Llun oedd o yn gysylltiedig â rhyw erthygl ar fragu a hanesyddiaeth y diwydiant hwnnw yn lleol er canrif neu ddwy.

Cododd Blodwen ar ei thraed a rhoi ei sbectol, ond bu'n dda ganddi gael eistedd ar drawiad. Syllodd yn gegrwth ar y llun a'i chalon yn dyrnu a gwyddai o reddf ei bod yn welw fel corff. Roedd wedi gweld y dyn o'r blaen y diwrnod cynt yn y sedd groes hefo'i het gorun uchel: John Vaughan y bragwr, a roddodd ei enw yn ddiweddarach ar ôl cyfrannu ati yn helaeth, i ysgol y dref.

Wyr Blodwen ddim am ba hyd y bu'n syllu ar y llun, nes y clywodd fel o bell leisiau yn canu, *'Merry Christmas Auntie Blodwen.'* Y tri o'r drws nesa oedd yno hefo'i anrhegion, fel y doethion gynt.

Ond pan ddaethant i'r ystafell fyw fferrodd eu llonder ar ei gwefusau, ac edrychodd y tri yn syn ar Blodwen oedd fel delw yn ei chadair. Yna meddai Jilly.

'What's the matter? Aren't you well? You look as if you've seen a ghost!'

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri
am brisiau rhesymol
ELWYN PRITCHARD
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun – Sadwrn
10.00 – 4.30
Ffôn: Llanberis 870922
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

FINE ART TRADE GUILD
ORIEL PLAS GWYN
Pontrug, Caernarfon
Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle.
Prisiau rhesymol.
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid lleol.
Ar ffordd A4086
Caernarfon — Llanberis
Ffôn/Ffacs: (0286) 672619
Richard S. Humphreys
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll oddi wrth Tim, Jackie a phawb yng
NGORSAF BETROL
BERAN
DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn
Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Dymuniadau Da i Margaret J. Jones, Foel, wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llandudno. Da gwybod ei bod gartref ac yn gwella, er fod rhagor o ymweliadau ag ysbyty eto o'i blaen. Gobeithio y daw llwyr wellhad yn fuan iddi. Yr un yw'n dymuniadau i Mrs Margaret Jones, 5 Bro Elidir, hithau wedi dychwelyd gartref o'r ysbyty yn ddiweddar. Daliwch i wella ac i gryfhau.

Don — Seren y Teledu?: Mae Don, ci Andrew Griffith, Tan y Bwlch, yn gwneud enw iddo'i hun ym myd teledu. Mae'n gwirioni ar wylio gêmau pêl-droed a snwcer ar y sgrîn fach, a daeth criw teledu yno i'w ffilmio ar gyfres newydd o'r enw 'Allor yn y Parlwr'. Cyfres sy'n dangos dylanwad y teledu ar fywyd y teulu a gobeithir ei dangos fis Chwefror.'

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Alwyn Bryn Roberts, 4 Stad Hafod, Clwt-y-bont, a fu farw mor ddisymwth yn Ysbyty Gwynedd ar 23 Tachwedd. Roedd yn fab hynaf y diweddar Mr a Mrs Llwydfryn Roberts, Glan Gors, Dinorwig. Dechreuodd weithio yn Chwarel Dinorwig yn 14 oed; ac yna gyda cwmni Telecom Prydeinig hyd ei ymddeoliad yn 1989. Bu'r angladd yn Eglwys Crist Llandinorwig ar 28 Tachwedd, gyda'r Parchg Glyndŵr Williams yn gwasanaethau, a'r Parchgn W. R. Williams a John Pritchard yn cynorthwyo. Yr organyddes oedd Mrs Gwen Griffith. Fe'i claddwyd ym mynwent Llandinorwig.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu y ddiweddar Gwladys Evans, 30 Rhydfadog, a fu farw ar 22 Tachwedd yn Ysbyty Gwynedd. Gweler teyrnged iddi yn y golofn hon.

Diolchiadau:

Dymuna Alice Griffith, Tan y Bwlch, a Megan P. Morris, Minffordd, ddiolch o galon i'w ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Gwladys. Diolch yn fawr.

Dymuna teulu y diweddar Alwyn Bryn, gynt o 4 Stad Hafod, Clwt-y-bont, ddiolch i ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu colled. Diolch i'r Parchedigion R. Glyndŵr Williams, W. R. Williams a John Pritchard; ac i E. W. Pritchard am y trefniadau.

Gwasanaeth Nadolig: Cynhelir gwasanaeth Cymun Bendigaid Undebol yn Eglwys Crist Llandinorwig am 9.30 fore dydd Nadolig. Croeso cynnes i bawb o bob enwad i ymuno yn y gwasanaeth hwn. Ar nos Sul, 1 Ionawr 1995, cynhelir Gwasanaeth y Cristingl am 5 o'r gloch. Fel y gŵyr nifer ohonoch yn barod mae Eglwys y Plwyf yn gofyn am gymorth ariannol tuag at dalu costau gwella cyflwr y fynwent. Mae costau mawr ynghlwm wrth yr holl waith yma byddai derbyn eich cyfraniadau ariannol yn cael ei werthfawrogi yn fawr iawn. Gellir rhoi y cyfraniadau i'r Wardeniaid, sef Mrs J. Williams a Mrs E. Roberts, Rhydfadog, neu i'r Trysorydd, Mr Brian Price. Fe ddylai amlenni ariannol am y flwyddyn newydd fod wedi cyrraedd pob un o'r aelodau erbyn hyn. Cofiwch pa mor bwysig yw cyfrannu'n hael i waith yr Eglwys.

Cofio Gwladys Evans

Bu'n llednais hyd benllwydni — bu'n weddus,
Bu'n addurn cwrteisi;
Bu'n annwyl hyd benwynni,
Bu'n dlos tra bu'i hanadl hi.

Yr englyn hwn, gan R. Williams-Parry, a ddyfynnodd y Parchg Olaf Davies fel disgrifiad teilwng o Gwladys Evans, 30 Rhydfadog, ar ddydd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor. Er iddi fod yn llesg ei hiechyd ers peth amser daeth y diwedd yn annisgwyl ar Dachwedd 22, yn Ysbyty Gwynedd, a hithau'n 87 oed.

Ganed hi yn Y Foel, Dinorwig, ac er iddi symud tŷ droeon arhosodd yn ardal Gwaun Gynfi gydol ei hoes, ac yn Eglwys Sardis y bu'n aelod erioed. Ond er hynny roedd cynnyrch ei gweithgarwch llenyddol wedi dod â sawl ardal dros Gymru yn adnabyddus iddi. Deuai llythyrau yn gyson o bell ac agos iddi yn gofyn am ei chaniatâd i berfformio rhyw ddrama neu'i gilydd o'i gwaith.

Yr oedd yn ei helfen yn llunio storïau, penillion a dramâu. Lluniau ddramâu neu basiant neu sgets ar gyfer y capel, ar gyfer ardal Dinorwig, ar gyfer Merched y Wawr a Sefydliad y Merched yn Neiniolen. Os paratoi ar gyfer y capel a wnâi nid drama ar gyfer nifer fach o gymeriadau a geid ganddi ond gofalai fod rhan ar gyfer pob aelod, o'r hynaf i'r ieuengaf, o'r mwyaf hyderus i'r mwyaf swil. Ac os oedd talent i ganu gan ambell un yna byddai cân neu emyn wedi ei gwau i mewn i'r ddrama. Roedd yn adnabod cyrhaeddiadau yr aelodau i'r dim, a byddai bwrlwm heintus yn y paratoi a'r ymarferion yn ei chwmni.

Un o uchafbwyntiau Cyfarfod Ysgol Sardis ers talwm fyddai adroddiad gan Gwladys Evans, a hwnnw'n aml o'i gwaith ei hun. Meddai ar gof neilltuol, a gallai adrodd rhesi o benillion, neu ddyfynnu'n helaeth o lyfr, neu o ddarlith neu sgwrs a glywsai.

Enillodd fedal aur yn Eisteddfod Genedlaethol Pontypŵl am waith llenyddol, a'r brif wobr yn Eisteddfod Genedlaethol y Pensiynwyr am ei hatgofion. Darllenai'n helaeth, ac yng ngeiriau ei gweinidog, roedd wedi 'llyncu llyfrau'.

Tristwch o'r mwyaf oedd iddi golli ei golwg, ac fe gollodd ei chlyw, ac erbyn y misoedd olaf fe ballodd ei chof hefyd. Ac er colli'r cynheddfau hyn, ni chollodd ei ffydd. Ni chwerwodd ond daliodd yn siriol, a dal i gredu.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phedair merch a'i dwy chwaer, a'r teulu i gyd, yn eu colled.

Trefnu Nosweithiau: Er mwyn gweld os oes digon o ddiddordeb yn ein mysg fel pentrefwyr i drefnu nosweithiau cymdeithasol a diwylliannol yn y pentref bwriedir cynnal cyfarfod yn y Ganolfan, ar nos Fercher 4 Ionawr, am 7 o'r gloch, ar gyfer cael ymateb. Felly, cofiwch ddod draw. Bydd pob croeso i chwi. Os na fyddwch yno — yna peidiwch a chwyno wedyn nad oes dim yn cael ei wneud yn y pentref. Dyma eich cyfle i weithredu.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch

Derbyniwyd y llun hwn o Garnifal Dinorwig, ond yn anffodus nid oes dyddiad arno. Mae'n siŵr fod nifer ohonoch yn adnabod rhai sydd yn y llun. Pwy, tybed, yw'r bachgen ifanc sy'n gwisgo sbectol yng nghanol y llun? Mae'n edrych yn debyg iawn i un a dyfodd i fyny i fod yn un ffyddlon i'r gweithgarwch. Efallai y bydd pysgodyn fel gwobr i'r sawl sy'n ei adnabod!

GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON
Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota
Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr
STRYD FAWR, LLANBERIS 870840
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn Jones a'r staff

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym musnes llefrith
EIRWYN WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO
Ffôn: Llanberis 870563
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn

CHWILOTA
EDRYCH YN ÔL

Mae'r Gwyliau fel arfer yn gyfnod ble mae neiniau a teidiau yn tueddu i edrych yn ôl a dweud wrth wyrion a wyresau: 'Pan oeddwn i'n blentyn, fel hyn roedd pethau dros y 'Dolig . . .' Yn yr un modd, sawl plentyn sydd wrth ei fodd yn gwrando hanes Nain neu Taid yn blentyn bach? Ar drywydd hollol wahanol, gwelsom newidiadau mawr ym myd addysg dros y blynyddoedd diwethaf; ond mae'n debyg mai un o'r ychydig bethau nad ydynt wedi newid yn hanes ysgolion y fro yw'r lluniau blynyddol o ddosbarthiadau ac unigolion. Felly, yn anrheg Nadolig i'r darllenwyr dyma gyfuno'r ddau, a dangos rhai o luniau dosbarthiadau ysgolion y fro 'pan oedd Nain a Taid yn blant'.

Daw'r lluniau a'r wybodaeth am blant Ysgol Dinorwig ac Ysgol Brynrefail oddi wrth Mr Owie Jones, Maestirion, 27 Banc Pendre, Cydweli, Dyfed. I'r rhai oedd yn cyd-oesi ag ef mae'n debyg y byddech yn ei adnabod yn well fel Owie Tan-y-fron, Dinorwig. Anfonodd lond llyfryn o wybodaeth am hynt a helynt plant, athrawon a theuluoedd ardal Dinorwig, a gobeithiaf fedru cynnwys nifer o'r hanesion yn ystod rhifynnau 1995.

Nid yw'r ddau lun o Ysgol Dinorwig yn cynnwys yr athrawon, ond yn ôl Mr Jones, athrawes dosbarth yr 'infants' oedd Miss Jones, Congl-y-mynydd. Roedd yn dysgu yn Ninorwig ers diwedd y ganrif ddiwethaf, ond tua amser tynnu'r llun (1921 neu 1922) cafodd ei symud i ysgol arall. Daeth Miss Jones, Rhiwlas, yn ei lle; athrawes ardderchog. Arferai reidio beic o Riwlas i Ddinorwig bob dydd, ond gadawodd yr ysgol pan briododd â John Pierce, fferm Ty'n Llwyn, Pentir. Athrawes y dosbarth hynaf (1924-25) oedd Miss Dora Ann Jones, Padarn Villa (?), Fach-wen, a'r prifathro, a oedd yn byw yn Nhŷ'r Ysgol, oedd Mr W. D. Jones.

Mae'r llun o ddosbarth 3X o'r *'Llanberis and District County School'* (yr hen Ysgol Brynrefail) wedi ei dynnu y tu allan i'r cytiau ble cynhelid rhai dosbarthiadau yn y cyfnod hwnnw. Dyma'r dosbarth a basiodd y 'scholarship' yn 1927, ac yn y cytiau y bu eu cartref addysgol am y dair blynedd gyntaf. Dywedir mai hen gytiau o eiddo'r Fyddin oeddynt ac yr oedd tair ystafell ddosbarth yno. Ar ddiwedd y drydedd flwyddyn roedd y dosbarth yn cael ei symud i ystafell yn y prif adeilad.

Dosbarth 3X Ysgol Brynrefail.
Bechgyn (chwith i'r dde): Ellis Hughes, Berthan Gron, Deiniolen; Obadiah John Williams, Commercial House, Penisarwaun; Hugh Thomas, 1 Dinorwig Cottages, Dinorwig; J. Emyr Thomas, London House, Deiniolen; Hugh Lloyd Edwards, Siop Gron, Penisarwaun; Hugh Jones, Llanberis; Elwyn Williams, Gweledfa, Brynrefail; Eleazar Rowlands, Cwm-y-glo; Hugh Morris Thomas, Ceunant; Bobbie Williams, Gallt y Foel, Deiniolen; John Gwynedd Jones, Llanberis; Iorwerth Griffiths, Pen Tai Croesion, Penisarwaun; Owie Jones, Tan y Fron, Dinorwig; Nowie Jones, Llanberis; Owen Fairhurst Wilson, Llanrug.
Genethod (chwith i'r dde): Rowena Jones, Boot and Shoe Shop, Llanberis; Olwen James, Nant Peris; Winifred Hughes, Bron Myfyr, Dinorwig; Menai Williams, Snowdon Street, Llanberis; Buddug Jones, Buarth, Lôn Bwlch Uchaf, Deiniolen; Malan Parris, Tai Groeslon Marc, Llanrug; Mary Pritchard, Pontrhythallt, Llanrug; Megan Price Morris, Minffordd, Dinorwig; Isabelle Hughes, Llanberis; Olwen Davies, Llanberis; Minnie Rowlands, Deiniol Road, Deiniolen; Glenys Ellis, Victoria Terrace, Deiniolen.
Yr athro dosbarth ar y pryd oedd Mr Gwilym Jones, Clwt-y-bont, sef athro Daearyddiaeth.

Ysgol Dinorwig: Dosbarth yr 'infants' tua 1921 neu 1922.
Rhes ôl (chwith i'r dde): Owen Thomas, Buarth Newydd; Hugh Parry, Chwarel Fawr; Alun John Owen, Felin Fawr, Bedwargoed; Ted Jones, Bryn Bela, Fach-wen; Alun Roberts, Pen-y-bryn, Fach-wen; Willie Alun Williams, Tai'r Felin, Allt-ddu; Jackie Owen, Groeslon Uchaf; Hugh Thomas, Siop Chwarel; Thomas Elwyn Jones-Parry, Tan-y-bryn, Llidiart-y-clo; Dafydd John Morgan (?) Fuchas, ger Twll Tŷ Clwb; Owie Jones, Tan-y-fron.
Rhes flaen (chwith i'r dde): Sarah Olwen Thomas, Creigle (?), Fach-wen; Hannah Louvain Thomas, Chwarel Goch; Florence Davies, Felin Bach, Allt-ddu; Nellie Valmai Jones, Pendyffryn; Megan Price Morris, Minffordd; Jennie Jones, Bryn Llys, Allt-ddu; Gwladys Evans, Glogwyn Gwyn.

Sylwch mai un ar bymtheg o blant yn unig sydd yn y dosbarth o Ysgol Ganol Llanrug (1935). Mae dosbarthiadau heddiw bron i ddwywaith y maint. Ac y mae'r *'teacher-pupil ratio'* wedi gwella medda nhw! Pwy tybed yw'r athro sy'n sbecian rownd congl y drws? Fe fyddai cadeiriau fel y rhai yn y cefndir, o'u gwerthu heddiw, yn chwyddo cryn dipyn ar gronfa unrhyw ysgol!

Daeth y llun rhyfeddol o ran ansawdd o Ysgol Llanddeiniolen yn 1900 yr holl ffordd o Phoenix, Arizona, drwy law Gwilym Davies, Minffordd, Llanrug, un o ddosbarthwyr yr *Eco* yn y pentref. Copi o'r llun gwreiddiol ydyw, ac y mae bellach ym meddiant gor-wyres un o'r genethod yn y llun.

Ganed Jane Davies ym mhlwyf Llanddeiniolen, yn ferch i Robert a Margaret Davies, ac yn ôl Cyfrifiad 1891 roedd y teulu'n byw yn Snowdon View, Penisarwaun (Gwêl yr Wyddfa yw'r enw arno heddiw, sydd gyferbyn â'r Siop Gron). Yn 1896 symudodd y teulu i fyw i Cae Rhos Cottage, yn Seion, ac oddi yno yr aeth Jane i Ysgol Llanddeiniolen. Buont yn byw yn Seion am tua deng mlynedd cyn ymfudo i'r Unol Daleithiau yn 1907. Priododd Jane yn fuan ar ôl cyrraedd y wlad honno, ac y mae merch iddi yn dal yn fyw, ac yn 84 mlwydd oed. Ei gobaith yw cael ymweld â Chymru yn ystod mis Hydref 1995 er mwyn cael ei golwg cyntaf erioed ar gartref ei mham a bro ei mebyd.

Gor-wyres Jane Davies sydd wedi bod yn olrhain ei chart achau, ac wedi cysylltu â Chymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd. Felly y daeth i gysylltiad â Gwilym Davies, sy'n wreiddiol o Seion, ac yn hannu o'r un teulu.

Tybed a yw'r llun hwn ym meddiant eraill o ddarllenwyr yr

CWRS GOLFF TYDDYN MAWR
TYDDYN MAWR, LLANRUG, GWYNEDD LL55 4BS
Ffôn: (01286) 674919

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod agored yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis ar nos Iau, Ionawr 5ed 1995 am 8.00 o'r gloch i drafod y bwriad o sefydlu **CLWB GOLFF**. Os am wybodaeth bellach cysylltwch â Meirion Hughes.

Atodiad Eisteddfodau Lleol 1994

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi bnawn a nos Sadwrn, 29 Hydref. Y Beirniaid oedd — Cerdd: Mr Geraint Roberts, Prestatyn; Adrodd a Llên: Y Prifardd Jâms Nicholas, Tal-y-bont.

Dyrnaid bychan o selogion oedd yn bresennol yng Nghapel Ebeneser fel roedd y Steddfod am eleni yn dirwyn i ben — a hithau'n tynnu am hanner awr wedi un — ar fore Sul, 30 Hydref.

Mae'n bur debyg y rhoddir ystyriaeth i'r sefyllfa honno yng nghyfarfod blynyddol y Steddfod gyda golwg ar ennyn rhagorach cefnogaeth i gystadlaethau yr Her Unawd a'r Brif Adroddiad, sydd yn y gorffennol wedi cloi'r cystadlu yn sesiwn nos Sadwrn y Steddfod.

Canmolwyd yn uchel y cystadlu ar y llwyfan, gyda chantorion ac adroddwyr o cyn belled â Thrawsfynydd; Llannefydd, Clwyd; a pherfeddion Môn, yn ymgiprys am y gwobrau. Clywyd y Prifardd Jâms Nicholas yn honni fwy nag unwaith fod safon cystadlu llenyddol y Steddfod yn rhagori ar safon aml i Steddfod Daleithiol y bu yn beirniadu ynddynt yn y gorffennol. Gwerthawrogir cyfraniad gloyw ieuenctid ein pentref yn seremoni'r Fedal Lenyddol a'r Gadair. Hyderir y gwelant yn dda i barhau eu cefnogaeth, ac yn awyddus i ddatblygu eu diddordeb trwy ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau er gwarchod ein diwylliant fel cenedl.

ADRODD

Oed Meithrin: 1, Bronwen; 2, Sioned; 3, Daniella ac Ashley. **Blwyddyn 0:** 1, Gwenllian; 2, Simon; 3, Sioned a Gethin. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Christopher; 2 Nidian a Daniel; 3, Ffion ac Emma. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Donna Lewis. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Rhian; 2, Trystan; 3, Lowri. **Parti Cydadrodd dan 12:** 1, Parti'r Wyddfa; 2, Parti'r Ddraig Goch. **Dan 16:** 1, Jennie Lynn; 2, Iwan Llŷr; 3, Lyndsey; **Dan 21:** 1, Einir; 2, Michelle; 3, Lyndsey. **Darllen rhan o'r Ysgrythur i ddysgwyr:** 1, Miss Moeller. **Adrodd o'r Ysgrythur:** 1, Lyndsey; 2, Einir; 3, Alaw ac Iwan. **Prif Adroddiad:** 1, Meira Turner.

ADRAN LENYDDOL

Oed Meithrin: Pawb yn gydradd gyntaf. **Blwyddyn 0:** 1, Sam; 2, Oliver a Gwenllian; 3, Sarah a Simon. **Blwyddyn 1:** 1, Kylie; 2, Manon; 3, Bedwyr a Christopher. **Blwyddyn 2:** 1, Ffion; 2, Gregory; 3, Richard. **Blwyddyn 3:** 1, Aletta; 2, Heledd a Kevyn; 3, Donna a Llinos. **Blwyddyn 4:** 1, David; 2, Phillip; 3, Laura ac Aneurin; **Blwyddyn 5:** 1, Robin; 2, Stephanie; 3, Ffion. **Blwyddyn 6:** 1, Rhodri; 2, Rhian; 3, Urien a Kelly. **Barddoniaeth dan 12:** 1, Rhian; 2, Lowri; 3, Michelle a Stephanie. **Rhyddiaith dan 19:** 1, Alaw Mary; 2, Jennie Lynn. **Medal Lenyddol dan 12:** 1, Karen Owen, Pen-y-groes. **Stori Fer:** 1, John Roberts, Llangaffo, Môn. **Englyn Digri:** 1, Valmai Williams; 2, Grace Jones. **Parodi:** 1, Grace Jones; 2, Valmai Williams. **Englyn:** 1, Gwynn Davies. **Atgofion:** 1, Grace Jones; 2, J. Eirlys Williams. **Cerdd Ysgafn:** 1, Valmai Williams; 2, Hugh Jones; **Limrig:** 1, Mrs Mary Wyn Jones; **Llinell Goll:** 1, John Roberts. **Adroddiad i Blant:** 1, R. H. Griffiths; 2, Valmai Williams. **Creu Brawddeg:** Grace Jones. **Cystadleuaeth y Gadair:** Mr Dewi Thomas.

CERDD

Ffion Medi Jones, enillydd yr unawd o dan 4 oed.

Canu — Oed Meithrin: 1, Ffion; 2, Caryl; 3, Steffani. **Blwyddyn 0:** 1, Gwenllian; 2, Simon a Sioned; 3, Gethin. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Emma; 2, Ffion; 3, Manon a Daniel. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Donna Lewis; **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Trystan; 2, Rhian; 3, Lowri. **Cerdd Dant dan 12:** 1, Elfed; 2, Rhian; 3, Donna. **Cân Werin dan 12:** 1, Elfed; 2, Rhian; 3, Donna. **Unawd Offerynnol dan 12:** 1, Arwel; 2, Urien; 3, Collette. **Unawd Piano dan 12:** 1, Rhian. **Parti Canu dan 12:** 1, Parti'r Wyddfa; 2, Parti Elidir. **Unawd dan 16:** 1, Lyndsey Vaughan; 2, Michelle; 3, Darrell. **Unawd Offerynnol 12-16:** 1, Jennie Lynn; 2, Iwan; 3 Bethan a Darrell; **Côr neu Barti Ieuenctid:** 1, Parti Trystan. **Unawd Cerdd Dant dan 21:** 1, Nia Land; 2, Michelle a Lyndsey; 3, Darrell. **Cân Werin dan 21:** 1, Nia Land; 2, Lyndsey; 3, Michelle a Darrell. **Unawd Piano dan 21:** 1, Einir; 2, Lyndsey; 3, Iwan. **Unawd dan 21:** 1, Nia; 2, Michelle a Lyndsey; 3, Arrell. **Deuawd:** 1, Alun ac Wmffra; 2, Lyndsey ac Elfed. **Canu Emyn Dôn i rai dros 50:** 1, Glenys; 2, O.P.; 3, Wmffra ac Alun. **Unawd Offerynnol Agored:** 1, Gavin; 2, Iwan Eilir; 3, Euros. **Cân Werin Agored:** 1, Robert John; 2, Lyndsey; 3, Wmffra. **Her Unawd:** 1, Trefor. **Trefnu Emyn Dôn ar gyfer Grŵp Offerynnol:** 1, Euros Williams.

Alaw Mari Huws, fu'n cystadlu ac yn llywio Seremoni'r Cadeirio yn gelfydd iawn.

ARLUNIO

Oed Meithrin: 1, Caryl; 2, Manon; 3, Soffia. **Blwyddyn 0:** 1, Ffion; 2, Sarah; 3, Loi. **Blwyddyn 1:** 1, Kylie; 2, Emma; 3, Ynnyr. **Blwyddyn 2:** 1, Caroline; 2, Aaron; 3, Joseff. **Blwyddyn 3:** 1, Alissia; 2, Heledd; 3, Mark. **Blwyddyn 4:** 1, Matthew; 2, Emma; 3, Christopher. **Blwyddyn 5:** 1, Gavin; 2, Llinos; 3, Nia. **Blwyddyn 6:** 1, Tommy; 2, Mathew; 3, Sarah. **Blwyddyn 11 i 13:** 1, Euros. **Agored:** 1, H. Jones ac Euros.

GWAITH LLAW

Oed Meithrin: 1, Mannon; 2, Caryl; 3, Barry John. **Blwyddyn 3:** 1, Mark Demcolli; **Blwyddyn 6:** 1, Rhian; **Blwyddyn 7 ac 8:** 1, Alaw Mari. **Blwyddyn 11 i 13:** 1, Tanya.

GWAU

Ysgol Gwaun Gynfi: 1, Lowri; 2, Rhian; 3, Rachel. **Dros 16:** 1, Sian ac Ellen Wyn; 2, Elan; 3, Valmai.

GWNÏO

Dros 16: Elena. **Brodwaith:** Nansi, Marian, Eirlys, Nansi. **Tegan Meddal:** Valmai.

COGINIO

Dan 8: Manon; **Dan 12:** Rhian, Trystan. **Dan 16:** Debbie, Bethan, Jennie Lyn. **Dan 21:** Elena. **Teisen Flab:** Menna Wyn, Eirey a Meira, Valmai. **Fudge:** John B, Valmai, Menna Wyn. **Dynion yn unig:** Hefin, Euros.

HEN GREFFTAU CYMREIG

Llwyau Caru, a.y.b.: Len, Lleifior, Lleifior.

FFOTOGRAFFIAETH

Dan 12: Rhian, Urien Sion, Trystan. **Dan 16:** Debbie, Sion T. **Dan 21:** Mark Potter. **Agored:** Menna Wyn.

TREFNIANT BLODAU

Dan 12: Rhian. **Dan 16:** Alaw Mari. **Dan 21:** Debbie. **Agored:** Gwen.

EIN PENTREF NI

gan ROBIN GLYN (Blwyddyn 5)

(Cafodd Robin glod uchel gan y Prifardd Jâms Nicholas am y disgrifiad hwn o bentref Deiniolen.)

DEINIOLEN yw enw ein pentref ni sydd rhwng Caernarfon a Bangor. Mae dau bentref bach o gwmpas Deiniolen — Dinorwig a Chlwt-y-bont. Mae'r plant sydd yn byw yn y manau hynny yn dod i'n hysgol ni. Ers talwm roedd yna lawer o siopau yma, ond dim ond tair sydd ar ôl.

Ni ddylech ddod yma heb weld y chwarel i fyny yn Ninorwig. Y chwarel fwyaf yn y byd ond mae wedi cau rŵan. Mae tri capel yma ac un eglwys. Rydw i yn mynd i gapel Ebeneser. Enw'r eglwys ydi Eglwys Llanddinorwig. Mae un capel newydd gael ei ddymchwel i lawr.

Mae cae chwarae newydd yn Hafod Olau. I lawr yng Nghlwt-y-bont mae'r Cwt Band. Rydw i yn aelod o'r Band. Fy offeryn i ydi'r trombone. Mae chwech o blant yn mynd i'r Cwt bob dydd Llun am awr. Rydym yn cael gwersi yn yr ysgol hefyd.

Mae tri mynydd o gwmpas Deiniolen: Y Bigil, Elidir a Rhiwen.

I mewn yng nghrombil Elidir mae gorsaf drydan. Ceir peipiau mawr yn Llyn Marchlyn, wedyn maent yn defnyddio'r dŵr o'r llyn i greu trydan. Mae'r dŵr yn mynd i Lyn Peris ond yn y nos mae'r dŵr yn cael ei bwmpio yn ôl i Farchlyn.

Enw fy nhŷ ydi Afon Goch. Dydi'r tŷ ddim yn y pentref ond uwch ei ben.

Mae llawer o bobol yn dod i ddringo yn Ninorwig. Mae yna bobol o Loegr yn mynd yno. Mae golygfa hyfryd yno.

Rydw i yn hoffi'r natur yn Neiniolen. Mae yna fwy o wiwerod llwyd nag o wiwerod coch. Mae yna ddigon o lwynogod yma, ond dydw i ddim wedi gweld un. Rydw i wedl gweld digon o ddefaid yma. Mae yna fwy o ddefaid yma na dim byd arall.

Rydw i'n mynd i symud tŷ i Gapel Curig. Rydw i yn hapus yma ond mae Dad yn gweithio yn Llanrwst.

Yn Neiniolen ers talwm roedd hi yn dawel fel y bedd ond pan oedd yn noson Cyfri Mawr. Roedd pawb allan o'u tai. Roedd pawb oedd yn gweithio yn y chwarel yn cael bonws hefo'u cyflog. Rydw i yn siwr mi fyswn i yn hapus ers talwm yn NEINIOLEN.

Elfed Morris, enillydd Cerdd Dant a'r Alaw Werin o dan 12 oed — ac ymgeisydd gorau yng nghyfarfod y prynhawn.

CYFARFOD BLYNYDDOL

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI

yn y Caban

Nos Fawrth

10 Ionawr 1995

Apelir am gefnogaeth dda gan bobol y cylch

EISTEDDFOD PENISARWAUN

Eisteddfod Bentref: Nos Wener, 25 Tachwedd, cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Iwyddiannus iawn unwaith eto yn y Neuadd Gymuned. Mwynhawyd gwledd o dalentau ifanc yn canu, adrodd, chwarae offerynnau cerdd, actio a dawnsio. Llongyferchir pawb a gymerodd ran — mae'r enillwyr yn rhy niferus i'w henwi ond clodforir yn arbennig y ddau brif lenor — Erin Eifion o dan 12 oed; a Huw Roberts o dan 18 oed.

Diolchir i'r beirniaid Mrs Gwynethe Morus Jones, Llandegfan (Llên ac Adrodd); Mrs Mair Huws, Llanrug (Cerdd); Mr Arnold Jones, Waun (Arlunio); Miss Eirian Pritchard, Caernarfon (Gwaith Llaw); a Mrs Rhian Elis Owen, Llandwrog (Coginio). Diolch eto eleni i'r gyfeilyddes, Mrs Glenys Griffiths, Bethel, a hefyd i'r Arweinyddion — Mrs Nansi Jones a Mrs Elizabeth Jones. Diolch i bwyllgor yr Eisteddfod am wneud y trefniadau ac i bawb a fu'n ymlafnio i hyfforddi'r plant.

FY NGWAITH YNG NGHORFF ALWEN

gan ERIN EIFION

Prif Lenor o dan 12 oed

Erin Eifion

Helô, fy enw yw Lali Lasagne a threuliais wythnos gyntaf fy mywyd yn siop gornel pentref Chwyrligwgan. Pan ddaeth dydd Llun daeth Picsi i mewn i'r siop a fy mhrynu. Ei henw oedd Alwen. Deg oedd oedd hi ac roedd ei mham yn sâl, felly roedd yn rhaid iddi wneud popeth. Cefais fy nghoginio gan Alwen nes roeddwn wedi cael lliw haul hyfryd. Yna rhoddodd Alwen blant Mrs Pysan wrth fy ymyl a theulu Mrs Tshipi Tships. Yna tywalltodd ddiod o lemonade. Fy ffrind gorau yw'r lemonade a'i henw yw Lili. Fe fwytaodd y pys un ar ôl ei gilydd, y tships, ac fe yfodd hanner Lili. Yna daeth ei fforc ataf i.

Roedd yn rhaid imi fynd i mewn i ogof dywyll. Roedd rhywbeth pinc yn fy nghorddi nôl ac ymlaen ac roedd rhywbeth yn fy nghnoi, cefais fy nhrochi mewn dŵr cynnes yn yr ogof. Yng nghefn yr ogof deuais at ddwy bibell, un a chaead ac un yn agored. Roedd arwydd yn dweud: 'I'R YSGYFAINT' wrth un, a gwelais fod y bibell â chaead yn mynd i'r ysgyfaint. Uwchben y bibell oedd ar agor roedd arwydd yn dweud: 'I'R STUMOG'. Meddyliais am funud a gwelais blentyn ieuengaf Mrs Tshipi Tships — Charlie — uwchben y twll â golwg ofnus arno.

'M-a-e M-a-m wedi m-y-n-d i lawr y b-i-b-e-ll agored. R-wy'f o-o-ofn Lali . . . helpa fi . . . plîs!'

Roedd Charlie wedi dychryn yn fawr felly gafaelais yn ei law a disgyn i mewn i'r bibell.

'W-e-e-e-eh. mae hyn yn hwyl, Lali!' dywedodd Charlie bach.

Nid oedd yn lawer o hwyl i mi gan ei bod yn bibell seimllyd iawn ac roedd yn fy rhwbio pob munud y cai gyfle. Ble yn y byd mae'r bibell yma am lanio? Gobeithio y glaniaf yn fuan!

S-P-L-A-S-H. Do, rwyf wedi glanio — glanio yng nghanol Lili. O! mae hi'n oer . . . b-r-r-r. Roedd pawb wrth eu bod yn trochi yn Lili. Roedd Anna Banana wedi gwneud ei hun yn sglefr ac roedd pawb yn disgyn i lawr hi. Arhosais am awr neu ddwy yn y môr o lemonade a deuais i adnabod Hambyrger o'r enw Humphrey. Roedd Humphrey yn fy nghysuro bob tro pan oeddwn yn drist ac ofn. Yna teimlais rywbeth yn fy ngwthio i lawr i bibell arall. Roedd y bibell yma yn fy nghosi ac roeddwn yn chwerthin nes oedd fy ochr yn brifo. Gwelais arwydd yn dweud fy mod i'n mynd i'r 'COLYDDYN BACH'. Eto, arhosais yno yn hir iawn. Wrth fy ymyl roedd Kelly Kiwi. Un o fy ffrindiau o Siop Chwyrligwgan oedd Kelly.

Deuais at bibell fwy eto a gwelais arwydd yn dweud fy mod yn dod i'r 'COLYDDYN MAWR'. Wrth agoriad y bibell yma roedd sach fechan ac yn y sach roedd yna hadau yn cwffio am le i gysgu. Roedd y lle yma yn edrych yn gyfforddus iawn.

Dywedodd Humphrey: 'Fe fydd y sach yna cyn bo hir yn brifo'r corff gymaint fel y bydd yn rhaid iddo fynd i'r ysbyty i gael ei dynnu.'

Wrth imi feddwl am y peth dechreuais chwerthin wrth feddwl am yr hadau yn gorfod ymadael a'u gwely.'

Hip-hip-Hwrê . . . rwyf am adael y corff o'r diwedd . . . Rhyfedd o gorff s'gen Alwen . . . a phawb arall . . . yntê?

Ta-ta, ta-ta, ta-ta — Lali Lasagne

Huw Tegid Roberts.
Prif lenor o dan 18 oed.

EISTEDDFOD BETHEL

Cafwyd Eisteddfod Iwyddiannus iawn eto eleni gyda chystadlu brwd o safon uchel ar y nos lau ac ar y nos Wener.

Ar y nos lau cafwyd cystadlaethau dawnsio gyda Mr Goronwy Jones yn arwain y gweithgareddau a Mr Gareth Jâms, Y Felinheli, yn beirniadu.

Nos Wener y beirniaid oedd — Cerdd: Elen ap Robert, Y Felinheli; Llefaru a Llên: Esyllt Maelor, Morfa Nefyn; Celf: Mrs Pat Jones, Brynrefail a Mr Alan Ginsberg, Bethel; gyda Manon Gwynedd a Mrs Glenys Griffith yn cyfeilio. Yr arweinyddion oedd Geraint Elis a Mrs Mair Read.

Cystadlu o ddifri . . .!

Enlli Haf Huws a Llinos Mair Williams, prif lenorion oed ysgolion cynradd ac uwchradd ar Iwyfan yr Eisteddfod.

'Ew . . . gwaith calad ydi'r beirniadu 'ma . . .!'

DAWNSIO DISGO
Unigol dan 12: 1, Katie; 2, Tracey. **Unigol dros 12:** 1, Elen; 2, Lowri; 3, Rebecca. **Grŵp dan 12:** 1, Grŵp Bethan; **Grŵp dros 12: 1, Grŵp Eleri.**

DAWNSIO GWERIN
Pari dan 12: 1, Joanna a Caryl; 2, Elan a Ffion; 3, Sonia a Nia.
Tlws am y perfformiad gorau: Elen Robinson.

CERDD
Oed Meithrin: 1, Marged; 2, Ceri; 3, Ela. **Blwyddyn 0:** 1, Dewi ac Aled. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Manon; 2, Berwyn; 3, Elan. **Blwyddyn 3 a 4:** Huw; 2, Ffion; 3, Lois. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Gwenno; 2, Gwen; 3, Nora a Sonia. **Parti Blwyddyn 1, 2 a 3:** 1, Parti Elen a Pharti Tomos. **Parti Blwyddyn 4, 5 a 6:** Y Rafins;? 2, Parti Cadi. **Unawd Piano dan 9:** 1, Ffion; 2, Lisa; 3, Manon. **Unawd Piano dan 12:** 1, Sara; 2, Iolo; 3, Cefin. **Unrhyw Offeryn dan 12:** 1, Iolo; 2, Owain; 3, Gwenno. **Unawd Blwyddyn 7, 8 a 9:** 1, Bethan Fôn Jones; 2, Bethan Williams; 3, Rhian Williams ac Elen Robinson. **Unawd Blwyddyn 10-13:** 1, Eleri Robinson. **Unawd Piano Blwyddyn 7, 8 a 9:** 1, Bethan Fôn Jones; 2, Geraint Owen; 3, Ifan Rowlands.

Dawnswyr disgo deniadol.

Roedd digon o gystadleuwyr ifanc ym Methel.

Unawd Piano Blwyddyn 10-13: 1, Caryl Owen. **Unrhyw Offeryn dan 18:** 1, Dewi Griffiths; 2, Bethan Fôn Jones; 3, Meilyr Emrys a Bethan Williams. **Meimio i Record Gymraeg:** 1, Meilyr Emrys a Bethan Williams; 2, Criw Bryn Coch; 3, Criw 'Huw Jones' a Criw Elen Ffoulkes. **Tlws Cerdd am y perfformiad gorau dan 12 oed** a chwpan BOSS i'w dal am flwyddyn: Gwenno Thomas. **Tlws Cerdd am y perfformiad gorau dros 12 oed** a chwpan Mrs Joan Ffoulkes i'w dal am flwyddyn: Bethan Fôn Jones.

LLEFARU

Oed Meithrin: 1, Ceri; 2, Ela; 3, Marged. **Blwyddyn 0:** 1, Dewi ac Aled; **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Manon a Rhys; 2, Leah; 3, Nia Glyn. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Gwion; 2, Elen; 3, Ffion a Huw. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Ffion Owen; 2, Enlli Haf Huws; 3, Cefin Williams. **Parti Blwyddyn 1, 2 a 3:** 1, Parti Elen; 2, Parti Tomos. **Parti Blwyddyn 4, 5 a 6:** 1, Y Wariars a dwy o genod; 2, Parti Oliver a Hwyl a Sbri. **Blwyddyn 7-13:** 1, Caryl Owen; 2, Eleri Robinson. **Llefaru Digri:** 1, Bethan Williams; 2, Meilyr Emrys. **Sgets:** 1, Criw'r Pŵls; 2, Syrjyri'r Doctor; 3, Pobol y Cwm. **Siarad Cyhoeddus:** 1, Meilyr Emrys; 2, Bethan Williams. **Darn heb ei atalnodi:** 1, Caryol Owen; 2, Eleri Robinson; 3, Meilyr Emrys a Bethan Fôn. **Tlws Llefaru Ysgol Gynradd** a Chwpan Konica i'w dal am flwyddyn: Ffion Meleri Owen. **Tlws Llefaru Ysgol Uwchradd** a chwpan arian i'w dal am flwyddyn: Meilyr Emrys.

LLENYDDIAETH

Blwyddyn 1: 1, Bethan Griffith; 2, Heulwen Ostler; 3, Terl Bunton. **Blwyddyn 2:** 1, Sarah a Sion; 2, Hayley a Nia Glyn; 3, Llion. **Blwyddyn 3:** 1, Tomos a Rhian; 2, Paul a Huw; 3, Gethin. **Blwyddyn 4:** 1, Ffion Williams a Catrin Ostler; 2, Dylan Morgan; 3, Lois Hughes, Angharad Sturrock ac Emma V. Jones. **Blwyddyn 5:** 1, Ffion Meleri Owen; 2, Gethin Jones; 3, Manon Davies ac Arfon Salisbury. **Blwyddyn 6:** 1, Enlli Haf Huws; 2, Owain Sion Williams; 3, Gwenan Heledd Jones. **Tlws Llenor yr Ysgol Gynradd** (rhoddedig gan y Gymdeithas Lenyddol) a tharian fechan i'w chadw: Enlli Haf Huws. **Blwyddyn 7, 8 a 9:** 1, Bethan Mair Williams; 2, Meilyr Emrys; 3, Bethan Fôn ac Anest Williams. **Tlws Llenor yr Ysgol Uwchradd** (rhoddedig gan gangen Merched y Wawr Bethel, er cof am Miss Maggie Owen, a rharian fechan i'w chadw: Llinos Mair Williams.

ARLUNIO

Cylch Meithrin — Dosbarth 1: 1, Aled ac Ela; 2, Ffion, Angharad a Sion. **Dosbarth 2:** 1, Iona a Hannah; 2, Marged a Christy; 3, Elliw. **Blwyddyn 0:** 1, Richard Sturrock; 2, Osian Pritchard; 3, Dewi Alun Ffoulkes. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Alicia Looney; 2, Elan Rhys; 3, Timothy. **Blwyddyn 3 a 4:** Lois Hughes; 2, Angharad Sturrock; 3, Catrin Ostler. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Cefin Williams; 2, Iolo Ellis; 3, Jemma Whittaker. **Dan 15:** 1, Cheryl Morris; 2, Dafydd Emrys; 3, Dafydd Emrys.

COLLAGE

Blwyddyn 1 a 2: 1, Elan a Berwyn. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Huw Ffoulkes; **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Cameron, Ianto, Llinos; 2, Arwyn, Ian, Katie, Bethan; 3, Enlli, Nora, Gwenan. **Dan 15:** 1, Meleri Ellis.

TECSTILIAU

Dan 12: 1 a 2: Manon Davies.

FFOTOGRAFFIAETH

Blwyddyn 3 a 4: 1, Ffion Williams. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Ianto Fôn Jones. **Dan 15:** 1, Dewi Griffiths; 2, Bethan Fôn Jones. **Dan 18:** 1, Caryl Owen.

GWAU / GWNÏO

Dan 12: 1, Manon Davies

LOGO

1, Delyth Morris; 2, Delyth Morris; 3, Elan Rhys.

Tlws Celf: Berwyn Ifor Jones a Manon Davies.

Dawnswyr Gwerin — yn amlwg wedi mwynhau eu hunain.

Dawnswyr Disgo brwdfrydig . . . oedd yna un neu ddwy o'r genod yn y dawnsio Gwerin hefyd deudwch?

Mr Jenkin Morgan Griffith a'i 'staff' yn brysur ofalu am y gwobrau.

Rhagor o ddawnswyr Gwerin dawnus Bethel.

EISTEDDFOD LLANBERIS

Mewn cyfarfod o Bwyllgor Adran Bentref yr Urdd yn ddiweddar trafodwyd y gobaith o ail gychwyn yr Eisteddfod.

Yn dilyn hynny cynhaliwyd pwyllgor a phenderfynwyd cynnal Eisteddfod Bentref Llanberis, ddydd Sadwrn, 25 Chwefror 1995.

Mae hwn yn newydd da, a cheir rhagor o fanylion yn rhifyn nesaf o'r Eco, gobeithio.

EISTEDDFOD LLANRUG

Cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Llanrug, nos Wener, Hydref 14, yn Ysgol Uwchradd Brynrefail. Y Beirniaid oedd – Cerdd a Cherdd Dant: Mrs Deilwen Hughes; Adrodd: Mrs Madge Huws; Barddoniaeth a Rhyddiaith: Y Prifardd Ieuan Wyn; Dawns: Mrs Ann Roberts; Coginio, Gosod Blodau a Thecstiliau: Mrs Judith Harding; Arlunio a Thri-dimensiwn: Mr Dilwyn Jones; Ffotograffiaeth: Mr Bryn Jones. Y cyfeilydd oedd Mr Tim Ward.

STORI FUDDUGOL TLWS YR IFANC

gan CERI A. JONES

(Gofynnwyd am stori yn gorffen gyda'r geiriau '. . . a dyna'r tro olaf i Wali Tomos chwarae i Fryncoch United.')

Roedd hi'n ddydd Sadwrn a Bryncoch United yn chwarae'r Bont. Roedd Wali a Mr Picton ar y lein. Gwaeddodd Mr Picton i glust Wali — 'Come on George, ar ben dy hun, mewn i'r gôl hi.'

'O! Mr Picton!'

'Be sy Wali?'

'Gweiddi yn y nghlust i neutho chi.'

'Wel sy ddim isio i chdi roi dy glust mor agos at y nheg i nagoedd!' gwaeddodd Mr Picton eto.

Aeth y gêm yn ei blaen a'r Bont yn ennill dwy gôl i ddim.

'O! Tecwyn!'

'Tair gôl i ddim, Mr Picton. O'n i'n meddwl bo chi'n deud bod gynno ni siawns ennill yn y gêm yma,' meddai Wali yn feddylgar.

'Ia, mi rôn i yn meddwl y bysa ni,' meddai Mr Picton, 'Ond Tecs sy de. Dydi o ddim yn dal gols fel y bydda fo.'

'Doeddwn i ddim yn meddwl i fod o'n medru dal gôls erioed.'

'Doniol iawn, Wali, ond mi fysat ti'n synnu faint y bysa fo yn i ddal ers talwm. Mi fysa fo yn dal 4 neu 5 o gôls mewn un gêm.'

'Di o'm yn dal gymaint a hynna mewn mis 'wan, Mr Picton.'

'O! Tecwyn!'

'Pedair gôl i ddim 'wan, Mr Picton. O ni meddwl bod o'n dal gymaint a hyn ers talwm mae o di newid lot, do.'

Yn 'Y Bwl' nos Sadwrn:

'Peint ia, Sandra,' meddai George ar draws y bar.

'Iawn, George, be fydd i dad, hanner ia?' meddai Sandra.

'Na tyd a peint imi Sandra.'

'Ew, dad, dach chi'n teimlo yn iawn,' meddai Sandra yn bryderus.

'Nacdw, os di raid i chdi wbod.'

'Be sy matar ta?' gofynnodd Sandra.

'Wel rydan ni wedi colli pedair gêm ar ôl i gilydd 'wan, ac mae Tecwyn yn gadal mwy o gôls i mewn na ydan ni'n sgorio, a da ni newydd golli 5-0 i'r Bont heddiw. A'r hen Sid na yn gwenu arna i mor sarcastic. Dwi'n meddwl mod i'n haeddu peint hefo bob dim dwi di orfod roi i fyny hefo fo.'

'Wel dyna chi £1.50.'

'Be, ti'n mynd i jarjo dy dad, dy hen dad, sy di gneud bob dim ichdi wedi . . .'

'Yndw, dad, 'wan talwch, dach chi'n ddim gwahanol i neb arall.'

'Arffyr, ma'r hogia a fi di bod yn siarad, ma rhaid i chdi gal gwarad ar Tecs. Di o'n da i ddim byd mond i adal gôls i mewn.'

'Dwi'n gwbod. Mae be ti'n siarad yn iawn am *change*. Mae'n rhaid inni gal gwarad ohono fo.'

Cerddodd rhywun i mewn. Trodd pennau pawb i edrych at y drws fel tasa nhw mewn rhyw gyfarfod cyfrinachol. Cerddodd y dyn i mewn heb gymeryd dim sylw ohonyn nhw. Eisteddodd i law wrth fwrdd, tynnu papur newydd allan o'i boced, a dechrau darllen. Trodd pawb yn ôl at y bar a dechrau siarad eto, ni siaradodd neb am Tecs wedyn.

Roedd hi'n ddydd Sul. Roedd Tecs, Wali ac Arthur yn eistedd o gwmpas bwrdd yn yr ystafell 'Comiti'. Roeddynt i gyd yn ddistaw ac roedd hyn yn anarferol i'r 'comiti'. Torodd Tecs ar y distawrwydd drwy ofyn i Arthur os oedd o'n iawn. Ni atebodd Arthur.

Yna dywedodd Arthur, 'Tecwyn, fe ddaw na amser pan fydd rhaid i bob chwaraewr adael.'

'Be ti'n feddwl, Arthur?' gofynnodd Tecs yn syn.

'Wel, ma'r hogia a finna wedi bod yn siarad ac ma'n hen bryd i chdi adal y tîm. Ti di bod yn ffyddlon iawn i'r tîm am bymtheg mlynadd, ond da ni'n teimlo'n bod ni isio chwilio am rywyn gwahanol . . .' edrychai Arthur fel ei fod yn chwilio am fwy o eiriau ond yn methu a'u ffeindio.

'Felly, da chi isio cael gwarad ohona i?'

'Wel, oes, ti 'm yn meindio?'

'Nag ydw, wel, dyna be dwi isio'i ddeud wrtha chi ond ches i ddim y cyfle dydd Sadwrn.'

'O! diolch byth. Oddan ni'n meddwl y bysa ti'n upsetio.'

'Ga i ofyn pwy sy'n mynd i chwara yn lle Tecs rŵan?' gofynnodd Wali.

'Wel, pa safle oedd dy dad yn chwarae.'

'Yn gôl, pam?'

'Wel mae gen ti chwarae yn gôl yn dy waed felly, 'does!'

'Wel, oes, ond dim llawar.'

'Wel, 'na ni di setlo hynna. Chdi fydd yn chwara yn gôl, Wali.'

'Be, ond fedrai ddim . . .'

'Ond ti di deud dy hun fod gen ti o yn dy waed.'

'O! ol-reit ta, ond dim ond tan da chi di medru ffendio rhywun arall.'

Fe ddath dydd Sadwrn a'r gêm. Cododd Wali'n fuan, cael brecwast sydyn cyn i'w fam godi ac off a fo.

Dechreuodd y gêm . . . George yn cicio'r bêl at Hari . . . George yn rhedeg lawr y cae . . . Hari'n pasio'r bêl yn ôl at George . . . George yn cicio'r bêl, ac mae'n GÔÔÔÔL!!!.

. . . Mae'r bêl yn dod yn agosach ac yn agosach at Wali — mae Wali yn rhoi ei ddwylo o'i flaen . . . cau ei lygaid . . . gorwedd i lawr. Yna yn sydyn mae'n teimlo'r bêl ar ei ddwylo, mae'n rhoi ochenaid o ryddhad. Cododd i fyny gan godi'r bêl trodd a chicio'r bel . . . O rywle mae rhywun yn gweiddi 'GÔL!!' ac mae Wali yn agor ei lygaid i weld rhwyd a gôl o'i flaen a'r bêl ar lawr yng nghefn y rhwyd.

Trodd a gweld Mr Picton yn codi ei ddyrnau arno.

Collodd Bryncoch o 4 gôl i 1 . . . *a dyna'r tro olaf i Wali Tomos chwarae i Bryncoch United.*

EISTEDDFOD WAUNFAWR

Cynhaliwyd Eisteddfod Ardal Waunfawr bnawn a nos Sadwrn, 19 Tachwed a'r Beirniaid oedd – Cerdd: Alan Roberts, Morfa Nefyn; Adrodd: Ifor ap Glyn, Caernarfon.

Enillwyr cyfarfod y pnawn oedd – CANU Hafod: 1, Mererid; 2, Hefin; 3, Sion. **Meithrin:** 1, Elidir; 2, Amy a Rhydian. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Nia; 2, Wenna; 3, Beth ac Arawn. **Safon 1 a 2:** 1, Anna Glyn; 2, Catherine Evans. **Safon 3 a 4:** 1, Ifan Glyn. **Cân Actol Ysgol Feithrin** yn ennill y wobr gyntaf. **Cân Actol Safon 1-4:** 1, Sgets; 2, Sali Mali. **Unawd Cân Werin:** 1, Anna Glyn ac Ifan Glyn. **Parti Dawnsio Disgo:** 1, Anna a Sara. **Unawd Recorder Safon 1-2:** 1, Ieuan. **Unawd Piano hyd at Safon 2:** 1, Anna; 2, Ieuan. **Unawd Piano Safon 3 a 4:** 1, Ifan Glyn. **Unawd Offeryn Chwyth:** 1, Ifan Glyn. **ADRODD Hafod:** 1, Owain; 2, Hefin; 3, Sion a Mererid. **Meithrin:** 1, Rhydian; 2, Elidir a Sara. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Beth; 2, Arawn; 3, Iwan. **Safon 1 a 2:** 1, Anna a Pryderi; 2, Elin; 3, Rhion a Catherine. **Safon 3 a 4:** 1, Ifan Morgan; 2, Ifan Glyn. **Parti Adrodd dan 12:** Parti Joy.

Gwyneth Ellis oedd Llywydd cyfarfod y pnawn a chafwyd araith fer a phwrpasol ganddi, ynghyd â rhodd anrhydeddus. Diolch yn fawr iddi.

Enillwyr cyfarfod yr hwyr oedd — **Unawd Blwyddyn 1, 2 a 3:** 1, Sioned. **Unawd Blwyddyn 4 a 5:** 1, Catrin. **Cân Werin dan 19:** 1, Catrin. **Unawd Cerdd Dant dan 19:** 1, Catrin. **Emyn Dôn dros 40:** 1, Alun; 2, Humphrey. **Cân Werin dros 19:** 1, Gina; 2, Humphrey; 3, Alun. **Deuawd dros 19:** 1, Humphrey ac Alun; 2, Gwenda ac Eurwyn; Gina a Catrin. **Unawd Gymraeg:** 1, Alun; 2, Humphrey; 3, Manon Jones. **Grŵp Pop Agored:** Hen ac Ieuanc (ardderchog). **Côr:** 1, Catrin; 2, Gwenda. **Parti Dawnsio Gwerin:** 1, Parti Rygbi Waunfawr. **Dawnsio Gwerin dan 19:** 1, Grŵp Pyjamas. **Unawd Offeryn Chwyth Blwyddyn 1, 2 a 3:** 1, Heledd; 2, Aled; 3, Osian ac Elin. **Grŵp Pop dan 19:** 1, Genod Waunfawr. **Unawd Piano Blwyddyn 1, 2 a 3:** 1, Steffan; 2, Lowri Glyn. **Unawd Offeryn Llinynnol dan 19:** 1, Catrin. **Grŵp Offerynnol dan 19:** 1, Heddus a Llio. **Unawd Offeryn Chwyth dan 19:** 1, Heddus. **Sgets dan 19:** 1, Anderock. **Unawd Piano dan 19:** 1, Llio Mair; 2, Catrin; 3, Manon Evans.

LLÊN Ysgol Gynradd, Safon 1: 1, Yasmin Allen; 2, Jason Gresham ac Eifion Patchet; 3, Esyllt Dafydd. **Safon 2:** 1, Sara Roberts; 2, Ioan Glyn; 3, Anna Glyn ac Iwan Parry. **Safon 3:** 1, Gareth Patchet; 2, Sara Owen; 3, Simon Roberts. **Safon 4:** 1, Ifan Morgan; 2, Ifan Glyn; 3, Kristian Burton.

Portread Blwyddyn 6: 1, Heddus Gwynedd. **Brawddeg:** 1, Robert Williams; 2, Glenys Williams. **Llythyr:** 1, Joy Glyn; 2, Gina Gwyrfai. **Stori:** 1, Gina. **Parodi:** 2, Gina.

GWAITH LLAW (Beirniad: Islwyn Jones, Llanrug) — Hafod: 1, Marie; 2, Michele; 3, Liam ac Arwel. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Arawn Glyn; 2, Dafydd a Kimberley; 3, Beth a Nia Elin. **Safon 1:** 1, Lowri Hughes; 2, Louise Prichard a Christopher Roberts; 3, Emma Simpson. **Safon 2:** 1, Julie Roberts; 2, Adam Griffith; 3, Sara Roberts. **Safon 3:** 1, Tomos Huws; 2, Sion Griffiths; 3, Fiona Sanderson a Ben Philips. **Safon 4:** 1, Ifan Morgan; 2, Alistair; 3, Laura ac Emma. **Model o Wastraff:** 1, Lowri Glyn; 2, Elin Evans; 3, Emma Owen. **ARLUNIO — Meithrin:** 1, Ffion; 2, Tamsin; 3, Sara. **Hafod:** 1, Cara; 2, Rebecca a Jacob; 3, Marie a Julie. **Dosbarth Mrs Ellis,** 1, Carla Esposita; 2, Nia Elin a Deion; 3, Arawn a Lesley. **Safon 1:** 1, Cathryn Evans 2, Iwan Jones; 3, Yasmin Allen a Ceridwen Vallecardi. **Safon 2:** 1, Iwan Parry; 2, Ieuan Parry; 3, Max Childs. **Safon 3:** 1, Fiona Sanderson; 2, Sion Griffiths; 3, Gareth Patchet. **Safon 4:** 1, Laura; 2, Daniel; 3, Ifan Morgan. **Blwyddyn 1, 2 a 3:** 1, Lowri Glyn; 2, Derfel Parri. **Blwyddyn 4, 5 a dan 19:** 1, Llion Mair. **FFOTOGRAFFIAETH** — 1, John Roberts; 2, Llio Mair. **Sleid:** 1, John Roberts. **CALIGRAFFI:** 12, Gina. **GWAITH COED:** 1, Derfel Parri; 2, Lowri Glyn.

COGINIO (Beirniad — Mrs Pat Jones, Brynrefail). Coginio Ysgol Gynradd (jam tarts): 1, Elin Huws; 2, Anna Glyn; 3, Joan Gwynedd. **Blwyddyn 1, 2 a 3:** 1, Lowri Glyn. **Agored — marmalade:** 1, Glenys Williams; 2, Beryl Jones; 3, Jill Brown. **Cacen gaws:** 1, Glenys Williams; 2, Irene Roberts; 3, Joy Glyn. **Pedair cacen fach:** 1, Glenys Williams. **Quiche:** 1, Irene Roberts a Heulwen Huws; 2, Glenys Williams. **Cacen foron:** 1, Glenys Williams; 2, Heulwen Huws; 3, Rhian Evans a Beryl Jones.

GWAU — 1, Delyth Jones; 2, Marian Wyn Jones; 3, Delyth Jones. **Sampler:** 1, Llio Mair; 2, Glenys Williams.

Oherwydd amgylchiadau teuluol methodd Llywydd cyfarfod yr hwyr — Mrs Eurgain Evans — a bod yn bresennol. Anfonodd lythyr caredig yn dymuno'n dda i'r Eisteddfod ynghyd â rhodd anrhydeddus. Diolchodd yr arweinydd iddi gan anfon cydymdeimlad pwyllgor y pwyllgor iddi.

Diolch i bawb a fu yn gymorth i mi am y ddwy flynedd ddiwethaf; i Jean, Llwyn Onn am ei gwaith; i Peter a Janet am eu parodrwydd diflino; i deulu Bryn Gwylan am eu cymorth yn y gorffennol; i Mrs Thomas a staff Ysgol Waunfawr am eu cydweithrediad; i Mr a Mrs Addison, Siop Tŷ Newydd am werthu'r Testunau a'r Rhaglenni; ac i Irene am fod yn Gadeirydd am bedair blynedd.

Dymunaf hwyl fawr i Gwenda fel Ysgrifennydd; Delyth y Trysorydd, fydd yn olynu Bethan; ac i Sioned Glyn fydd yn cadw trefn arnom am y ddwy flynedd nesaf.

Eco? Ac a oes unrhyw un yn medru enwi rhai o'r plant a'r athrawon?

* * * *

NUNLLE

Glywsoch chi am 'nunlle'? Clywais amdano am y tro cyntaf yn ddiweddar, a hoffwn wybod os oes unrhyw un arall o'r darllenwyr wedi clywed yr enw ac yn gwybod ble'n hollol mae 'nunlle'. Na, nid cwestiwn cracyr Nadolig ydi o chwaith! Yn ôl traddodiad, flynyddoedd lawer yn ôl, roedd terfynau plwyfi Betws Garmon, Llanberis a Llanrug yn cyfarfod ar yr ucheldir rhwng Moel Eilio a Chefn Du. Ond gan nad oedd neb yn siŵr iawn o union leoliad y terfynau, gadawyd un llain fechan o dir nad oedd yn perthyn i unrhyw un o'r tri phlwyf. Ac felly, doedd o'n perthy i neb: dyma 'nunlle'. Faint o wir tybed sydd i'r traddodiad?

Anfonwch eich atebion neu eich sylwadau ar unrhyw destun o hanes lleol i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (0286) 673515.

Dosbarthiadau Hynaf Ysgol Dinorwig 1924/25

Mae nifer o'r plant yn ymdangos yn y llun o ddosbarth yr 'infants' felly gadawyd allan enwau eu cartrefi y tro hwn.

Rhes gefn y bechgyn (chwith i'r dde): Hugh Thomas, Richie Davies, Bryn Felin, Allt-ddu; Wil Morris, Pant Sardis; Mathew Jones, Ty'n Fawnog; Griffith Jones, Gwaredog; Moses Williams, Fach-wen; Richie Roberts, Felin, Allt-ddu; Robin Jones, Parc; Owie Jones.

Rhes gefn y genethod (chwith i'r dde): Mair Owen, Felin Fawr, Bedwargoed; Annie Evans, Bron Graig; Lizzie Thomas, Siop Chwarel; Jennie Thomas, Siop Chwarel; Annie Mary Williams, Siop Chwarel; Katie Morris, Caer Foel; Jennie Lewis, Garreg Lydan; Nell Williams, Chwarel Goch; Kate Pritchard, Ty'n Bont; Sarah Olwen Thomas, Nellie Valmai Jones.

Rhes flaen y genethod (chwith i'r dde): Lizzie Morris, Pant Sardis; Nancy Pritchard, Ty'n Bont; Gwenllian Jones, Tŷ'r Ysgol; Nell Jones, Bryn Llys; Jennie Jones; Ceridwen Parry, Ty'n Pwll, Fach-wen; Florence Davies; Megan Lloyd Williams, Siop Chwarel; geneth o Fôn a fu'n aros ym Mhant Sardis; Beti Evans, Groeslon Uchaf; Gwladys Evans; Hannah Louvaine Thomas; Mewgan Price Morris; Beti Owen, Bigil.

Rhes flaen y bechgyn (chwith i'r dde): Owen Evans, Groeslon Uchaf; Hugh Parry; Willie Alun Williams; Owen Thomas; Alun John Owen; Gwynfa Jones, Gwaredog; Morris Perkins, Pen-rhiw; Alun Roberts; Jackie Owen; Ted Jones; Thomas Elwyn Jones-Parry.

CHWITH

Ysgol Llanddeiniolen yn 1900.

Jane Davies, a ymfudodd i'r America, yw'r bumed ferch o'r dde yn yr ail res o'r top.

UCHOD CHWITH

Ysgol Ganol Llanrug — 1936

Rhes ôl (chwith i'r dde): William John Hughes, Tom Alun Jones, Gwyn Jones, Tom Griffith, Alf Parry, John Michael Jones.

Rhes ganol (chwith i'r dde): Malltwen Humphreys, Nellie Owen, Mair Hughes, Betty Pritchard, Muriel Roberts, Violet Roberts, Morfudd Roberts.

Rhes flaen (chwith i'r dde): Nowie Lewis, Tom Ellis, Meuryn Huws Roberts.

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259



Euros Williams, chwaraewr Cornet gorau yn Adran 3 o bencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru.

Enillwyr Clwb Cant Plaid Cymru am fis Rhagfyr — £10: Mr Meirion Williams, 3 Pentre Helen; £5: Miss M. R. Jones, Tan y Caerau.

Clwb Elidir: Cafwyd cyfarfod ar 22 Tachwedd o dan lywyddiaeth Mrs Jane Jones. Cydymdeimlwyd â Mrs Megan P. Morris a Mrs Alice Griffith yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Mrs Gwladys Evans, a fu ynaelod ffyddlon a gweithgar o'r Clwb. Llongyfarchwyd Mrs J. Eirlys Williams ar gael ei hethol yn ddiacon yn Eglwys Ebeneser. Rhoddwyd y te gan Mrs Mair Owen, Mrs Betty W. Davies a Mrs Alwen Jones. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Beti W. Davies, gan Mrs Janet Bingham.

Fe fu'r Clwb yn mwynhau eu cinio Nadolig yng Ngwesty'r Sandringham, Llandudno, a diolchir i Mrs J. Eirlys Williams am wneud y trefniadau. Cafwyd rhoddion gan Mrs Susan Parry, Mrs Jane Jones a Mrs Valmai Williams tuag at y trip a diolchwn yn fawr i'r dair ohonynt.

Llongyfarchiadau i Jennie Lyn a Trystan, Cartref, Rhes Cynfi, ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Mae Jennie hefyd wedi llwyddo, gyda anrhydedd, yn ei arholiad theori o dan gyfarwyddyd Tim Ward, Llanberis. Bydd Jennie yn teithio i Gaerdydd ym mis Ionawr i recordio rhaglen deledu newydd, sef 'Tip-Top' — bydd Jennie yn canu a chwarae'r corn ar y rhaglen. Felly, cofiwch wylio'r rhaglen a fydd ar eich sgrîn yn nechrau'r flwyddyn newydd. Dymunwn pob lwc iddi.

Dyweddïo: Llongyfarchiadau i Tegid, Crud yr Awel, Porth y Gogledd, a Karen, Llanilar, Aberystwyth, ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

Y Seindorf: Cafodd y Seindorf lwyddiant eithriadol ym mhencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru yn Llandudno ddiwedd mis Tachwedd.

Cipiwyd y wobr gyntaf yn Adran 3 ynghyd â'r cyflwyniad gorau o Emyn Dôn yn yr un adran. Enillwyd hefyd y drydedd wobr yn Adran 2.

I ychwanegu at y dathlu dyfarnwyd Euros Williams yn chwaraewr cornet gorau yn Adran 3; a Barry Price yn trombonydd gorau yn yr un Adran.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd ac i'r arweinydd, Mr Cynan Jones.

Dyweddïo: Llongyfarchiadau i Ellen Wyn, merch Dilys a Neville Williams, 3 Rhes Victoria, Deiniolen, a Tecwyn Ellis, mab Hefina a Dick Jones, 8 Rhosrug, Llanrug ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Pob lwc oddi wrth y ddau deulu.

Y Ganolfan: Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol y Ganolfan ar nos Wener, 9 Rhagfyr, ond siomedig a dweud y lleiaf oedd ymateb yr ardalwyr a'r cynrychiolwyr a enwebwyd gan y mudiadau sy'n defnyddio'r Ganolfan.

Defnyddiwyd y Ganolfan 408 o weithiau yn ystod y flwyddyn ac roedd 291 o'r rhian yn rhad ac am ddim, oherwydd mai plant neu bobl ifainc oedd y defnyddwyr.

Fe welir yn amlwg felly bwysigrwydd y Ganolfan a'i bod yn allweddol i weithgareddau y pentref, ond yn anffodus nid oedd digon yn bresennol yn y cyfarfod i ddewis pwyllgor rheoli am y flwyddyn nesaf.

Bwriedir ail-gynnal y Cyfarfod Cyffredinol ar **nos Fercher, 18 Ionawr 1995, am 7 o'r gloch,** gan obeithio'n fawr y bydd llawer mwy yn dangos diddordeb.

Dymuna Siân ac Eilir Jones, 2 Tai Gwyrfai, Clwt-y-bont, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch Lois Mared, chwaer fach i Gethin Wyn.

Barry Price, chwaraewr Trombone gorau Adran 3 o bencampwriaethau Bandiau Pres Gogledd Cymru.

ANTUR PADARN

Trafodaeth ar Gynllun Leader 2 aeth a bryd aelodau Antur Padarn yn eu cyfarfod ar nos Fawrth, 6 Rhagfyr, yn Ysgol Gymuned Penisarwaun. Adroddwyd bod y Cadeirydd a'r Isgadeirydd wedi mynychu cyfarfod yn Ystafell y Cyngor, Cyngor Bwrdeistref Arfon ar y nos Lun flaenorol, pryd y cafwyd cyflwyniad ar gefndir y cynllun Ewropeaidd hwn. Adroddwyd mai prif bwrpas y cynllun yw cynorthwyo cymunedau gwledig i arbrofi gyda dulliau newydd o ddatrys problemau lleol. Bwriedir mynd ati i sefydlu pwyllgor llywio i'r cynllun a phan drafodwyd hyn yn y cyfarfod pwysleisiodd cynrychiolwyr yr Antur pa mor bwysig oedd sicrhau cynrychiolaeth lleol llawn a chanolog yn y gwaith o lywio'r cynllun. Cafwyd addewid gan swyddog y Cyngor y byddai hynny yn digwydd.

Ar ddiwedd blwyddyn arall manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r aelodau am eu cefnogaeth i waith yr Antur. Er cymaint yw effaith y dirwasgiad economaidd ar y fro mae'r cyfnod presennol yn cynnig cryn sialens ac o'i weithredu yn iawn dylai Cynllun Leader 2 fod yn gaffaeliad mawr i Ddyffryn Peris ac i sawl dyffryn arall yn Arfon. Pwysleisiodd pa mor bwysig yw cefnogi ac ariannu cynlluniau sydd yn mynd i gynnig yr atebion tymor hir a llesol i'r fro hon dros y pum mlynedd nesaf ac i fyny i'r flwyddyn 2000. Mae'r cyfrifoldeb yn fawr ac mae'n bwysig bod pawb yn cydweithio yn llawn i sicrhau bod buddiannau y dyffryn cyfan yn cael blaenoriaeth.

Clir yw'r lleisiau

Clir yw'r lleisiau ar yr awel,
Gwyn yw'r eira ar y rhos,
Ac uwch Bethlehem yn aros
Wele heno seren dlos.

Cân angylion sydd yn atsain
Heno'n gorws dros y bryn,
A'r bugeiliaid sy'n gofalu
Am eu praidd dan eira gwyn.

Glywi di y gân o Fethl'em
'Leni eto 'Nghymru wen,
Weli di y seren ddisglair
Yn yr awyr uwch dy ben?

Wele'r goeden hardd yn plygu
O dan bwysau'r perlau drud,
Ai difater ydym ninnau
I blygu ennyd wrth ei grud?

Dan ein trimins mynnwn gofio
Am y crwt mewn gwely gwair;
Diolchwn iddo, ein Gwaredwr,
Brenin Byd a Baban Mair.

Selwyn Griffith
(Allan o C'nafron a Cherddi Eraill)

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Antur ar nos Fawr, 7 Chwefror, am 7 o'r gloch yn Ysgol Gymuned Penisarwaun. Beth am wneud adduned blwyddyn newydd i ymuno yng ngwaith yr Antur. Bydd pob croeso i chwi.

Peth o'r prynu a'r gwerthu yn Ffair Gaeaf Plaid Cymru.

Dymuna teulu y ddiweddar Gwladys Evans, 30 Rhydfadog, Deiniolen, ddiolch i bobl yr ardal am eu cydymdeimlad a'u rhoddion yn ystod eu profedigaeth.

Un o blant y pentref yn mwynhau ymweliad buan gan Siôn Corn.

Siop Trin Gwallt
SANDRA
Stryd Fawr, DEINIOLEN
Ffôn: 872565

YN AGOR YM MIS IONAWR

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Cynigion agor arbennig
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

'Un funud fach . . .'
HEB FFILM

Rwyf am achub y blaen ar y DRAENOG y mis hwn. Waeth i mi ddweud y stori wrthych fy hunan ddim. Roeddwn wedi mynd i Wrecsam efo llond car o nwyddau ar gyfer Ymgyrch Plentyn y Nadolig, ac wedi addo tynnu lluniau o storfa fawr yr elusen yno i'w dangos wedi dod adref. Bûm wrthi'n ddiwyd yn gwneud hynny, gan dynnu llun popeth diddorol y gallwn ei weld. Roeddwn wedi bod wrthi am sbel cyn sylweddoli nad oeddwn wedi rhoi ffilm yn y camera o gwbl. Sôn am deimlo'n ffŵl! Camera heb ffilm!

Os nad yw dathliadau'r Nadolig wedi hen fynd heibio erbyn i chi ddarllen y golofn hon, carwn ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd ddedwydd iawn i chi.

Sut Nadolig fydd hi (neu oedd hi) arnom eleni? Rwy'n edrych ymlaen at holl hwyl a mwynhad y diwrnod mawr erbyn hyn. Mae'r goeden yn ei lle ers neithiwr, mae'r ysgol yn torri heddiw, a does ond pum diwrnod tan y diwrnod mawr. Ydach chi wedi gorffen eich paratoadau? Ydi'r holl siopa wedi ei wneud? Oes yna ffrindiau neu deulu yn dod atoch dros yr Ŵyl, neu gawsoch chi wahoddiad i dreulio'r Nadolig efo nhw? Gobeithio cewch chi Nadolig wrth eich bodd, ac y cewch chi a minnau, yng nghanol y dathlu, olwg eto ar ryfeddod Duw atom yn Iesu Grist. Byddai Nadolig hebddo Ef mor wirion â chamera heb ffilm . . .

A beth am y flwyddyn newydd? Does wybod beth fydd ganddi ar ein cyfer. Duw yn unig a wyr pa droeon fydd i'r yrfa yn ein hanes dros y misoedd nesaf. Ond mae gennym ein gobeithion a'n bwriadau. Mae blwyddyn newydd yn dod â'i gyffro ei huna, a gobaith am amser da neu well i ddod. Fel pob blwyddyn arall dath 1994 â'i chymysgedd o lawenydd a threialon i ni. Buom yn chwerthin ac yn wylo, buom yn llawen ac yn drist. Beth bynnag ddaw yn 1995, gobeithio gallwn bwyso ar nerth y Duw Mawr sydd wrth law o hyd i'n cynorthwyo. Mae ceisio byw hebddo Ef . . . mor wirion â cheisio tynnu llun heb ffilm yn y camera. Peidiwn â gadael y peth pwysicaf ar ôl.

JOHN PRITCHARD

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Rhagfyr — £35: Mrs D. Owen, Moelwyn (52); £25: Mr B. Williams, Ysgol Dolbadarn (117); £15: Mrs J. Tomos, Ty'n Twll (198); £10: Mrs J. Jones, Peris View (155); £5: Mrs B. Roberts, Stryd Goodman (84). Pelen Eira £50: Mrs C. Roberts, 12 Llainwen Isaf (18); Mr S. Allsup, 15 Stryd Ceunant (184).

Cynhaliodd Ffrindiau'r Ysgol Fore Coffi yn y Bistro, ddydd Gwener, 25 Tachwedd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth, ac i Nerys a Danny am eu croeso arferol.

Cymdeithas Eglwysi St Peris a St Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn yr Eglwys nos Iau, 1 Rhagfyr, dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Cymerwyd y rhan ddefosiynol gan Mrs Nancy Jones, Stryd Newton.

Mr Rol Williams, Waunfawr, oedd y siaradwr gwadd y mis yma a'i destun oedd 'Cymdogaeth Cwm Brwynog' — ardal adnabyddus iawn i'r rhan fwyaf o'r aelodau, a chysylltiadau clòs gan eraill.

Dymunwyd gwellhad buan i Miss Bessie Roberts, aelod hynaf y Gymdeithas, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty. Llongyfarchwyd Mrs Nellie Morris am ddod yn Nain unwaith eto.

Mrs Nancy Jones, Taliesin, a Mrs Olwena Morris oedd yn gyfrifol am y baned a'r raffl gyda Mrs Nancy Jones, Stryd Newton yn ennill y raffl. Diolchwyd iddynt i gyd gan mrs Beryl Owen.

Undeb y Mamau: Y Deon Gwlad, y Parchg Idris Thomas, wasanaethodd yn Eglwys St. Padarn bnawn dydd Mawrth, 6 Rhagfyr, pan gymerodd aelodau y gangen ran mewn gwasanaeth o Naw Llith a Charol.

Roedd te arbennig wedi ei drefnu yn y festri ac yr oedd au wedi eu gwahodd i ymuno â ni, sef Mr a Mrs Dennesse Hughes, Hafod Wen, oedd yn dathlu eu Priodas Aur. Bu Mrs Hughes yn swyddog Undeb y Mamau am flynyddoedd. Gareth Jones oedd yr organydd a threfnwyd y gwasanaeth gan Mrs Dilys Phillips.

Capel Coch: Cynhaliwyd parti Nadolig y Cyfarfod Plant ddydd Mawrth, 13 Rhagfyr. Bydd y Cyfarfod Plant yn ailddechrau ar ôl yr Ysgol ddydd Mawrth, 10 Ionawr 1995.

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul brynhawn Sul, 18 Rhagfyr. Roedd y gwasanaeth wedi ei drefnu gan Mrs Falmai Pritchard. Y diwrnod canlynol cafodd plant yr Ysgol Sul eu parti Nadolig yn y festri. Ceir rhagor o fanylion am y digwyddiadau hyn yn y rhifyn nesaf.

Bore'r Nadolig: Cofiwch am yr Oedfa Gymundeb a gynhelir yng Nghapel Coch am 10 o'r gloch ar fore'r Nadolig. Mae croeso cynnes i aelodau capeli eraill y pentref i ymuno â ni yn y gwasanaeth hwn. Dowch i ddathlu'r Ŵyl ar y dydd Sul arbennig yma.

Clwb yr Henoed: Brynhawn dydd Gwener, 25 Tachwedd, cynhaliwyd Ffair Nadolig Clwb yr Henoed yn y Ganolfan. Er ei bod yn bnawn oer a gwlyb cafwyd cefnogaeth dda i'r Ffair eleni eto. Agorwyd y Ffair gan Dr Gwyn Williams, a gwerthfawrogwyd ei anerchiad ffraeth a chryno. Diolch i bawb am eu cefnogaeth, ac yn arbennig i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith caled yn paratoi ar gyfer y Ffair. Diolch i Lis Griffith a Carol Sage, yr ysgrifenyddion, am eu trefniadau trylwyr hwy.

Cyfarchion yr Ŵyl: Mae aelodau Parti Lliwedd yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb, ac yn diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Yr Urdd: Ddydd Mercher, 30 Tachwedd, bu Mr Rhys ap Elwyn yn arwain cyfarfod y plant hŷn. Mwynhawyd sesiwm gêmau yn ei gwmni.

Yr wythnos ganlynol bu'r plant iau yn gwneud addurniadau a chardiau Nadolig yn eu cyfarfod hwy.

Nos Fercher, 14 Rhagfyr, daeth holl blant yr Adran at ei gilydd i'r Disgo Nadolig a gynhaliwyd yn Neuadd yr Ysgol. Rhoddwyd anrheg i bob plentyn ar ddiwedd y Disgo, a gobeithiwn na fydd yr holl siocled yn ormod o boen i chi, blant! Edrychwn ymlaen at dymor llwyddiannus arall yn y flwyddyn newydd.

Pêl-droed: Mae'r tîm dan 11 oed wedi bod yn brysur yn ddiweddar. Cafwyd gêm gyfartal ym Methel a chollwyd yng Nghaernarfon yn erbyn Cae Gwyn. Gohiriwyd sawl gêm oherwydd tywydd drwg ambell i fore Sadwrn. Trefnwyd gêmau i'r plant dan 9 oed hefyd. Llwyddwyd i ennill y gêm gyntaf yn erbyn Bontnewydd, ac y mae'r ail gêm i'w chynnal y diwrnod ar ôl ysgrifennu'r geiriau yma.

Mae'r plant wedi bod yn ymarfer yn gyson ar nos Iau yn y Ganolfan. Gwilym Evans, Tŷ Crwn, sy'n hyfforddi'r plant, a diolchwn iddo am ei ymroddiad. Cyflwynodd y plant anrheg Nadolig iddo yn ystod y sesiwn ymarfer olaf cyn y Nadolig ar 15 Rhagfyr.

Ysgol Dolbadarn: Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i rieni a chyfeillion yr ysgol oddi wrth y plant a'r staff. Bu'n gyfnod prysur cyn diwedd y tymor. Cynhaliwyd Ffair Lyfrau Iwyddiannus iawn a 1 Rhagfyr. Roedd mwy nag arfer o ddewis o lyfrau, a phawb wrth eu bodd yn edrych a phrynu. Bu'r holl blant yn Theatr Seilo, Caernarfon, ddydd Iau, 8 Rhagfyr, yn gweld y pantomeim 'Rasus Cymylau' gan fyfyrwyr Coleg Menai. Dydd Iau, 15 Rhagfyr, cafwyd cinio Nadolig yn yr ysgol a diolchwn i staff y gegin am eu paratoadau ar ein cyfer.

Buom yn canu carolau yn y pentref nos Fawrth, 13 Rhagfyr. Cychwynnwyd wrth Plas Pengwaith ac yna aethpwyd at Siop Goed, ac yna i gae chwarae'r 'Nwy'. Daeth nifer dda o'r plant a'r rhieni gyda'r athrawon. Diolchwn am bob rhodd a roddwyd yn y 'bwced gasglu'.

Llongyfarchiadau i'r plant a dderbyniodd dystysgrifau nofio ar ddiwedd y tymor o ddosbarthiadau yn y pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden Arfon.

Cafwyd ymweliadau addysgol â'r Chwarel ac â Chastell Caernarfon i rai o'r plant. Bu plant dosbarth Mr ap Elwyn yn gweld sioe gan fyfyrwyr y Coleg Normal yng Nghastell Caernarfon ddydd Mercher, 14 Rhagfyr.

Diolch: Dymuna Rheon, 22 Stryd Goodman, ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion, arian a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra bu'n wael yn ddiweddar. Dymuna Ann, Alun a Nia ddiolch o galon am y cymorth a gawsant gan lawer o bobl Llanberis a'r cylch. Diolch hefyd i staff wardiau Cybi a Tryfan yn Ysbyty Gwynedd ac i feddygon a staff Meddygfa Llanberis am eu gofal.

Cyfarchion yr Ŵyl: Dymuna Elisabeth Roberts, 10 Stryd Turner, Llanberis, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion (gan na fydd yn anfon cardiau eleni).

Bu rhai o blant Ysgol Dolbadarn yn brysur yn gwneud model o'r Chwarel, dan gyfarwyddyd Dylan Owen. Defnyddiwyd copïau o luniau yr hen chwarelwyr i wneud y 'chwarel', ac yn y llun gwelir Sera a Mari yn helpu Dylan i baentio'r gwaith.

Cafodd plant yr Ysgol Feithrin eu parti Nadolig yng Ngwesty'r Fictoria eleni. Cawsant hwyl fawr yng nghwmni clown ddaeth yno i'w diddori. Yn y llun mae rhai o'r plant yn cael hwyl wrth godi twr blociau.

NEWID

gan JOHN H. HUGHES, Llanberis

Mae'n debyg fy mod i yn greadur ceidwadol iawn, na, nid felly yn wleidyddol ond yn hytrach o ran natur, gan nad wyf yn hoffi yr holl newid sy'n mynd ymlaen o'm cwmpas. Mae'n debyg fod yr agwedd yma at newid yn codi o fy mhlentyndod, pan y byddai'n rhaid imi newid o'm dillad Dydd Sul rhwng y moddion, ac hefyd newid o'r dillad ysgol bob nos cyn swper chwarel. Oedd, yr oedd fy mam yn dra deddfol parthed y newidiadau beunyddiol hyn.

Mae'n rhaid cydnabod fod newidiadau dyrys yn cymryd lle yn feunyddiol o'n cwmpas, rhai i bwrpas ac eraill i ddim ond er mwyn lluchio cyfalaf ac er mwyn newid.

Beth amser yn ôl euthum am dro, mae Dr Parry wedi fy argymell i gerdded yn gyson er budd i'm hiechyd. Wel, euthum ar daith dra hir y diwrnod hwnnw, sef un o fy 'marathons'.

Cychwynnais ar hyd Lôn Lâs Peris, lle gynt y gorweddai'r rheilffordd a redai o Lanberis i Gaernarfon. Mae hon yn lôn ddelfrydol i gerdded yn hamddenol arni, a hynny mewn heddwch a diogelwch. Mae'n wastad, yn llawn o gyfrin ddigwyddiadau natur, ac yn brydferth.

Ar ôl chwarter awr o gerdded eithaf sionc daeth y twnel i'r golwg ac yn barod i'm llyncu. Ond yn lle mentro trwyddo euthum i fyny i'r ffordd fawr a thros y gamfa i droedio ar ysgerbwd creithiol yr hen ffordd. Yma, ceir ambell i linell wen o hyd i'n hatgoffa o dras y dyddiau gynt, ac yn lle llygaid cathod cawn chwyn yn llenwi'n bowld y tyllau duon a fu gynt mor ddisglair.

Dyna ddod at Graig yr Undeb gyda bwlch bler yn y clawdd fel mynedfa at y dabled. Dadorchuddiwyd y dabled hon ym 1974 i ddathlu canmlwyddiant Undeb y Chwarelwyr, sef y cyfansoddiad a sefydlwyd i arbed cam arwyr glew y creigiau ysgythrog. Edrychais i gyfeiriad Bwlch Llanberis a gwelwn weddillion difywyd y chwarel yn gorwedd yn llipa ar ochr y mynydd,

Y cun a'r morthwyl sydd tan glo —
Chwarelwyr aethant o'r hen fro.

Dyna newid, diflannodd y diwydiant a goleuni llachar diwylliant y chwarelwyr ac fe gawn ysgerbwd digon hagr. Ond yn ei berfedd ceir goleuni arall, diolch amdano.

Ymlaen â mi ar fy nhaith nes dod i'r bont ym Mhen-llyn. Gwag yw'r bont gefn dydd golau erbyn hyn, ond mae'n siŵr fod y tylluanod yn dal i hwtian gefn drymedd y nos o Lwyncoed Cwm-y-glo.

Dringais yn araf y neid o ffordd o Ben-llyn i'r Fach-wen. Llechai'r bythynnod bychain yng nghesail y creigiau ac yr oedd eu henwau yn fy swyno — Tan yr Allt, Pen y Graig, Bryn Pella, enwau yn cyfleu tirwedd yr amgylchedd o'u gwmpas. Daeth gwraig ganol oed allan o un o'r bythynnod. *'Good morning,'* meddai'n ddigon siriol, a chredaf mai tai haf yw'r rhan helaethaf o'r cartrefi bychain erbyn hyn. Dyna newid.

Yn fuan deuthum at y capel a chofiais am drafferthion yr addolwyr gynt. Ymwthiai goleuni drwy gasgliad o flodau o froydd y cyhydedd a lenwai ei ffenestri hirion. Pwy oedd y gynulleidfa tybed? I ba le yr aeth yr Amen?

Dyna gyrraedd pentref Dinorwig a chael cyfle i orffwyso ac edmygu'r olgyfa odidog oedd o'm blaen. Gwelwn Gadernid Gwynedd a'r Wyddfa, Brenhines y Caerau, a'i chopa yn gogleisio y cymylau gwlanog, ysgafn, a hwyliai hebio'n dawel. Gweai'r ffordd o Ben y Bwlch i lawr i Lanberis fel pellen o edafedd yn treiglo ar frys, a'r moduron fel pryfed yn ei bryfocio. Yntau, Castell Dolbadarn, yn ffyddlon wylio'r agorfa i'r mynyddoedd.

Dacw'r ysgol a'r iard yn amddifad o blant. Tawelwch lle bu miri iach dinasyddion y dyfodol y pentref. Ond, yr oedd yr adeilad yn raenus, ac er yn wylo o golli ei phlant, yn dal i wasanaethu'r pentref yn ffyddlon.

Ymlaen â mi i gyfeiriad Capel y Calfinaidd. O flaen y Mans deuthum ar draws gŵr ifanc dymunol dros ben yn glanhau ei fodur. Cymro o Borthmadog ydoedd wedi dod, gyda'i deulu bach, i fwynhau cyfaredd tawel y fro. Dyna newid, newyddion da o lawenydd, Cymro — ac nid Sais — wedi sylweddoli ar ragoriaethau Dinorwig a phrydferthwch yr ardal. O, ie, roedd un newid arall — modur hardd oedd modd cludiant y gŵr ifanc, tra roedd y Parchg John Puleston Jones yn gorfod dibynnu ar gert a merlyn i'w gludo gartref o'i lu cyfarfodydd.

Ymlaen i'r chwarel a dod i Farrics Môn — dwy res o fythynnod bychain lle y lletyai chwarelwyr o Fôn yn ystod wythnos o waith. Roedd un neu ddau ohonynt wedi cael to newydd ac wedi cartrefu sawl un yn ôl y dystiolaeth a welais o gwmpas — mainc, hen bapur dyddiol, poteli diodydd, ac yn y blaen.

Newidiodd y tywydd yn sydyn a daeth i lawio'n oer. Felly, bu'n rhaid imi droi am gartref gan droedio'n ofalus i lawr y Llwybr Main. Roedd grisiau llechi y Sig-Sag wedi pantio gan fynych droedio'r chwarelwyr dros gyfnod hir o flynyddoedd. Er syndod imi roedd cyfeiriad y llwybr wedi newid. Oedd roedd yr hen Sig-Sag wedi cael triniaeth llawfeddygol — wedi cael 'by-pass' er gwell neu er gwaeth — ei gwrs a'i natur wedi newid.

Braf oedd cyrraedd gartref i baned a brofai fel hen win. Yna edrych ar yr olygfa o ffenestr fawr y parlwr. Panorama o olygfa o'm blaen. Daeth geiriau Ceiriog i'm cof:

Aros mae'r mynyddau mawr,
Rhuo trostynt mae y gwynt.

Yna'r geiriau trist:

Ond bugeiliaid newydd sydd
Ar yr hen fynyddoedd hyn.

Ie, bugeiliaid newydd gyda diadellau dieithr.

Cwmni TARIAN Cyf.
Yswiriant Car neu Yswiriant Tŷ Gadewch i ni roi pris i chi.
TARIAN
6 Stryd Bangor, Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i holl

SIOP ESGIDIAU GLENS
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
Teganau, Cardiau
Melysion
Anrhegion
Cacennau Nadolig a Bara Brith Traddodiadol
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul
★ Cwrw Felin Foel
Royal Victoria Hotel
wrth droed yr Wyddfa

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Criw o blant Cwm-y-glo gyda Ken Barlow ar eu trip i Stiwdios Granada.

Llongyfarchiadau i Nia, 17 Dôl Afon, ar achlysur ei phen-blwydd yn 21 oed.

Cydymdeimlo: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Idwal Williams a'r teulu, Elidir View, yn eu profedigaeth o golli brawd yng nghyfraith.

Gwellhad Buan: Mae llawer yn y pentref mewn anhwylder. Anfonwn ein cofion at bawb gan ddymuno pob dymuniad da dros Ŵyl y Nadolig ac yn y flwyddyn newydd.

Marwolaeth: Yn dawel yn ei gartref, 5 Dôl Afon, ar 3 Rhagfyr, bu farw Mr Owen Hefin Williams yn 44 oed. Mab ydoedd i'r diweddar Mr a Mrs O. Williams. Diddordeb mawr Hefin oedd cerddoriaeth a chafodd bleser mawr gyda'i organ-geg a'i gitâr. Bu ei angladd ddydd Iau, 8 Rhagfyr, gyda'r Parchg Gwynfor Williams yn gwasanaethu. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w chwaer Sidney a'i frawd Gwilym a'r teulu, yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Newyddion o'r Ysgol: Diolch o galon i bawb a gefnogodd y Bingo Nadolig eleni drwy gyfrannu gwobrau. Gwnaed elw o £240 a threfnwyd y noson gan y rhieni.

Cafodd plant yr Adran Iau ddiwrnod bythgofiadwy yn Stiwdios Granada, Manceinion. Mwynhawyd nifer helaeth o weithgareddau a chawsant brofiadau o wahanol gyfnodau ynghyd â gweld gwaith stiwdio, coluro a thaith arbennig mewn theatr ar gefn beic modur Robocop. Bu nifer ohonynt yn sgwrsio â'r actor William Roach (Ken Barlow) yn Coronation Street. Diolch o galon i Gymdeithas Rhieni / Athrawon am dalu am y bws yno.

Leigh Williams, Bwlch, oedd enillydd gwobr gyntaf Clwb yr Ysgol am fis Tachwedd. Aeth yr ail wobr i Mrs Glenys Pritchard, Bryn Gwynedd.

Ddiwedd y mis cynhaliwyd noson agored i'r rhieni drafod gwaith eu plant a chyfarfod blynyddol Rhieni a Llywodraethwyr yr ysgol.

Eto eleni mwynhawyd pnawn hwyliog yn y pantomeim yn Theatr Seilo. Cyflwynwyd 'Rasus Cymylau' gan fyfyrwyr Adran Celfyddydau Perfformio, Coleg Menai. Llongyfarchiacau iddynt ar eu cyflwyniad.

Cyflwynwyd siec o £43 i Mr Robin Jones, Bethel, tuag at Gymdeithas y Deillion. Carem ddiolch yn ddiffuant i chwi rieni a ffrindiau am eich cefnogaeth barod i'r holl weithgareddau ddiwedd y tymor. Byddwn yn cyflwyno casgliad y cyngerdd Nadolig 'Wyt Ti'n Cofio?' i Gronfa Steffan Jones o Lanrug. Gallwn gyhoeddi'r swm yn y rhifyn nesaf.

Nadolig Llawen a Dedwydd i chwi i gyd gyda'n dymuniadau gorau ar gyfer 1995.

Yr Urdd: Nos Lun, 28 Tachwedd, cafwyd noson Gyrfa Chwilod gyda Mrs Mair Hughes. Diolch yn fawr iawn iddi am y noson ac am ei chefnogaeth drwy'r tymor.

Yna ar nos Lun, 9 Rhagfyr, trefnodd Anti Margaret ac Anti Sioned noson o Bingo. Diolch i Anti Margaret am alw mor dda.

Yng nghyfarfod olaf y tymor daeth Kath Green a Nerys Williams atom i wneud addurniadau Nadolig. Diolchodd Carys iddynt am noson ardderchog.

Parchg John Pritchard yn ymweld â'r ysgol i sôn am y Sacramentau gyda'r plant.

GRANTIAU GOFAL CYMUNEDOL

Cwestiwn: Allwch chi esbonio beth a olygir gan y Gronfa Gymdeithasol?

Ateb: Mae'r Gronfa Gymdeithasol yn helpu pobl â threuliau sy'n anodd eu talu amdanynt allan o'u hincwm rheolaidd. Chwe math o daliad sydd yna — Grantiau Gofal Cymunedol; Bethyciadau Trefnu; Benthyciadau Argyfwng; Taliadau Tywydd Oer; Taliadau Mamolaeth; a Taliadau Angladd.

Nid oes rhaid ad-dalu Grantiau Gofal Cymunedol, Taliadau Tywydd Oer na Thaliadau Mamolaeth. Rhaid ad-dalu Benthyciadau Trefnu ac Argyfwng, ar swm sefydlog bob wythnos fel arfer, ond yn ddi-lôg.

Bydd Taliadau Angladd fel arfer yn ad-daladwy o stad y person sydd wedi marw, os oes un, ond mewn achosion eraill ni fyddant yn ad-daladwy.

Dylai pobl sydd eisiau gwneud cais am help o'r Gronfa Gymdeithasol gysylltu â'u Swyddfa Nawdd Cymdeithasol leol.

Am fwy o wybodaeth am y Gronfa Gymdeithasol, ac am eglurhad manwl o'r prif adrannau yna dylech ofyn am daflen SFL2 *'How the Social Fund Can Help You'* yn eich swyddfa Nawdd Cymdeithasol. Neu mae yna arweiniad arbennig i gynghorwyr — SB16 *'A Guide to the Social Fund'*. Mae'r ddwy daflen ar gael hefyd drwy ysgrifennu at **The Benefits Agency Storage and Distribution Centre, Heywood Stores, Manchester Road, Heywood, Lancashire OL10 2Pz.**

Cwestiwn: Allwch chi esbonio'n fwy manwl am Grantiau Gofal Cymunedol? A sut i wneud cais?

Ateb: Help i bobl sydd mewn amgylchiadau arbennig i fyw yn annibynnol yw Grantiau Gofal Cymunedol. Byddant efallai'n gadael gofal preswyl neu ofal sefydliadol neu angen help i aros yn y gymuned. Rhoir help hefyd i deuluoedd i leddfu pwysau eithriadol. Gellir rhoi grantiau ar gyfer amrywiol eitemau fel dodrefn a chostau symud. Gellir rhoi help hefyd i ofalu am garcharor neu droseddwr ifanc ar gyfnod gartref ac i dalu rhai costau.

Fel rheol, dylech fod yn derbyn Cymorth Incwm yn barod. Os oes gennych chi, neu chi a'ch partner, gynilion dros £500 (£1,000 i'r sawl sydd dros 60 oed), cymerir hynny i ystyriaeth. Os na ellwch gael Grant Gofal Cymunedol gallech gael benthyciad. I wneud cais gofynnwch am Ffurflen SF300 o'ch Swyddfa Nawdd Cymdeithasol.

Ni thelir Grantiau Gofal Cymunedol; Bethyciadau Trefnu na Benthyciadau Argyfwng i bawb sy'n gwneud cais — taliadau dewisol ydynt sydd yn dod o gyllid cyfyngedig. Ystyrir pob cais ar ei rinwedd ei hun ac fe delir yr achosion mwyaf angenrheidiol. Am fwy o wybodaeth am y Gronfa Gymdeithasol yn eich ardal chi cysylltwch â'ch Swyddfa Nawdd Cymdeithasol leol. Mae'r rhif a'r cyfeiriad yn eich llyfr ffôn o dan **'Benefits Agency'**. Neu deialwch **0800 28 90 11 (yn Gymraeg)** neu 0800 666 555 (yn Saesneg) — gwasanaeth cynghori am ddim yw hwn sydd yn rhoi cyngor ac arweiniad cyffredinol am fudd-daliadau Nawdd Cymdeithasol.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams
Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Priodas: Ar Dachwedd 17eg priodwyd Marian Lloyd Jones, merch Mr a Mrs Islwyn Jones, 3 Trem Eilian, â Michael Christy, mab Mr a Mrs T. Christy, Maes Cadnant, Caernarfon. Bydd y pâr priod yn cartrefu yng Nghaernarfon. Ein dymuniadau gorau iddynt yn eu bywyd priodasol.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog, ddiolch i'w theulu, ei chymdoges Eirianwen a'i ffrindiau am eu gofal drosti tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd am y galwadau ffôn ac i'r meddygon ym Meddygfa Llanberis am bob cymorth.

Dymuna Mrs Hannah Jane Jones, 7 Trem Eilian, ddiolch yn gynnes i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd yn ystod ei gwaeledd diweddar yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen.

Damwain: Dymunwn adferiad buan i Grace Ellen Pritchard, sydd wedi cyfarfod â damwain i'w harddwrn.

Sefydliad y Merched: Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen nos Lun, Tachwedd 21ain, yn y Festri. Croesawodd y Llywydd y VCO Mrs Pat Parry, Waunfawr. Etholwyd swyddogion fel a ganlyn – Llywydd: Mrs Pat Jones; Ysgrifennydd: Mrs Betty Owen; Trysorydd: Mrs Mai Davies. Rhoddwyd y te gan Mrs Gwenllian Edwards a Mrs Lynne Jones. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Mai Davies, oedd Mrs Jennie Hughes.

Nos Wener, Rhagfyr 9fed, aeth nifer o aelodau'r gangen i wasanaeth Carolau Grŵp Gwyrfai yn Eglwys Llandwrog. Cymerwyd rhan mewn darlleniad gan Mrs Ifanwy Jones.

Nos Lun, Rhagfyr 12fed, cynhaliwyd y cinio Nadolig blynyddol a daeth nifer dda ynghyd i fwynhau'r wledd yng Ngwesty Gwêl y Llyn, Llanberis.

Bydd y gangen yn ail ymgynnull yn y flwyddyn newydd nos Lun, Ionawr 16eg, 1995.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 872276

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Mrs Megan Williams, Dwyfor, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar Ragfyr 1af.

Cydymdeimlwn â Mrs Kathleen Jones, 2 Pant y Coed, ar golli ei chwaer yng nghyfraith, Miss A. C. Jones (Matron), Glan-llyn, yr wythnos ddiwethaf.

Diolchiadau:

Dymuna Emyr Tomos, Tan y Cae, ddiolch i bawb am eu cardiau a'u dymuniadau da dros y misoedd diwethaf yn ystod ei waeledd.

Dymuna Mrs Megan Williams ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu o gardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115

Cylch Meithrin: Cynhaliwyd sioe ffasiwn lwyddiannus iawn ar nos Fawrth 22 Tachwedd, yn y Neuadd Goffa. Bu plant y pentref yn modelu dillad lliwgar a thrawiadol y cwmni 'Shwldi Mwl'. Roedd elw'r noson yn mynd tuag at y Cylch Meithrin. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac i Siop Treflyn, Garej Minffordd, Y Bedol, John Williams (Bryn Dairy), Swyddfa'r Post, a Shirley Jones, Cremlyn, am eu rhoddion caredig i'r raffl.

Cafwyd Bore Coffi a Ffair Nadolig lwyddiannus yn y Neuadd ar ddydd Sadwrn, 17 Rhagfyr.

Merched y Wawr: Nos Fercher, 7 Rhagfyr, cynhaliwyd cinio Nadolig y gangen yn y Bistro, Llanberis. Wedi'r cinio blasus iawn a chroeso cynnes Mr a Mrs Danny Roberts cafwyd Cwis gan y Llywydd, Mrs Glenys Griffiths. Tynnwyd rafflau'r noson — rhoddwyd gwobrau'r raffl i gyd gan aelodau'r pwyllgor.

Nos Sul, 18 Rhagfyr, cynhaliwyd noson o Garolau dan ofal y gangen yng Nghapel y Cysegr. Cafwyd darlleniadau gan aelodau'r pwyllgor ynghyd ag eitemau cerddorol a llefaru gan gôr y gangen. Cymerwyd rhan hefyd gan blant Ysgolion Sul y pentref. Diolch iddynt am eu gwaith.

Arweinydd y canu oedd Mrs G. Griffiths a Mrs Beti Owen wrth yr organ.

Yr Ysgol: Daeth tymor prysur yr ysgol i ben ar 20 Rhagfyr. Fore lau, 14 Rhagfyr, aeth y plant i gyd i Theatr Seilo i weld cyflwyniad myfyrwyr Coleg Menai o'r pantomeim 'Rasus Cymylau'.

Nos Wener, 9 Rhagfyr, cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn yn yr ysgol. Yn ogystal â'r stondinau arferol a'r raffl fawr arbrofwyd eleni i gael ocsiwn addewidion i derfynnu'r noson. Daeth Mr Geraint Evans o gwmni Morgan Evans yn arwerthwr a bu gwerthu brwd iawn ac ymateb da iawn i'r nwyddau a gynigiwyd. Gwnaed elw o £1,100 ar y noson.

Yn ystod y tymor hefyd cynhaliwyd Ffair Lyfrau lwyddiannus iawn. Gwerthwyd gwerth £1060 o lyfrau Cymraeg a Saesneg yn ystod y dydd.

Yr wythnos diwethaf daeth cyfnod y myfyrwyr i ben — bu Mr Henry Jones, Mrs Anwen Edwards, a Miss Eleri Dafis ar eu hymarfer dysgu cyntaf am saith wythnos. Dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

Gweithiodd y plant yn galed iawn i godi arian i'r apêl Plant Mewn Angen. Drwy werthu cacenni, cwis, ymprydio, a nifer o weithgareddau eraill, casglwyd £375. Penderfynwyd anfon £50 o'r arian i Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru.

Enillwyr y Raffl yn Ffair Nadolig yr Ysgol: 1, (£50) Mr N. White, Arfonia, Tal-y-sarn; 2, David Jones, 671432; 3, Buddug Hughes, 10 Tai Faenol, Llanberis; 4, G. Ll. Evans, Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru; 5, D. G. Roberts, Allt Goch, Cwm-y-glo; 6, Richard Griffith, blwyddyn 3; 7, Angorfa, Saron, Llanwnda; 8, Non, 353751; 9, Bethan Evans, Ysgol Bethel; 10, Gwenllian Alaw Hughes, Fachell Bach, Llanddeiniolen; 11, Jones, Caernarfon 672005; 12, L. G. Hughes, Glyn Trefor; 13, S. Williams, 671447.

Enillwyr Clwb 100 yr Ysgol am fis Tachwedd — £20: John Jones, 10 Trem y Foel, Y Felinheli (15); £10: Ann Lloyd Jones, 8 Penrhos, Bethel (6); £10: Gareth W. Hughes, Erddig, Rhos-lan, Bethel (96); £7: Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr, Penisarwaun (34); £5: Cari ac Iona Evans, Tyddyn Berth, Bethel (65).

Plant Blwyddyn 2 a 3 Ysgol Bethel gyda Mr Alun Foulkes, Tyddyn Gwndwn (Pentraeth Automotives) yn arddangos ei gar rali.

Enillwyr mis Rhagfyr — £20: Mr John Williams, Tyddyn Difyr, Bethel (20); £15: Mrs Jennifer Roberts, Gorwel, Y Ddôl, Bethel (62); £10: Mrs Sheila Roberts, Darwin, Tan-y-buarth, Bethel (109); £7: Mr a Mrs G. James, 97 Y Wern, Y Felinheli (25); £5: Mrs Iola Jones, Hafan, Stad y Rhos, Bethel (8).

Y Gymdeithas Lenyddol: Nos Fawrth, 15 Rhagfyr, cynhaliwyd noson Nadoligaidd y Gymdeithas yn festri Capel Bethel. Cafwyd darlleniadau ac eitemau cerddorol. Hyfforddwyd y canu gan Mrs Deilwen Hughes. Paratowyd pryd ysgafn i ddilyn gan bwyllgor y Gymdeithas.

Yr Urdd: Cymerwyd rhan mewn Gala Nofio yn ddiweddar gan yr aelodau canlynol — dan 10 oed: Tomos Pritchard, Emma Vaughan Jones, Cadi Ostler, Lois Hughes a Ffion Williams; o dan 12 oed: Owain Sion Williams, Dylan Hughes, Iolo Ellis, Aled Vaughan Roberts, Llion Thomas, Sarah Louise, Ffion Owen, Bethan Mair, Gwenan Jones a Nia Catrin. Er na ddaeth llwyddiant i'r gangen y tro yma roedd pawb wedi gwneud eu gorau gan fwynhau'r profiad.

Cafodd 19 o aelodau'r Aelwyd gyfle i fynd i sglefrio i Lannau Dyfrdwy yng nghwmni aelodau eraill o'r rhanbarth. Diolch i Wendy a Jim Ostler a Gwen Jams am ofalu amdanynt.

Bellach mae gweithgareddau'r tymor yma wedi gorffen a'r plant wedi cael sawl noson ddifyr. Daeth WPC Eirlys Jones i siarad hefo'r plant hŷn am ei gwaith fel plismones, gan ddangos iddynt y gwahanol offer sydd ganddi wrth ei gwaith o ddydd i ddydd. I ddiweddu'r tymor mwynhaodd pawb disgo, cŵn poeth a diod. Diolch i Iorwerth Williams am fod yng ngofal peiriant y gerddoriaeth.

Bydd y tymor nesaf yn dechrau yng nghanol mis Ionwr.

Dymuna holl blant a phobl ifainc y Adran Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref.

Y Neuadd Goffa: Cynhaliwyd Disgo Nadolig llwyddiannus iawn yn y Neuadd ar nos Fercher, 14 Rhagfyr. Ymwelodd Siôn Corn â'r Disgo a rhoi anrhegion i'r plant lleiaf i gyd.

Roedd yna ymateb da iawn i'r cystadlaethau arlunio a gwnaed addurniadau Nadolig. Yr enillwyr oedd — dan 4 oed: 1, Hannah Gwyn; 2, Aled Griffiths; 3, Hefin Owen. Dan 6 oed: 1, Sion Foulkes; 2, Marged Rhys; 3, Karl Fisher. Dan 8 oed: 1, Huw Foulkes; 2, Elen Foulkes; 3, Huw Evans. Dan 10 oed: 1, Manon Davies; 2, Manon Davies; 3, Graham Williams. Dan 12 oed: 1, Arwyn Owen; 2, Sarah Morgan; 3, Ianto Fôn Jones.

Tynnwyd raffl y Neuadd yn y cyfarfod ac fe geir rhestr yr enillwyr yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Enillwyr Clwb 200 y Neuadd Goffa am fis Tachwedd: £20: D. Harrison, Bakita (181); £10: Beti Owen, Crud yr Awel (76); £5 yr un: Mair Williams, 5 Tan-y-cae (155); Helen Thomas, Llys Derfel, Saron (129); Joyce Pugh, 9 Tan-y-buarth (130); Pat Owen, Cefn Cynrig (116); Jenkin Griffiths, Llwyn Eithin (29); Julie Aston, Llys Awel, Saron (118); Beryl Jones, 25 Bro Rhos (145); Huw Davies, Ponciau, Llangefni (123).

CYFARCHION Y TYMOR: Dymunir Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion Bethel a'r cylch gan drigolion Cartref Preswyl St. Teilo.

DRAENOG

Roedd Cantorion Elidir i fod i gadw cyngerdd yn un o bentrefi Sir Fôn am 8 o'r gloch un noson cyn y Nadolig. Dyma un o'u cyfeilyddion yn gwirfoddoli i fynd yn y car efo pedair o'r aelodau oedd yn anghyfarwydd â'r ynys . . . 'Fe ddangosa i y ffordd i chi, genod'. Am 9 o'r gloch roedd y merched yn dal i grwydro lonydd culion Môn yn chwilio am ben y daith. Dros Afon Menai . . . a Phont Menai . . . i ganol dryswch Mena(i).

Rhyfedd na fyddai ei gweinidog o WR wedi gallu ei rhoi ar ben y ffordd . . . ag yntau'n sôn cymaint am ei annwyl Sir Fôn!

CAPEL M.C. CAERHUN ger BANGOR

DATHLU CANMLWYDDIANT Y CAPEL

DYDD MAWRTH, 24 IONAWR, 1995

TE, SGWRS AC ARDDANGOSFA

i'r aelodau a chyn-aelodau

(manylion i ddilyn)

Nos Fawrth am 7 o'r gloch: OEDFA

Pregethir gan y Parchg Brifathro Elfed ap Nefydd Roberts, M. A,. Aberystwyth (cyn-weinidog)

CROESO CYNNES I BAWB

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NEWYDD! DRYSAU PALADIN — HARDDWCH COED HEB Y STRACH!

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim

NHBC (01286) 671181 (0831) 326160

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA ODDI
WRTH BAWB YN

SIOP SGLODION BETHEL

Ffôn: 670760

CYFLENWYR PORTHIANT

IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO

Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
Port Dinorwig 670439

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA ODDI WRTH

ANN A BILLY HUGHES

SIOP TREFLYN BETHEL

Ffôn: (01248) 670106

Diolch am eich
cefnogaeth yn
ystod ein blwyddyn
gyntaf yn y siop

CARTREF PRESWYL SANT TEILO

SARON

BETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i
bawb oddi wrth
yr holl breswylwyr, Mrs Bilbie a'r staff
Ymholiadau: Port Dinorwig 670353

Cyfarchion Nadolig

BETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oddi wrth

GWILYM A MEIRWEN JONES

SWYDDFA'R POST BETHEL

Ffôn: Y Felinheli
670261

BWYDYDD, MELYSION
A PHAPURAU NEWYDD

Y BEDOL

FINE TRADITIONAL ALES

BETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll oddi wrth Kevin a Carolynne

Ffôn: Port Dinorwig 670155

Cefnogwch Fusnesau Lleol!

CEIR CYMRU

BETHEL (0248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-drudion a'r Gaerwen, Môn)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y dair blynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol sy'n teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

Dymuniadau gorau yn 1995 i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: **'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**

CYFARCHION NADOLIG WAUNFAWR

Y FAVORIT ESTATE LS – mwy fyth o lwyddiant ysgubol.



SKODA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
John Ferrarese a'r Staff
MODURDY PANT WAEN WAUNFAWR
Ffôn: 650524

GERAINT OWEN
Gosodwr Carpedi
(a phob math o loriau)
Cil-y-mynydd WAUNFAWR
Rhif Ffôn: (01286) 650552

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Mr a Mrs Owen

WELDPAR
CYMRU WALES

8 Pant y Waun
WAUNFAWR. Ffôn: 650426/720
OFFER WELDIO O'R SAFON UCHAF
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

ANTUR WAUNFAWR

SIOP GREFFATU A CHAFFI ANTUR WAUNFAWR

★ Anrhegion Nadolig Iu
★ Basgedi Blodau Sych
★ Olew Aromatherapi

Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. - 4 p.m.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn yr Antur

Mae **Liz a John Whitehead, Anna a Cerys**
SIOP CHIPS WAUNFAWR
Ffôn: 650683
yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

SFP

SNOWDONIA FIRE PROTECTION
YR HEN EFAIL
WAUNFAWR Ffôn: 650235

Offer Diffodd Tân – Masnachol ac i'r Cartref
Offer canfod mwg ar gyfer y cartref
Goleuadau argyfwng Larwm Tân
hyn oll, a llawer mwy i'w weld yn ein siop

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth David a Peter Greasley a'r staff

BSI REGISTERED FIRM

Swyddfa'r Post

SWYDDFA'R POST ac YSTORFA TŶ NEWYDD WAUNFAWR Ffôn: 650708

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Allen, Anne** a **Janice**

Yn ogystal â Swyddfa'r Post newydd mae gennym ein dewis arferol o fwydydd, melysion, ffrwythau papurau, cardiau a bwydydd anifeiliaid

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

EMRYS OWEN
PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Agricultural Engineering)



- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 650253

Mae
LLEUFER A NELMA PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR
yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Camera yng ngofal Heulwen Huws, Argoed. Ffôn: 650556

Y cystadleuwyr yng nghystadleuaeth gwisg ffansi yr Urdd.

Enillwyr Clwb 300 mis Tachwedd — £40: E. Pierce, Bryn Gwyn; £25: S. Wroe, Bryn Siriol; £10: L. Lawrence, Braeside.

Yr Urdd: Daeth Duncan Brown atom ar 23 Tachwedd a bu'n dangos a thrafod sleidiau byd natur. Sara Roberts ddiolchodd iddo. Ar 30 Tachwedd cafwyd noson o gêmau yng nghwmni Margaret o Swyddfa'r Urdd. 7 Rhagfyr cafwyd Disgo Nadolig a chystadleuaeth gwisg ffansi. Daeth Maggie Glen o Gaernarfon i feirniadu a'r buddugol oedd Anna Glyn wedi ei gwisgo fel bin sbwriel. Ifan Morgan ddiolchodd i'r beirniad ac i'r ddau DJ, sef Deian ac Eilir.

Yn ystod y ddau gyfarfod i ddiweddu'r tymor bydd aelodau'r Urdd yn cael noson i wneud addurniadau Nadolig yng nghwmni Sioned a Jean ac yn canu carolau o amgylch y pentref gan ddiweddu'r noson yng nghwmni pwyllgor y Ganolfan yn cael paned a mins pei yn y Ganolfan.

Adref o'r Ysbyty: Croesawn Mrs Mandy Williams, 6 Ael-y-bryn; Mrs Carys Jones, Rhos Alun; Mrs Janet Smith, Rhos-lan; Mrs Griffith, Stad Croesywaun; Miss B. Jones, Tref Eilian; a Mr Edgar Owen, Glyn Awel, adref ar ôl iddynt dreulio cyfnod yn yr ysbyty. Hyderwn eu bod yn gwella.

Anfonwn ein cofion hefyd at bawb sydd yn wael ac yn gaeth i'w cartrefi.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â Mrs Owen Owen, Noddfa, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Collodd Jackie, 9 Stad Tŷ Hen, ei mham yn ddiweddar ac anfonwn ein cydymdeimlad cywir iddi yn ei phrofedigaeth.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd i Mrs Mair Williams, Cefn Coed, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd; ac at Mrs Barbara Griffith, hithau hefyd wedi colli ei brawd.

Llongyfarchiadau

Priodas: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Sandra Jones, Graianfryn ac Emyr Jones, Glasfryn, ar eu priodas. Maent wedi cartrefu ym Metws Garmon.

Llongyfarchiadau hefyd i Helen Wyn Jones, merch Alvona a Dewi ac wyres i Mrs Winnie Jones a'r diweddar Mr E. Gwyrfai Jones (Siop Chips gynt) ar ei phriodas â Victor Powell ym Mhrestatyn yn ddiweddar.

Dyweddïo: Llongyfarchiadau i Shoned Rees, Pant Afon, ar ei dyweddïad ag Iwan Lloyd Griffith o Ben-y-groes.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Mildred a Trefor Beech, Bronallt, ar ddod yn Nain a Thaid — ganwyd mab, Ithen Trefor, i'w merch, Susan.

Llongyfarchiadau i Rhian a Clive, Stad Tŷ Hen, ar enedigaeth merch fach, wyres i Gwynedd a Nansi Williams, 2 Bro Waun.

Bedydd: Fore Sul, 27 Tachwedd, gyda'r Parchg S. O. Hughes yn gweinyddu, bedyddiwyd Thomas Lee, mab bychan Tony ac Einir, ŵyr bach Mrs Helen Jones, Stad Tref Eilian.

Ysgol Feithrin: Roedd y Ganolfan yn orlawn ar 2 Rhagfyr pan gynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yr Ysgol Feithrin a'u cyfeillion. Cafwyd cyflwyniad penigamp gan y plant ifanc o Ddrama'r Geni; perfformiad brwdfrydig a lliwgar a werthfawrogwyd yn fawr gan bawb gan ddod a chlod i ymdrechion yr athrawon.

Ychwanegwyd at ddifyrrwch y noson gan blant Adran yr Urdd, y Clwb Ieuenctid a Pharti Sioned, Gwenda a Sonia.

Darparwyd paned a mins pei ar derbyn yr adloniant ac fe enillwyd y raffl gan Mrs Heulwen Huws.

Y Gymdeithas Lenyddol: Ar nos Lun, 21 Tachwedd, cawsom noson lwyddiannus eto yng nghwmni y Barnwr Dewi Watkin Powell yn sôn am ei alwedigaeth.

Nos Lun, 12 Rhagfyr, cawsom gwmni Miss Catherine Williams o Borthaethwy a roddodd sgwrs ddiddorol am yr amser a dreuliodd ym Mhatagonia.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, 16 Ionawr 1995, pan fydd Mrs Mary Vaughan Jones yn sôn, ac yn dangos sleidiau, am ei thaith i Lychlyn.

Diolchiadau:

Dymuna Geraint a Vernonica Owen, Cilfynydd, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch fach Lea. Dymunant hefyd ddiolch am bob gair ac arwydd o gydymdeimlad a chysur a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth drist o golli tad Veronica a thaid hoff y plant.

Chwaraeon: Enillodd Pearl Williams a Carys Jones gystadleuaeth i'r parau ym mhencampwriaeth Bowlio Mat Byr Gwynedd yn ddiweddar. Byddant yn awr yn cynrychioli Gwynedd ym Mhencampwriaeth Cymru yn Llanelwedd ym mis Mawrth.

Ail-leoli'r Swyddfa Bost: Yr wythnos hon daeth cyfnod arall yn hanes y pentref i ben gyda chau ac ail-leoli'r Swyddfa Bost. Rhyfedd meddwl fod drysau'r adeilad lle bu'r Post am gymaint o flynyddoedd yn awr ar glo, ond rhaid edrych ymlaen i'r dyfodol a dymuno'n dda i'r Swyddfa Bost sydd bellach yn Storfa Tŷ Newydd.

Plygu'r Eco: Ni — trigolion y Waun — fydd yn gyfrifol am blygu'r rhifyn nesaf o'r Eco a ddaw o'r wasg ar nos Iau, 26 Ionawr. Byddwn yn dechrau ar y gwaith tua 5.30 o'r gloch yn Festri Capel Croesywaun. Taer erfynir am gymorth i wneud y gwaith.

Deallwn fod Mrs Roberts, Tref Eilian, wedi syrthio a thorri ei braich. Mawr obeithiwn y caiff adferiad iechyd buan.

Pearl Williams a Carys Jones, pencampwyr Gwynedd mewn Bowlio Mat Byr.

Yn Eglwys Trinity, Prestatyn, priodwyd Helen Wyn, merch Mr a Mrs Dewi Wyn Jones â Victor Powell. Mae Helen Wyn ar hyn o bryd yn gyfreithwraig yn yr Amwythig, a Victor yn rheolwr Sainsbury's yn yr un dref. Yn y dref honno y byddant yn cartrefu. Y morynion oedd Nia Wyn Jones, Kirsty Fisher, Carol Powell a Kim Powell. Bu'r wledd briodas yng Nghastell Rhuthun a threuliwyd y mis mêl yn yr Alban.

Dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

CARPEDI GLÂN

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 650291

hefyd ail-osod carpedi

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

LLOFFION CILDWRN

Cyfrol unigryw sy'n cynnwys amrywiaeth o erthyglau perthnasol i'n dydd ni, gyda chyflwyniad gan y Parchg Ddr R. Tudur Jones.

Llyfr difyr a darllenadwy sy'n cynnig canllawiau ymarferol ynglŷn â materiol o bwys megis: Magu Plant; Duw a'r Amgylchedd; Ymdopi â Straen; Dathlu'r Nadolig; Bywyd Defosiynol; Cymeriad Duw; Natur yr Efengyl, etc.

Bydd yr erthyglau bywiog ac amserol hyn yn cyflwyno deunydd myfyrdod a gwir her i bawb a'u darlleno.

'Cais yw'r erthyglau hyn i fod yn ffyddlon i'r hen wirioneddau gan eu mynegi mewn ffordd sy'n ystyrlon a phernasol i'r byd cyfoes. Y mae'n gais sy'n haeddu'n croeso cynhesaf' — Parchg Dr Tudur Jones.

Pris y gyfrol (clawr meddal): £5.95

Gellir archebu *Lloffion Cildwrn* o'ch siop lyfrau leol neu oddi wrth y cyhoeddwyr:

GWASG CILDWRN,
TŶ CILDWRN,
LLANGEFNI, MÔN, LL77 7NN
Tel / Ffacs: (01248) 750263

MWY O BOSAU NADOLIG

A ellwch chi ddarganfod 10 o wahaniaethau rhwng y ddau lun?

Dim ond DWY o'r coed Nadolig yma sydd â'r un nifer o ganhwyllau, peli a pharseli. Pa ddwy?

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Ffair Nadolig: Cynhaliwyd Ffair Nadolig y Capel eleni yng Nglangwna oherwydd y gwaith atgyweirio ar y Festri. Diolch i Stad Glangwna am fenthyg yr adeilad. Fel arfer roedd yno stondinau, rafflau a gêmau i'r hen a'r ifanc a'r prif enillwyr oedd — Pwysau'r gacen (2 bwys 5 owns): Edwina; Enw'r Carw (Cledwyn): Catrin Gwenllian; Raffl Marian 1: Esmor Wyn; Raffl Aled 1: Y Parchg W. R. Williams. Diolch i bawb am godi £213 tuag at gostau'r capel, y festri a'r fynwent.

Gwasanaethau'r Capel: Cynhelir y gwasanaethau canlynol dros yr Ŵyl a dechrau'r flwyddyn newydd:

Rhagfyr 25 (Dydd Nadolig): Gwasanaeth Carolau i'r Teulu am 10.30 o'r gloch.

Ionawr
- 1: Dim gwasanaeth.
- 8: Y Parchg Iorwerth Jones-Owen am 2 o'r gloch.
- 15: Y Gweinidog, y Parchg W. R. Williams am 2 o'r gloch.
- 22: Y Parchg Gareth Maelor am 2 o'r gloch.

Plygu'r Eco: Siomedig iawn, iawn oedd yr ymateb i'r alwad flynyddol i blygu'r Eco. Oni bai am blant y pentref, a theuluoedd sydd heb fod yn derbyn ein papur bro, ni fyddai'r Eco diwethaf wedi cael ei blygu a'i ddosbarthu i'r pentrefi eraill. Beth wedyn fyddai enw da/drwg y pentref, y trigolion a darllenwyr yr Eco yn y fro? Fodd bynnag diolch i'r ychydig a ddaeth yno i wneud y gwaith ac i'r rhai a ddarparodd luniaeth ysgafn. Diolch yn fawr hefyd i'r casglwyr o bentrefi eraill am ein helpu i orffen y gwaith. Maddeuwch i ni! Y tro nesaf rhaid fydd i ddarllenwyr yr Eco yng Nghaeathro wynebu eu cyfrifoldeb, neu wynebu'r canlyniad o beidio a gwneud y gwaith.

Coed Nadolig: Diolch i Mr a Mrs Chambers-Jones am roi cyflenwad o goed tân ar gyfer henoed y pentref. Diolch hefyd i aelodau Pwyllgor y Cae Chwarae am eu rhannu a'u dosbarthu.

Lliwiau'r Nadolig: Gyda goleuadau'r Capel a choeden Nadolig enwog y pentref wedi eu gosod a'u goleuo gwyddom fod ysbryd y Nadolig yn y pentref.

HEB EI SBECTOL WRTH Y PWMP!

Mae Arwel Hogia'r Wyddfa
Yn brysur iawn o hyd,
Mae'n arwain côr o fechgyn
Ar hyd a lled y byd.

Mae'n canu hefo'r Hogia,
Mae'n actio ar y 'stage',
Cefnogi'r Locomotives
Fel gwallgo yn 'outrage'.

Mae'n arwain cymanfaoedd
A chrwydro'n bell i wneud,
Mae gen i stori ddoniol
Nas dylwn i ei dweud!

Cymanfa oedd un noson,
Yn Hebron, ym Mhen Llŷn,
Ac Arwel gyda'r 'baton' —
Gosgeiddig, hynod ddyn.

Wrth gychwyn yno'n dalog
A llenwi'r cerbyd mawr,
'Roedd digon byth o amser
I gyrraedd ymhen rhyw awr.

Y cerbyd oedd yn pwffian
A thisian ar y daith,
Roedd codiad tir yn broblem
A'r amser aeth yn faith.

Cyrhaeddodd yno'n chwyslyd
Rhag ofn ei fod yn hwyr,
Cymerodd fwy nag awran
I wneud y daith yn llwyr.

Roedd yno lu o ffrindiau
O Ynys Môn yn wir,
Sef llanciau o Fryngwran
Y gorau yn y tir.

Wrth gychwyn adref wedyn
A'r car yn dal yn ffôl,
Meddyliodd am rhyw gynllun
I'w hebrwng adre'n ôl.

Gofynnodd ef i'r hogia
Ei ddilyn ef led llaw,
Rhag ofn i'r cerbyd stopio
A'i adael ar ei faw.

Aeth popeth fel cynlluniwyd
Am ddwyawr ar eu taith —
Roedd pawb ar ben y drysau
Mewn poen ers oriau maith!

Os caf fi'n awr ddadlennu
Mai PETROL roddodd ef
Yn ddiod i'r hen gerbyd
I'w gludo'n nes i'r nef.

Beth sydd yn rhyfedd meddech
Yn hyn, o ryfedd rai,
Wel DISL roir i'r cerbyd
Fel diod sy'n ddi-fai.

Os cawn ni roddi cyngor
Fel clochdar llu o ieir,
Mae'n werth it wneuthur amser
I ddilyn cwrs ar geir!!

LLŶNBER!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym
MHARC GWYLIAU
GLAN GWNA
CAEATHRO. Ffôn: Caernarfon 673456
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

MODURDY
PLAS BACH
CAEATHRO
Ffôn: Caernarfon 672072
GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
FRANCES A RAY
TAFARN
BRYNGWNA
CAEATHRO

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN
GWALIA GAREJ
CAEATHRO
Ffôn: 673096
M.O.T • TRWSIO CEIR
GWASANAETH
TORRI LAWR 24 AWR

YSGOL BRYNREFAIL

Ieuenctid Ysgol Brynrefail ac Ysgol Pendalar yn mwynhau hwyl y parti.

Siôn Corn a'i gorachod yn codi calon un ferch fach.

oddi wrth

6ed Dosbarth Ysgol Brynrefail

Diolch o galon i bawb o'r fro am gyfrannu mor hael i wneud ein parti 'Dolig i Ysgol Pendalar gymaint o lwyddiant eto eleni

Gweler lluniau ac adroddiad yn rhifyn nesaf o'r Eco

Daniel Parry, Eifion Jones ac Ieuan Green a ddewiswyd i dîm pêl-droed dan 15 Arfon.

Y Bistro
43 - 45
Stryd Fawr
LLANBERIS. Ffôn 871278

Rhwng Ynys Môn a Pharis
Does unlle gwell i'w dewis
Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,
Na'r Bistro yn Llanberis

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Danny a Nerys Roberts** a'r staff

SÊR Y DYFODOL? Dyma rai o'r timau ieuenctid sy'n chwarae yn rheolaidd o fewn y fro

Tîm dan 11 Llanberis

Tîm dan 13 Llanrug

Tîm dan 11 Llanrug

Tîm dan 11 Bethel

RHODDION

£10

Teulu y diweddar Alyn Bryn, gynt o 4 Stad Hafod, Clwt-y-bont; Myfi P. Evans, Swn yr Awel, Gallt y Foel.

£5

Cecil a Dilys Williams, 19 Hafan Elan, Llanrug; Eifion a Dylan Griffiths, Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mrs Lewis, Tŷ 'Sgoldy, Waunfawr; Elfed Evans, Hen Barc, Llanllechid; Mrs Jennie Robertrs; 2 Ffrwd Madog, Brynrefail; Mr Munro, Tŷ Capel, Penisarwaun; Ann ac Alun Roberts, 22 Stryd Goodman, Llanberis.

£3

Alice Griffith a Megan Morris, Dinorwig; Melfyn a Sioned, 8 Cefn Elan, Llanrug; Tecwyn ac Elen, 8 Rhos Rug, Llanrug.

£2

Jonathan Richardson, Llys Helyg, Penisarwaun; Elizabeth Roberts, 10 Stryd Turner, Llanberis; Siân ac Eilir Jones, 2 Tai Gwyrfai, Clwt-y-bont.

Dyddiadur y Mis

IONAWR 1995

1. Sul	**DEINIOLEN:** Eglwys Llandinorwig — Gwasanaeth Cristingl am 5 o'r gloch.
4. Mercher	**DINORWIG:** Cyfarfod i'r holl bentrefwyr i drefnu gweithgareddau am y flwyddyn, yn y Ganolfan.
10. Mawrth	**LLANRUG:** Merched y Wawr — Sgwrs a sleidiau gan Sam Roberts.
11. Mercher	**LLANRUG:** Plaid Cymru. Sgwrs gan Mary Vaughan Jones am ei thaith i'r Ffindir — yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 o'r gloch.
16. Llun	**DEINIOLEN:** Merched y Wawr — Sgwrs gan S. Smith. **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched.
18. Mercher	**DEINIOLEN:** Cyfarfod Cyffredinol y Ganolfan am 7 o'r gloch.
23. Llun	**DEINIOLEN:** Y Gymdeithas Lenyddol — Brethyn Cartref.
26. Iau	**WAUNFAWR:** Plygu'r Eco yn Festri Capel Croesywaun o 5.30 o'r gloch ymlaen.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus Sul/Llun 25, 26, Rhagfyr na Dydd Sul 1 Ionawr

Gwasanaeth Sul ar 27 Rhagfyr a 2 Ionawr

CHWARAEON

MÊT YN HOLI JIWS

Ar gyfer rhifyn Nadolig/Ionawr 1995 penderfynais roi cyfweliad i un o brif bêl-droedwyr yr ardal — Marc Lloyd Williams — Jiws. Mae llawer wedi digwydd iddo ers iddo drosglwyddo i Glwb Dinas Bangor o Borthmadog, ac erbyn hyn mae'n dipyn o eilun i selogion Ffordd Farrar. Ar y funud mae'n rhannu teitl prif sgoriwr Cynghrair Konica, gyda Paul Hunter o Inter-Caerdydd, y ddau wedi canfod cefn y rhwyd 16 o weithiau. (Ychydig ddyddiau ar ôl y cyfweliad hwn i'r Eco fe sgoriodd Jiws bum gôl i Fangor yn erbyn Maesteg.) Yn ddi-os cartref o chwaraeon yw cartref Marc a chafwyd orig hynod o bleserus yn ei gwmni. Diolch iddo am fod yn fodlon i ymateb i'r apêl. Gyda llaw, ers cychwyn Cynghrair Konica dair blynedd yn ôl dim ond un gêm yn unig na fu Mark yn chwarae ynddi, a honno — yn rhyfeddol — oedd gêm gyntaf y Konica. Ymlaen â'r holi!

Ydi'r Konica wedi bod yn syniad da?
Ydi yn bendant, gan ei bod wedi uno rhanbarthau Cymru. Mae wedi rhoi cyfleoedd i chwarae yn erbyn clybiau a chwaraewyr gwahanol. Ychydig o newid sy yn aelodaeth cynghreiriau'r gogledd o un tymor i'r llall. Mae sefydlu'r Konica yn ddi-os wedi gwella safonau ar y cae (ac oddi ar y cae) llawer o glybiau.

Ydi safon y Konica wedi gwella o dymor i dymor?
Mae'n gynnar ar hyn o bryd — dim ond tri thymor — ond mae yna welliannau. Mae yna chwaraewyr o safon yn dechrau treiddio drwodd. Daeth cyn-chwaraewr Everton, Kevin Langley, i Fangor ac mae cyn-chwaraewyr Caerdydd ac Abertawe yn britho clybiau'r de. Mae cynllun 'pyramid' y Gymdeithas Bêl-droed yn dechrau dwyn ffrwyth. Mae symud chwaraewyr yn dechrau cynyddu — arwydd da. Fe gymer rhyw ddwy flynedd arall, ac fe fydd y prif glybiau wedi cyrraedd y Konica.

Beth yw barn y chwaraewyr am yr holl drafaelio o glwb i glwb?
Mae hyn yn esgus gan rai yn erbyn y Konica. Dim ond wyth gêm mewn tymor sydd i lawr yn y de. Diwrnod ffwtbol ydi'r Sadwrn gyda'i batrwm ei hun. Ar y bws — tynnu coes, trafod, fideo, cardiau. Mae hyn i gyd yn helpu ysbryd y tîm! Onid ydi Porthmadog yn chwarae yn well i ffwrdd? Beth am Bermo yn chwarae yng Nghaergybi — dwyawr, a hynny o fewn Gwynedd!

Sut mae dy gêm bersonol di wedi gwella?
Mwy o hyder ar y bêl. Trwy chwarae gyda chwaraewyr gwell mae gwelliant yn siwr o ddod. Mae carfan dda ym Mangor. Mae tipyn o brofiod yno — a digon o symud oddi ar y bêl. Wrth ymarfer, mae'r mwyafrif o'r amser yn delio â gwaith gyda'r bêl. Mae'r ffitrwydd yn cael ei adael i'r unigolyn. Mae 'siaradwyr' da yn nhîm Bangor — fiw i mi wneud camgymeriad. A tybed a oes gwell pasiwr o'r bêl na Harry Wiggins?

Dy hoff gae?
Ar wahân i Ffordd Padarn, wrth gwrs, mae'n rhaid i mi ddeud Ffordd Farrar. Mae'n braf cael torf bob

Jiws a'i gapiau.

Sadwrn sy'n cefnogi. Mae awyrgylch Gymreig y Clwb yn fwy amlwg erbyn hyn.

Sut brofiad oedd bod yn Ewrop?
Gwych! Rwyf eisiau mwy ohono! Nid oes 'timau bach' yn Ewrop bellach. Roedd saith o chwaraewyr rhyng-wladol gan Akrannes. Mae ennill y Konica — neu Gwpan Cymru, neu efallai'r ddau — yn hanfodol eleni.

Beth am y dyfodol, Jiws?
Dros y blynyddoedd rwyf wedi bod am dreialon gyda nifer o glybiau ond heb gael fy machu. Nid wyf wedi llwyr anobeithio, ac mae'r sylw cynyddol a gaiff Bangor a'r Konica yn help. Oherwydd prinder arian mae mwy o'r clybiau mawr yn chwilio am chwaraewyr o'r cynghreiriau llai. Os daw y cyfle yna fe fyddwn yn barod i gymryd y sialens. Mae capiau ysgolion a 'non-league' gen i. Buasai'n braf meddwl y gallwn roi rhai eraill yno. Rhaid bod yn uchelgeisiol drwy'r amser — dyna sut mae magu hyder!

Beth am y deif Klinsman ar ôl sgorio?
Y FO sydd yn copïo FI! Yn erbyn Inter y gwnes i o gyntaf a rhaid i mi gyfaddef fy mod yn gwybod bod y camerâu yno! Dangoswyd y 'deif' gyntaf wedi gêm Cwmbran. Erbyn hyn mae dilynwyr ieuengaf Bangor yn gofyn i mi ei gwneud. Mae dynes glanhau y crysau yn chwarae'r diawl!

APÊL

Ers i mi ddysgu gyrru car mae fy ngorwelion wedi ymledu'n sylweddol ar y Sadwrn ac felly nid wyf yn gweld cymaint o gêmau lleol a phan oeddwn yn dyfarnu neu yn cerdded ffyrdd yr ardal ar bnawn Sadwrn.

Rwy'n ymwybodol o'r traddodiad a'r diddordeb mawr ym myd pêl-droed yr ardal ac rwy'n ceisio adlewyrchu, dros gyfnod o flwyddyn, y sbectrwm eang o fyd y campau — a mynegi barn!

Hoffwm pe bai tri o brif dimau yr ardal — Llanberis, Llanrug a Deiniolen — yn ethol un aelod o'u pwyllgor, neu gefnogwr, a fyddai'n fodlon sgwennu PWT BYR am gêmau'r mis. Os dymunant gallant ganolbwyntio ar brif gêm y mis; neu efallai adroddiad am unigolyn, boed yn chwaraewr neu bwyllgorddyn. Byddai hyn yn gyfle hefyd i gael cydbwysedd ymysg y timau yn adroddiadau'r Eco, ac yn gyfle, efallai, i unigolyn feithrin y grefft o ysgrifennu.

TAER ERFYNIAF AR Y CLYBIAU I YMATEB I'R APÊL.

Beth wyt ti'n obeithio fydd uchafbwynt y tymor?
Adennill y Konica. Byddai'n braf cael chwarae yn y Stadiwm Cenedlaethol yn rownd derfynol Cwpan Cymru. Mae Manon, fy chwaer, yn chwarae i dîm merched Bangor ac maent hwythau yn rownd go-gyn-derfynol Cwpan Cymru hefyd. O gofio fod y ddwy gêm derfynol ar yr un diwrnod byddai'n 'ddwbwl' teuluol braf — a chyfle i Dad fynd a Mam i Gaerdydd i siopa!

Oes yna unrhyw siom wedi dod i'th ran hyd yn hyn?
Oes — a honno'n un lleol. Er y capiau a'r tlysau a'r llu atgofion mewn cyfnod byr mae Manon, a Dad, un ar y blaen i mi. Mae nhw wedi ennill Tlws y Mis — a tydw i ddim! Ydi'n bosib i ti roi gair da i mewn drosof?

Amser a ddengys os gwireddir dyheadau a gobeithion Marc ar bob lefel, ond diolch iddo am ei barodrwydd ac am ei onestrwydd. Pob lwc iddo ac i Glwb Bangor am y tymor.

FINI! FINI!

Wedi galanastra gêm Bwlgaria rhaid yw ceisio cadw'r ysbryd. Nid yn unig roedd prinder 'creu' ond gwantan iawn oedd 'gorffen' Rush a'i dîm. Beth am i chi geisio gorffen y limrig hwn am yr arwr Cenedlaethol newydd — Fini Jones.

Dangoswch eich ceisiadau i mi — mae angen codi ysbryd!

Ar ruthr i Rhuthun aeth Fini
I chwilio am dystysgrif geni;
Pan fydd yn wir rhaid
Fe ffendiwn ni daid —

.....

BLE MAE RHAIN ERBYN HEDDIW?

'Gwantan iawn yw'r sylw i ferched ar y dudalen gefn,' meddai rhywun wrthyf yn ddiweddar. Felly dyma blymio i 'archifdy' lluniau diddiwedd Ysgol Brynrefail. Tîm hoci yr Ysgol tua chanol y chwedegau sy yma. Mrs Milner yw'r athrawes, ac rwy'n adnabod un neu ddwy o'r lleill gan fy mod yn byw gydag un ac yn dysgu gydag un arall. Ble tybed mae aelodau'r tîm erbyn hyn? A all rywun roi eu henwau neu efallai nodi ble maent erbyn hyn. Codwch y ffôn, neu beth am ysgrif fer.

Anrhegion Nadolig i'r Fro

GWELEDIGAETH. Bydd yna cryn dipyn o drafod yn y dyfodol agos ynglŷn ag arian y Loteri Cenedlaethol a Chronfa'r Mileniwm. Mae yna lu o glybiau a llawer o wahanol gampau yn ein hardal a phob un, mae'n siŵr, yn llygadu'r gelc! Y boendod yw dim ond un rhodd a ddaw i bob ardal. Da o beth fyddai i gymdeithasau a chlybiau chwaraeon y cylch ddod at eu gilydd gan benderfynu ar brosiect a fydd o fantais i'r ardal gyfan. Dyma gyfle y mae'n rhaid ei gymeryd gan anghofio ein plwyfoldeb.

PENCAMPWRIAETH CYNGHRAIR SAIN I DDEINIOLEN. Mae'n hanfodol erbyn hyn iddynt symud i fyny'r ystol i Gynrhair Gwynedd. Mae yna nifer o chwaraewyr yno sydd o safon uwch na Chynghrair Sain ac anodd fydd eu cadw yn Neiniolen i chwarae'r safon yma am dymor arall.

YMRODDIAD. Y gri flynyddol i'r llu o oedolion profiadol sydd yn yr ardal i roddi eu talent a'u hamser i feithrin a goruchwylio ieuenctid y fro.

BAGAID O 'GROWMORE' a mwy o stamina i Huw Cefn Gwyn. Mae Huw yn fachwr ('hooker' i chi a fi) addawol, ond mae'n cael trafferth i aros ar y cae am 80 munud. Efallai y caiff fenthyg tipyn bach o stamina ei frawd! Mwy o ddringo sgaffaldiau efallai er cryfhau y coesau?

TIPYN O STEIL Y GORFFENNOL yn dod yn ôl i Eithin Duon. Trist yw gweld y clwb arloesol ac uchelgeisiol hwn yn eu sefyllfa bresennol.

CLUST SY'N GWRANDO. Nid yn unig fod yr Awdurdodau yn gwrando ond hefyd yn ymateb i gwynion y Gymdeithas Bysgota leol ynglŷn â llygredd. Yn sicr y Gymdeithas Bysgota yw ein cydwybod yn y sefyllfa hon.

EDMYGEDD. Edmygwn gampau Colin Jones, Alun Vaughan, Caitlin Wroe, ac eraill, sydd yn sbaruno ieuenctid ein hardal. Gydag ymdrech ceir llwyddiant a'r pleser sy'n deillio o hynny.

DIOLCH i bawb a gododd y ffôn, anfon gair, neu weiddi ar draws y stryd(!), am eu cymorth i lunio'r golofn hon yn fisol. Cariwch ymlaen gan mai y mwyaf byd o wybodaeth a dderbyniaf y cawn fwy o amrywiaeth.

Tîm Hoci llwyddiannus Ysgol Brynrefail yng nghanol y 60au.